# Ymateb y Cyngor Optegol Cyffredinol (GOC) i'r ymgynghoriad rheoleiddio busnes

## Gorffennaf 2025

**Tudalen gynnwys**

**Crynodeb gweithredol** ................ Error! Bookmark not defined.
**Cyflwyniad** ................ Error! Bookmark not defined.
**Canfyddiadau** ................ **10**
- **Adran 1: Y cwmpas rheoleiddio** ................ **11**
- **Adran 2: Modelau o sicrwydd rheoleiddiol** ................ **27**
- **Adran 3: Dull gorfodi a sancsiynau** ................ **51**
- **Adran 4: Gwneud iawn i ddefnyddwyr** ................ **59**
- **Adran 5: Meysydd eraill** ................ **71**
  - 5.1 Asesiad o effaith ................ 71
  - 5.2 Yr iaith Gymraeg ................ 73
  - 5.3 Unrhyw feysydd eraill ................ 74

## Crynodeb gweithredol

### Cefndir

1. Y Cyngor Optegol Cyffredinol (GOC) yw rheoleiddiwr y proffesiynau optegol yn y DU. Ar hyn o bryd rydym yn cofrestru tua 34,000 o optometryddion, optegwyr cyflenwi, myfyrwyr dan hyfforddiant a busnesau optegol.

2. Mae Adran 9 Deddf optegwyr1989 ('y Ddeddf') yn darparu i'r GOC gofrestru cyrff sy'n cyflawni gofynion cymhwysedd penodol (gan gynnwys cofrestriad eu cyfarwyddwyr a natur eu gweithgareddau). Mae ein system bresennol yn arwain at gymhwyso ein pwerau rheoleiddio ar gyfer busnesau yn anghyson ac mae ein hymchwil yn amcangyfrif nad yw'n ofynnol i hanner yr holl fusnesau optegol gofrestru gyda'r GOC, neu nid ydynt yn gallu gwneud hynny.

3. Sefydlodd ein hymateb i'r galwad am dystiolaeth yn 2022 o ddiwygiadau deddfwriaethol ein safbwynt y dylai pob busnes sy'n cyflawni swyddogaethau cyfyngedig penodedig[1] gofrestru gyda'r GOC. Mae'r cam gwaith presennol yn canolbwyntio ar y ffordd orau o foderneiddio ein fframwaith rheoleiddio busnesau fel ei fod yn addas at y diben yn nhirwedd newidiol gwasanaethau gofal llygaid ym mhedair gwlad y DU.

4. Fe wnaethom gynnal ymgynghoriad rheoleiddio busnesau a oedd yn ceisio safbwyntiau ar newidiadau i'n fframwaith rheoleiddio busnesau – mae manylion a'r rhesymeg sy'n sail i bob un o'n cynigion ar gael yn atodiadau'r ddogfen ymgynghori. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad o 23 Hydref 2024 i 22 Ionawr 2025. Derbyniwyd 99 ymateb i'r ymgynghoriad gan ystod o randdeiliaid.

### Crynodeb o ymateb GOC i'r canfyddiadau

5. Ceir crynodeb o'n hymatebion i bob un o adrannau'r adroddiad yn y tabl isod. I weld y canfyddiadau hyn a'n hymatebion llawn mewn mwy o fanylder, cyfeiriwch at adrannau perthnasol yr adroddiad.

***Y cwmpas rheoleiddio***

- *Practisau meddygon teulu ac ysbytai (y GIG ac annibynnol) sy'n cyflawni swyddogaethau cyfyngedig:* Daethom i'r casgliad na ddylem reoleiddio darparwyr gwasanaeth (gan gynnwys mewn practisau meddygon teulu neu ysbytai, clinigau, cartrefi nyrsio neu sefydliadau tebyg) sy'n cyflawni swyddogaethau cyfyngedig wrth ddarparu triniaeth feddygol neu lawfeddygol.
- *Unedau masnachol sy'n gweithredu mewn practisau meddygon teulu ac ysbytai:* Daethom i'r casgliad y dylem reoleiddio unedau masnachol annibynnol sy'n cyflawni swyddogaethau cyfyngedig penodedig, p'un a ydynt yn

[1] Gweler paragraff 15 am ddiffiniad o'r swyddogaethau cyfyngedig.

gweithredu o’r un lleoliad â’r practisau meddyg teulu ac ysbytai ai peidio, *oni fydd* y swyddogaethau hyn yn cael eu cynnal fel rhan o’r gofal a ddarperir gan y practis meddyg teulu neu ysbyty.

- *Rheoleiddio elusennau:* Pan fyddwn yn ehangu’r broses rheoleiddio busnesau, dylai unrhyw elusennau sy'n darparu swyddogaethau cyfyngedig penodedig gael eu rheoleiddio gan y GOC oherwydd y rhesymeg gref dros ddiogelu'r cyhoedd.
- *Rheoleiddio clinigau llygaid prifysgolion:* Pan fyddwn yn ehangu’r broses rheoleiddio busnesau, dylai unrhyw glinigau llygaid prifysgolion sy’n darparu swyddogaethau cyfyngedig penodedig gael eu rheoleiddio gan y GOC oherwydd y rhesymeg gref dros ddiogelu’r cyhoedd.
- *Pŵer dewisol i esemptio:* Er ein bod yn cydnabod y pryderon ynghylch pŵer dewisol i esemptio rhai busnesau rhag gorfod cofrestru, credwn y byddai’n ddarbodus meddu ar y pŵer hwn oherwydd mae’r farchnad yn amrywiol ac yn esblygu, ac mae angen i ni sicrhau bod y dulliau rheoleiddio wedi’u targedu, eu bod yn gymesur ac yn diogelu ar gyfer y dyfodol.
- *Mwyafrif o gyfarwyddwyr cofrestredig:* Dylid cael gwared ar y gofyniad i rai cyrff corfforaethol fod â mwyafrif o gyfarwyddwyr cofrestredig am na ellir cyfiawnhau hynny mwyach, mae’n wrth-gystadleuol, wedi dyddio ac yn gweithredu fel rhwystr i gael mynediad i’r farchnad.

***Modelau o sicrwydd rheoleiddiol***

- *Pennaeth ymarfer optegol ar gyfer pob busnes:* Rydym wedi penderfynu y byddai’n briodol i bob busnes optegol gael pennaeth arfer optegol.
- *Cyfrifoldebau’r pennaeth arfer optegol:* Rydym yn croesawu’r gefnogaeth eang gan randdeiliaid mewn cysylltiad â’r cyfrifoldebau arfaethedig o bennaeth arfer optegol. Bydd nodi’r cyfrifoldebau mewn deddfwriaeth sylfaenol yn darparu eglurder ar ddibenion a chyfyngiadau’r rôl. Bydd canllawiau’r GOC yn ategu hyn yn ôl yr angen.
- *Cyfrifoldebau o ran trefniadau lleoliadau hyfforddiant:* Dylai bod gan fusnesau y disgresiwn i benodi’r person mwyaf cymwys ac addas i oruchwylio lleoliadau hyfforddiant, ac mae’n bosibl nad y pennaeth ymarfer optegol fydd yr un unigolyn hwn.
- *Cofrestrydd cymwys y GOC:* Rydym yn croesawu cefnogaeth gadarn gan randdeiliaid y dylai pennaeth ymarfer optegol fod yn gofrestrydd cymwys y GOC a byddwn yn argymell hyn i’r llywodraeth. Dylai’r pennaeth ymarfer optegol fod yn optometrydd neu’n optegydd cyflenwi; y mater pwysig yw eu gallu i gyflawni holl gyfrifoldebau’r rôl.
- *Cyflogai:* Roedd cefnogaeth eang y dylai’r pennaeth ymarfer optegol fod yn gyflogai mewn busnes, ac rydym yn bwriadu bwrw ymlaen â’r cynnig hwn.

- *Busnesau lluosog:* Ein barn ni yw na ddylai un unigolyn gyflawni rôl pennaeth ymarfer optegol ar gyfer nifer o fusnesau ar wahân ac anghysylltiedig. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol o'r gwahanol fodelau busnes yn y sector ac yn gweld y gellid defnyddio hyblygrwydd mewn amgylchiadau cyfyngedig a pharhau i gyflawni anghenion y rôl, gan osgoi sefyllfaoedd lle mae unigolion yn cyflawni rôl enwol neu ymgynghorol ar draws nifer o fusnesau anghysylltiedig.
- *Pŵer i gyflwyno safonau ymddygiad:* Nid ydym yn ystyried ei bod yn angenrheidiol cyflwyno safonau ar wahân ar gyfer y rôl hon. Fodd bynnag, wrth i'r rôl esblygu, rydym yn credu y byddai'n ddarbodus i ni gael yr hyblygrwydd i gyflwyno safonau ychwanegol yn y dyfodol.
- *Nodweddion:* Ni ddylem bennu mewn rheolau nodweddion hanfodol deiliad y rôl. Byddwn yn ystyried yr angen am unrhyw arweiniad ar nodweddion person fel rhan o'n dull gweithredu.
- *Cofrestr fusnes:* Er budd tryloywder cyhoeddus, dylai'r unigolyn a enwebir yn bennaeth ymarfer optegol gael ei restru ar gofrestr fusnes y GOC.
- *Anodiad ar gofrestr unigol:* Os bydd rhywun wedi'i restru fel rhan o'r cofnod cofrestrydd busnes, yna nid oes angen anodi'r wybodaeth hon i'w cofnod cofrestrydd unigol.

***Dull gorfodi a sancsiynau***

- *Pwerau i osod cosb ariannol:* Er nad yw rhanddeiliaid yn ffafrio cosbau ariannol heb eu capio, rydym yn ystyried mai'r dull hwn fyddai'n adlewyrchu orau amrywiaeth modelau busnes a'r angen i ddiogelu ein deddfwriaethau ar gyfer y dyfodol.
- *Pŵer i ymweld:* Rydym wedi penderfynu peidio cyflwyno'r pŵer hwn ac rydym yn ystyried bod ein prosesau presennol (er enghraifft, gallwn orfodi busnes i ddarparu gwybodaeth ysgrifenedig a gallem ymweld â busnes gyda'u cydsyniad) yn ddigonol i fynd i'r afael â phryderon addasrwydd i gynnal busnes.

***Gwneud iawn i ddefnyddwyr***

- *Cyfranogiad gorfodol:* Yn y pen draw, fel rheoleiddiwr sy'n canolbwyntio ar y claf, rydym yn ystyried bod cyfranogiad gorfodol yn y Gwasanaeth Cwynion Defnyddwyr Optegol (OCCS) yn angenrheidiol i sicrhau diogelwch y cyhoedd a byddai'n ateb cymesur, a byddwn yn argymell y model hwn i'r llywodraeth.
- *Penderfyniadau sy'n gyfreithiol rwymol:* Rydym wedi penderfynu argymell i'r llywodraeth y dylai'r OCCS barhau i fod yn gynllun cyfryngu, yn hytrach na symud i fodel dyfarnu.
- *Cyflawni cynllun gwneud iawn i ddefnyddwyr:* Rydym yn bwriadu cadw'r model presennol o gyflenwi ein cynllun iawndal gyda darparwr unigol drwy gystadleuaeth ar gyfer model y farchnad.

- *Ariannu'r cynllun gwneud iawn i ddefnyddwyr:* Rydym yn bwriadu parhau gyda'r trefniadau ariannu presennol ar gyfer yr OCCS, gan rannu'r gost ymhlith cofrestreion drwy'r ffi gofrestru, am mai'r system hon yw'r un mwyaf syml i'w gweinyddu, a'n safonau ni yw'r dull gorau o fynd i'r afael ag unrhyw amrywioldeb mewn arferion annheg a thrin cwynion haen gyntaf gan fusnesau.

**Y camau nesaf**

6. Er ein bod yn arwain ymgysylltiad gyda rhanddeiliaid a'r sector drwy'r ymgynghoriad hwn, nid ni sy'n gyfrifol am gytuno ar newidiadau i'r Ddeddf ond y Senedd, a Llywodraeth y DU fydd yn pennu cyflymder a chanlyniad unrhyw newidiadau a geisir i'r broses rheoleiddio busnesau.

7. Rydym yn ymrwymedig i weithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid i fireinio a datblygu ein cynigion ymhellach, er enghraifft, mewn cysylltiad â rôl y pennaeth ymarfer optegol. Byddwn yn cadarnhau ein cynlluniau i fwrw ymlaen â hyn pan fydd yr amserlen ar gyfer gwneud diwygiadau i'r Ddeddf yn fwy clir.

8. Os byddwn yn cyflawni diwygiad deddfwriaethol i ehangu a moderneiddio'r system rheoleiddio busnesau, bydd llawer o'r manylion yn cael eu gweithredu mewn deddfwriaeth eilaidd a/neu ganllawiau. Bydd ymgynghoriadau pellach ar unrhyw ddeddfwriaeth neu ganllawiau, gan roi cyfle i randdeiliaid roi mewnbwn yn ôl yr angen.

## Cyflwyniad

9. Mae'r Cyngor Optegol Cyffredinol (GOC) yn un o nifer o sefydliadau yn y DU sy'n cael eu hadnabod fel rheoleiddwyr iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r sefydliadau hyn yn goruchwylio'r proffesiynau iechyd a gofal cymdeithasol drwy reoleiddio gweithwyr proffesiynol unigol a rhai busnesau/lleoliadau. Ni yw'r rheoleiddiwr ar gyfer y proffesiynau optegol yn y DU. Ar hyn o bryd rydym yn cofrestru tua 34,000 o optometryddion, optegwyr cyflenwi, optegwyr dan hyfforddiant a busnesau optegol.

10. Mae gennym bedair swyddogaeth sylfaenol:

- pennu safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant, perfformiad ac ymddygiad optegol;
- cymeradwyo cymwysterau sy'n arwain at gofrestriad;
- cynnal cofrestr o'r rhai sy'n gymwys ac addas i ymarfer, hyfforddi neu gyflawni busnes fel optometryddion ac optegwyr cyflenwi;
- ymchwilio a gweithredu pan fydd addasrwydd cofrestrwyr i ymarfer, hyfforddi neu gyflawni busnes wedi'i amharu.

**Cefndir i'r ymgynghoriad**

11. Roedd yr ymgynghoriad hwn yn ceisio safbwyntiau ar newidiadau i'n fframwaith ar gyfer rheoleiddio busnesau. Mae manylion a rhesymeg pob un o'n cynigion ar gael yn atodiadau'r ddogfen ymgynghori ar reoleiddio busnesau.

12. Mae Adran 9 Deddf Optegwyr 1989 ('y Ddeddf') yn darparu i'r GOC gofrestru cyrff corfforaethol sy'n cyflawni gofynion cymhwysedd penodol (gan gynnwys ynghylch cofrestriad eu cyfarwyddwyr a natur eu gweithgareddau). O dan adran 28 y Ddeddf, mae'n drosedd i fusnes anghofrestredig ddefnyddio teitl, ychwanegiad neu ddisgrifiad sy'n awgrymu'n ffug gofrestriad gyda'r GOC, h.y. mae cofrestriad y GOC yn orfodol i gyrff corfforaethol sy'n defnyddio teitl gwarchodedig.

13. Mae ein system bresennol yn arwain at gymhwysiad anghyson o'n pwerau rheoleiddiol ar gyfer busnesau ac mae ein hymchwil yn amcangyfrif bod tua hanner yr holl fusnesau optegol mewn sefyllfa lle nad yw'n ofynnol iddynt gofrestru gyda'r GOC neu nid ydynt yn gallu gwneud hynny. Pan fyddwn yn cyfeirio at fusnesau yn yr ymateb hwn, rydym yn cyfeirio at holl ddarparwyr gwasanaethau optegol, gan gynnwys y rhai nad ydynt o bosibl yn cael eu hystyried yn fusnesau optegol e.e. clinigau llygaid prifysgolion ac elusennau.

14. Os bydd rhaglen ddiwygio ddeddfwriaethol yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) yn mynd rhagddi, rydym am ddefnyddio'r cyfle hwn i

ddiweddaru ein deddfwriaeth a'r agweddau o’r Ddeddf sy'n berthnasol i'r sector optegol yn unig. Dechreuodd ein hadolygiad o’n deddfwriaeth yn 2022 yn ein galwad am dystiolaeth ar Ddeddf Optegwyr 1989 a pholisïau cysylltiedig y GOC <https://optical.org/consultations1/archived-consultations/2022-consultation-call-evidence-on-opticians-act.html> a oedd yn gam cyntaf mewn rhaglen waith i sicrhau bod ein deddfwriaethau a’n polisïau cysylltiedig yn addas ar gyfer y dyfodol.

15. Fel rhan o’r galwad am dystiolaeth yn 2022, aethom i’r afael â’r maes rheoleiddio busnesau a chomisiynu ymchwil gan Europe Economics o’r enw Mapio Busnesau Optegol. Cadarnhaodd yr ymgynghoriad bod cefnogaeth gref ymhlith y rhanddeiliaid i ehangu’r broses rheoleiddio busnes i bob busnes sy’n cynnal swyddogaethau cyfyngedig. Yn ein hymateb i’r ymgynghoriad yn 2023, dywedasom y byddem yn datblygu cynigion ac yn ymgynghori ar fframwaith wedi’i ddiweddaru ar reoleiddio busnesau.

16. Diffiniwyd swyddogaethau cyfyngedig (y cyfeirir atynt fel ‘swyddogaethau cyfyngedig penodedig’) yn nogfen yr ymgynghoriad fel:

- profi golwg;
- gosod lensys cyffwrdd;
- cyflenwi lensys cyffwrdd (lensys cyffwrdd ar bresgripsiwn a lensys cyffwrdd cosmetig dim pŵer);
- gwerthiannau sbectolau i blant o dan 16 oed y cofrestrwyd bod ganddynt nam neu nam difrifol ar eu golwg.

**Y broses ymgynghori**

17. Roedd ein hymgynghoriad rheoleiddio busnesau yn agored am 13 wythnos o 23 Hydref 2024 i 22 Ionawr 2025.

18. Derbyniwyd 99 ymateb i’r ymgynghoriad gan ystod o randdeiliaid gwahanol. Roedd y rhain yn cynnwys:

- un claf optegol;
- 36 optometrydd;
- saith optegydd cyflenwi;
- pump optegydd lensys cyffwrdd;
- tri optometrydd cyflenwi therapiwtig;
- dau optometrydd dan hyfforddiant;
- 17 o gofrestreion busnes y GOC;
- 11 busnes optegol (nid cofrestrwyr busnes y GOC);
- pedwar darparwr addysg;
- saith corff optegol proffesiynol/cynrychiadol;
- dwy elusen/sefydliad cynrychioli cleifion.

19. Y sefydliadau a oedd yn barod i gael eu henwi oedd:

- Cymdeithas Optegwyr Cyflenwi Prydain (ABDO)
- Cymdeithas yr Optometryddion (AOP)
- Pwyllgor Optegol Lleol (LOC) Bexley, Bromley a Greenwich
- Clyde & Co LLP
- Coleg yr Optometryddion
- F.Y. Eye Global Consulting
- FODO (Y Gymdeithas Darparwyr Gofal Llygaid)
- Heyes Opticians Cyf
- MyEyes (Opticians) Cyfyngedig
- Optometreg yr Alban
- Optometreg Cymru
- Optegwyr Pearce & Blackmore
- Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (PSA)
- Robinson Optometrists Cyf
- SeeAbility

20. Rydym yn ddiolchgar am yr holl adborth a dderbyniwyd ac rydym wedi ystyried hyn wrth benderfynu ar ein camau nesaf.

**Y dull o gynhyrchu'r ymateb hwn**

21. Anogwyd yr ymatebwyr i ddarparu sylwadau ar hyd cyfnod yr ymgynghoriad. Fe wnaethom adolygu pob sylw a dderbyniwyd. Ni allwn gynnwys ymatebion unigol i bob un o'r sylwadau yn yr adroddiad oherwydd y nifer a dderbyniwyd.

22. Mae unrhyw sylwadau sydd wedi'u cynnwys wedi'u cynhyrchu gair am air, er ein bod wedi gwneud mân gywiriadau i wallau sillafu a/neu ramadegol lle roeddem yn ystyried bod y rhain yn amlwg.

23. Rydym ond wedi cynnwys sylwadau pan oedd yr ymatebwyr wedi cydsynio i'w hymateb gael ei gyhoeddi (naill ai ochr yn ochr â'u henw neu'n ddienw). Nid yw'n arfer gennym i gynnwys enwau ymatebwyr unigol, hyd yn oed pan fyddant wedi rhoi cydsyniad i ni gyhoeddi eu hymateb.

**Ymchwil cleifion a'r cyhoedd**

24. Fel rhan o'n dull ymgynghori, fe wnaethom gomisiynu ymchwil i gasglu safbwyntiau cleifion ar rai o'n cynigion. Roedd yr ymchwil yn cynnwys tri grŵp ffocws ar-lein (cyfanswm o 24 cyfranogwr), cyfweliadau manwl dros y ffôn gydag unigolion sydd wedi profi anfodlonrwydd gyda gwasanaethau optegol (tri chyfranogwr) ac arolwg omnibws o 2,205 o aelodau'r cyhoedd y DU.

25. Rydym wedi crynhoi canfyddiadau'r ymchwil hwn mewn adrannau perthnasol o'r adroddiad isod. Am fanylion pellach am y fethodoleg a'r canfyddiadau, mae'r adroddiad a thablau data ar gael ar ein gwefan.

## Panel Cynghori

26. Fe wnaethom drafod ein hymateb arfaethedig hefyd gyda'n Panel Cynghori, sy'n cynnwys pedwar pwyllgor statudol: Pwyllgor Cwmnïau, Pwyllgor Addysg, Pwyllgor Cofrestru a'r Pwyllgor Safonau. Eu rôl yw rhoi cyngor a chymorth i'n Cyngor. Rydym wedi ymgorffori eu sylwadau pan roddwyd gwybodaeth ychwanegol i ni ganddynt nad oedd wedi'i chodi eisoes yn ystod yr ymgynghoriad.

## Y camau nesaf

27. Er ein bod yn arwain yr ymgysylltiad gyda rhanddeiliaid a'r sector drwy'r ymgynghoriad hwn, nid ni fydd yn gyfrifol am gytuno ar newidiadau i'r Ddeddf ond y Senedd, a bydd cyflymder a chanlyniad unrhyw newidiadau a geisir i ddulliau rheoleiddio busnesau yn cael eu pennu gan Lywodraeth y DU.

28. Rydym yn ymrwymedig i weithio mewn partneriaeth gyda rhanddeiliaid i fireinio a datblygu ein cynigion ymhellach, er enghraifft, mewn cysylltiad â'r rôl pennaeth ymarfer optegol. Byddwn yn cadarnhau ein cynlluniau ar gyfer bwrw ymlaen gyda'r gwaith hwn pan fydd yr amserlen ar gyfer diwygio'r Ddeddf yn gliriach.

29. Os byddwn yn cyflawni diwygiad deddfwriaethol i ehangu moderneiddio'r system rheoleiddio busnes, bydd llawer o'r manylion yn cael eu gweithredu mewn deddfwriaeth eilaidd a/neu ganllawiau. Bydd ymgynghoriadau pellach ar unrhyw ddeddfwriaeth neu ganllawiau, gan roi cyfle i randdeiliaid roi mewnbwn yn ôl yr angen.

## Canfyddiadau

### Adran 1: Y cwmpas rheoleiddio

**Practisau meddygon teulu ac ysbytai (y GIG ac annibynnol) sy’n cyflawni swyddogaethau cyfyngedig**

30. Gofynnwyd i randdeiliaid i ba raddau yr oeddynt yn cytuno neu’n anghytuno y dylai practisau meddygon teulu ac ysbytai (y GIG ac annibynnol) sy’n cyflawni swyddogaethau cyfyngedig penodedig gael eu heithrio o system rheoleiddio busnesau'r GOC. O’r 92 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn, roedd 39 yn cytuno neu’n cytuno’n gryf, nid oedd 13 y cant yn cytuno nac yn anghytuno, ac roedd 48 y cant yn anghytuno neu’n cytuno’n gryf.

31. Nodwyd y themâu canlynol o’r sylwadau:

- Dylai’r system rheoleiddio fod yn gyson a bod yn berthnasol waeth beth fo'r amgylchedd, gan ddarparu tegwch;
- dylai dulliau rheoleiddio fod yn berthnasol mewn lleoliadau practisau meddygon teulu/ysbytai yn unig lle bydd gweithgarwch masnachol;
- mae ymarferwyr meddygol a phractisau meddygon teulu ac ysbytai eisoes yn cael eu rheoleiddio – nid yw dyblygu rheoleiddio yn briodol, gallai arwain at gostau ychwanegol a gallai greu dryswch a chanlyniadau anfwriadol;
- dylem nodi unrhyw fylchau yn y system reoleiddio bresennol i sicrhau tegwch a diogelwch i gleifion.

32. Yn gyffredinol, er y cafwyd cydnabyddiaeth o ddulliau rheoleiddio presennol gan gyrff eraill, y teimlad cyffredinol oedd bod angen rheoleiddio cyson ar draws darparwyr swyddogaethau cyfyngedig penodedig i sicrhau tegwch, diogelwch i gleifion ac er mwyn osgoi bylchau rheoleiddiol.

33. Roedd y cyrff optegol proffesiynol/cynrychioliadol yn cytuno’n gyffredinol y byddai’n anghymesur i reoleiddio practisau meddygon teulu ac ysbytai wrth ddarparu triniaeth feddygol, oherwydd gallai ddyblygu dulliau rheoleiddio ac arwain at gostau a beichiau ychwanegol. Fodd bynnag, rhybuddiodd yr AOP y gallai fod amwysedd ynghylch pwy sydd â goruchwyliaeth dros fusnes sy'n gweithredu mewn practis meddyg teulu neu ysbyty oherwydd y gofynion cofrestru presennol sydd ar waith ar gyfer y Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC). Roedd yn dadlau, oherwydd bod gofynion y Comisiwn Ansawdd Gofal yn caniatáu eithriad i wasanaethau offthalmig sylfaenol (er enghraifft optometryddion y stryd fawr) neu wasanaethau offthalmig sydd yr un fath â’r rhai sy’n cael eu darparu gan optometryddion y stryd fawr, y byddai angen i ni fod yn ofalus o unrhyw eithriad cyffredinol ar gyfer practisau meddygon teulu ac ysbytai.

34. Roedd llawer o’r pwyntiau a wnaed mewn ymateb i’r cwestiwn hwn yn fwy perthnasol i’n cwestiwn nesaf ar a ddylid rheoleiddio unedau masnachol sy’n gweithredu mewn practisau meddygon teulu neu ysbytai.

35. Mae sampl o’r sylwadau ar gael yn y blwch isod.

> *“Dylai pob ymarferydd fod yn ddarostyngedig i system reoleiddio unffurf.”* Claf optegol
>
> *“Dylai rheoleiddio fod yr un fath i bob darparwr.”* Optometrydd
>
> *“…os yw prawf golwg neu swyddogaeth gyfyngedig yn cael eu cynnal gan Ysbyty (mae’n annhebygol mewn practis meddyg teulu) fel rhan o becyn gofal clinigol, yna ni ddylai’r Ymddiriedolaeth neu ddarparwr fod yn ddarostyngedig i broses rheoleiddio busnesau y GOC, oherwydd bydd ganddynt ofynion llywodraethu eraill e.e. CQC.”* Optometrydd
>
> *“Dylai darparwyr swyddogaethau cyfyngedig orfod cydymffurfio â'r rheoliad ar gyfer y swyddogaeth gyfyngedig honno waeth beth fo'r amgylchedd.”* Optegydd lensys cyffwrdd
>
> *“…Ar yr amod bod y gwasanaethau dan sylw yn cael eu harwain gan gofrestrydd y GMC, dylai claf barhau i dderbyn gofal o’r safonau uchaf a byddai’n anghymesur i’r GOC ddarparu proses reoleiddio ychwanegol. Rydym yn cefnogi’r cynnig ar yr amod bod cleifion yn derbyn lefelau cyfwerth o ddiogelwch lle bynnag a phryd bynnag y byddant yn cael mynediad at wasanaethau sy’n cynnwys swyddogaethau cyfyngedig …”* ABDO
>
> *“…mae’r darparwyr hyn eisoes yn cael eu rheoleiddio gan y CQC. Oherwydd y bydd optometryddion sy’n darparu swyddogaethau cyfyngedig yn y lleoliadau hyn yn cael eu rheoleiddio fel unigolion (a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill gan eu rheoleiddiwr) credwn y byddai’n anghymesur ac afrealistig i’r GOC geisio rheoleiddio’r lleoliadau hyn hefyd...”* Coleg yr Optometryddion
>
> *“Ar yr amod bod y gwasanaethau dan sylw yn cael eu harwain gan gofrestrydd y GMC, er enghraifft Ymarferydd Meddygol Offthalmig/offthalmolegydd, yna byddem yn cefnogi’r cynnig hwn...byddai unrhyw broses reoleiddio ychwanegol gan y GOC yn anghymesur…”* FODO – Y Gymdeithas Darparwyr Gofal Llygaid
>
> *“Rydym yn cytuno â’r datganiad hwn, cyhyd ag y bydd y gwasanaethau y cyfeirir atynt yn cael eu harwain gan gofrestrydd y GMC, er enghraifft Offthalmolegydd neu Ymarferydd Meddygol Offthalmig. Mae practisau meddygon teulu ac ysbytai (y GIG ac annibynnol) yn cael eu rheoleiddio gan y sefydliadau perthnasol.”* Optometreg Cymru

*Ymateb y GOC –practisau meddygon teulu ac ysbytai (GIG ac annibynnol) sy’n cyflawni swyddogaethau cyfyngedig*

36. Fel y nodir ym mharagraffau 78-80 ein dogfen ymgynghori, nid oeddem wedi cynnig rheoleiddio practisau meddygon teulu ac ysbytai/clinigau sy'n darparu swyddogaethau cyfyngedig *yn ystod triniaeth feddygol neu lawfeddygol.* Mae hyn ar y sail bod y gwasanaethau hynny eisoes yn cael eu rheoleiddio ar wahân ac mae hyn yn adlewyrchu'r fframwaith deddfwriaethol presennol. Yn benodol, mae'r Ddeddf a'r rheoliadau profi golwg[2] wedi'u hysgrifennu mewn ffordd sy'n golygu nad yw'r gofynion i ymgymryd â dyletswyddau penodol wrth brofi golwg yn berthnasol pan fydd y profion yn cael eu cynnal gan feddyg mewn ysbyty neu glinig wrth wneud diagnosis neu drin anaf neu glefyd y llygad[3].

37. Roedd gwahaniaeth barn rhwng cyrff cynrychioliadol ac ymatebwyr unigol, gan adlewyrchu o bosibl rhywfaint o gamddealltwriaeth ynglŷn â chyfres dechnegol o faterion. Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, rydym o'r farn na ddylem reoleiddio darparwyr gwasanaeth (gan gynnwys mewn practisau meddygon teulu neu ysbytai, clinigau, cartrefi nyrsio neu sefydliadau tebyg eraill) sy'n cyflawni swyddogaethau cyfyngedig wrth ddarparu triniaeth feddygol neu lawfeddygol. Rydym wedi clywed y pryderon ynglŷn ag eithriad cyffredinol a byddwn yn awgrymu i'r llywodraeth eu bod yn parhau i ddefnyddio geiriad tebyg i'r eithriad presennol yn y Ddeddf Optegwyr ar gyfer mynd i'r afael â sefyllfaoedd lle mae busnes masnachol yn cael ei gynnal mewn lleoliad practis meddyg teulu, ysbyty neu leoliad arall tebyg ond nid wrth ddarparu triniaeth feddygol neu lawfeddygol.

**Unedau masnachol sy'n gweithredu mewn practisau meddygon teulu ac ysbytai**

38. Fe wnaethom holi rhanddeiliaid a oeddynt yn credu y dylai unedau masnachol sy'n gweithredu mewn practisau meddygon teulu ac ysbytai sy'n darparu swyddogaethau cyfyngedig penodedig gael eu rheoleiddio gan y GOC. O'r 70 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn, atebodd 86 y cant y dylent, atebodd chwech y cant na ddylent, ac nid oedd naw y cant yn siŵr.

39. Nodwyd y themâu canlynol o'r sylwadau:

- dylid cymhwyso'r rheoliad hwn yn gyson i bob darparwr, gan gynnwys y grŵp hwn i sicrhau diogelwch cleifion a safonau gofal;
- os bydd gwasanaeth masnachol yn cael ei arwain gan gofrestrydd y GOC yn annibynnol ar y practis meddyg teulu / ysbyty, dylai gael ei reoleiddio gan y GOC;

[2] Rheoliadau Profi Golwg (Archwilio a Rhagnodi) (Rhif 2) 1989
[3] Rheoliad 3(2) Rheoliadau Profi Golwg (Archwilio a Rhagnodi) (Rhif 2) 1989

- os mai prif swyddogaeth y busnes yw darparu gwasanaethau offthalmoleg / iechyd llygaid, efallai y bydd angen eithriad neu ystyriaeth ofalus er mwyn osgoi cymhlethdodau rheoleiddiol;
- gallai fod dryswch posibl i gleifion ynghylch y corff rheoleiddio sy'n gyfrifol am eu gofal, gan awgrymu y gallai rheoleiddio diofyn gan y GOC gefnogi dealltwriaeth y cyhoedd;
- mae angen eglurder ynghylch yr hyn sy'n cyfrif fel 'uned fasnachol' a dylid dylunio unrhyw esemptiadau yn ofalus.

40. Yn gyffredinol, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn ffafrio rheoleiddio cyson gan y GOC ar gyfer busnesau optegol sy'n darparu gwasanaethau masnachol, gan gynnwys y rhai wedi'u lleoli mewn practisau meddygon teulu neu ysbytai, i sicrhau unffurfiaeth mewn safonau diogelwch a gofal cleifion. Cefnogwyd y farn hon yn gyffredinol gan y cyrff optegol proffesiynol/cynrychioliadol, gyda'r amod, er mwyn osgoi dyblygu rheoleiddio, mai dim ond pan fyddant yn gweithredu'n annibynnol ar y feddygfa deulu / ysbyty y dylai busnesau ddod o fewn y cwmpas.)

41. Mae sampl o'r sylwadau ar gael yn y blwch isod.

*"Mae unedau masnachol yn debyg i optegwyr y stryd fawr, ac ni ddylai eu lleoliad fod yn bwysig."* Busnes optegol (nid busnes sydd wedi cofrestru gyda'r GOC)

*"Mae'n sicrhau diogelwch cleifion a safonau gofal cyson ar gyfer gwasanaethau optegol masnachol."* Optegydd cyflenwi

*"Mae practisau meddygon teulu ar wahân i ysbytai oherwydd mae rhai ohonynt yn ymgorffori practis optometreg – os dyma yw'r achos, dylai'r practis optometreg sy'n cyflawni swyddogaethau cyfyngedig masnachol gael eu rheoleiddio gan y GOC. Dylai practisau optometreg sy'n gweithio mewn dull masnachol fod yn ddarostyngedig i reoliadau'r GOC."* Darparwr addysg

*"Os yw hyn yn weithrediad masnachol annibynnol wedi'i leoli ar safle practis meddyg teulu neu ysbyty ac felly'n gweithredu y tu allan i awdurdodaeth yr awdurdodau rheoleiddio meddyg teulu neu ysbytai, dylai fod yn ddarostyngedig i system reoleiddio'r Cyngor Optegol Cyffredinol (GOC)."* ABDO

*"Ni ddylai unedau masnachol mewn practisau meddygon teulu ac ysbytai gael eu trin yn wahanol i unrhyw uned arall. Am eu bod yn lleoliadau sy'n cael eu hisosod, yr unig wahaniaeth rhyngddynt ag unrhyw uned fasnachol arall yw eu lleoliad."* AOP

*"…byddai'n fuddiol - er mwyn sicrhau cysondeb ac unffurfiaeth - bod unedau sy'n darparu swyddogaethau masnachol yn cael eu rheoleiddio, yn enwedig gan fod rhai darparwyr annibynnol yn gweithredu allan o bractisau meddygon teulu. Mae hyn yn digwydd er enghraifft lle mae ystafell yn cael ei llogi mewn practis*

*meddygon teulu gan fusnes optegol, lle gellir cyflawni swyddogaethau cyfyngedig. Byddai'n bwysig bod yr endidau hyn yn cael eu rheoleiddio, gan nad ydynt yn debygol o fod yn ddarostyngedig i reoliad CQC y practis/ysbyty ehangach. Fodd bynnag, byddem yn dymuno gweld diffiniad cliriach o'r hyn y mae'r GOC yn ei ystyried yn 'uned fasnachol' cyn gwneud sylwadau pellach."* Coleg yr Optometryddion

*"…Os yw'r gwasanaeth masnachol yn cael ei weithredu/arwain gan gofrestrydd y GOC yn annibynnol ar y meddyg teulu/ysbyty (h.y. nid yw sefydliad darparu gwirioneddol y gwasanaeth masnachol yn ddarostyngedig i reoliadau'r Gymdeithas Heintiau Ysbyty (HIS), Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC), CQC, yr Awdurdod Rheoleiddio a Gwella Ansawdd (RQIA), yr Arolygiaeth Gofal neu Arolygiaeth Gofal Cymru) yna dylai gael ei reoleiddio gan y GOC…"* FODO – Y Gymdeithas Darparwyr Gofal Llygaid

*"…yn achos unedau masnachol sy'n gweithredu mewn practisau meddygon teulu ac ysbytai, byddai'n ddefnyddiol deall pa oruchwyliaeth reoleiddiol arall fyddai'n berthnasol ac felly'r lefel bresennol o risg heb ei rheoli. Rydym yn croesawu safbwynt y GOC o weithio gyda'r rheoleiddwyr perthnasol i ddeall yn well yr angen am reoleiddio ar gyfer y categori hwn o fusnes optegol."* PSA

*Ymateb y GOC – unedau masnachol sy'n gweithredu mewn practisau meddygon teulu ac ysbytai*

42. Rydym wedi dod i'r casgliad y dylem reoleiddio unedau masnachol annibynnol sy'n cyflawni swyddogaethau cyfyngedig penodol, p'un a ydynt yn gweithredu yn yr un safle â phractisau meddygon teulu ac ysbytai ai peidio, oni bai bod y swyddogaethau hyn yn cael eu cyflawni fel rhan o'r gofal a ddarperir gan y practis meddygon teulu neu'r ysbyty. Yn yr achos hwn, byddai'r swyddogaethau hynny'n destun goruchwyliaeth reoleiddiol amgen yn yr un modd â gofal arall a ddarperir gan y practis meddygon teulu neu'r ysbyty. Roedd cefnogaeth gref i'r egwyddor na ddylai lleoliad y busnes, na phwy sy'n ei arwain, fod o bwys yn y cyd-destun hwn. Rydym yn fodlon y bydd y dull hwn yn hyrwyddo diogelwch y cyhoedd cyson heb ddyblygu rheoleiddio. Rydym yn cydnabod yr angen am ofal gyda diffiniadau a ddarperir mewn unrhyw ddeddfwriaeth newydd fel nad yw busnesau'n cael eu hesemptio'n amhriodol.

**Rheoleiddio elusennau**

43. Fe wnaethom ofyn i randdeiliaid i ba raddau yr oeddynt yn cytuno neu'n anghytuno y dylai elusennau sy'n darparu swyddogaethau cyfyngedig penodedig gael eu rheoleiddio gan y GOC. O'r 70 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn, roedd 83 y cant yn cytuno neu'n cytuno'n gryf, nid oedd 11 y cant yn cytuno nac yn anghytuno, ac roedd chwech y cant yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.

44. Nodwyd y themâu canlynol o'r sylwadau:

- dylai elusennau sy'n darparu swyddogaethau cyfyngedig gael eu rheoleiddio i sicrhau safonau gwasanaeth a diogelwch cleifion cyson;
- dylid rheoleiddio'n unffurf ar draws pob darparwr, waeth beth yw eu statws elw, er mwyn cynnal ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd, creu tegwch ac osgoi creu bylchau y gellid eu hecsbloetio;
- er y dylid dal elusennau i'r un safonau, gellid lliniaru baich ariannol rheoleiddio trwy ffioedd is neu esemptiadau, o ystyried eu natur ddielw a'r gwasanaethau gwerthfawr maen nhw'n eu darparu i grwpiau dan anfantais;
- am nad oes gan y Comisiwn Elusennau ffocws clinigol, ni fyddai rheoleiddio elusennau gan y GOC yn creu dyblygiad rheoleiddio;
- mae elusennau yn aml yn gwasanaethu poblogaethau agored i niwed a dylent wynebu mwy o graffu o bosibl, i sicrhau bod y grwpiau hyn yn derbyn gofal priodol;
- os bydd ymarferwyr unigol yn cael eu rheoleiddio, mae'n bosibl na fydd angen rheoleiddio ychwanegol ar gyfer elusennau, ar yr amod bod rheoleiddiwr annibynnol yn cynnal eu llywodraethiant.

45. Yn gyffredinol, er bod galwad clir am reoleiddio elusennau sy'n darparu swyddogaethau cyfyngedig yn gyson, mae argymhelliad cryf hefyd am strwythur ffioedd sy'n cydnabod cyfyngiadau ariannol a chyfraniadau cymdeithasol sefydliadau elusennol. Cefnogwyd y teimlad hwn gan y cyrff optegol proffesiynol/cynrychioliadol a sefydliad elusennol.

46. Mae sampl o sylwadau ar gael yn y blwch isod.

*Felly, byddai'r cynnig i reoleiddio elusennau sy'n darparu swyddogaethau cyfyngedig yn ymddangos yn seiliedig ar risg yn briodol. Ymhellach, er ein bod yn cydnabod anfanteision posibl gorfodi rheoleiddiad ar elusennau, fel egwyddor gyffredinol credwn y dylai rheoleiddio fod yn gyson. Mae hyn yn cynnwys bod yn gyson rhwng darparwyr. Gallai creu 'bylchau' o ran pa ddarparwyr sy'n cael eu rheoleiddio hefyd greu canlyniadau anfwriadol."* PSA

*"Mae ein hymatebion yn dilyn egwyddorion rheoleiddio gwell sy'n golygu y dylai rheoleiddiad fod yn gymesur ac yn seiliedig ar feini prawf gwrthrychol yn hytrach nag ideolegol. Mae hyn yn golygu nad oes unrhyw sail i lunio rhagdybiaethau cyffredinol ynglŷn â chymhellion/ymddygiad sy'n seiliedig ar ffurf sefydliadol yn unig..."* FODO – Y Gymdeithas Darparwyr Gofal Llygaid

*“Dylai elusennau sy’n darparu swyddogaethau cyfyngedig gael eu rheoleiddio ar yr un sail â darparwyr eraill, ni ddylai unrhyw sefydliad gael eu trin yn wahanol i eraill.”* Optometreg Cymru

Sylwadau oedd yn cyfeirio at ffioedd

*“Gellid dadlau y dylai elusennau gael mwy o reoleiddio oherwydd eu bod yn fwy tebygol o fod yn delio ag aelodau o'r cyhoedd sy'n hynod agored i niwed e.e. digartref, plant ag anableddau difrifol. Efallai y byddwch chi'n ystyried lleihau'r baich ariannol o gofrestru gyda'r Cyngor Cyffredinol ar elusennau trwy leihau neu beidio â chael unrhyw gost i gofrestru os oes gan y busnes statws elusennol.” Cofrestrydd busnes y* GOC

*“Rydym yn cefnogi cysondeb cymhwyso mewn egwyddor, fel bod pawb sy'n cyflawni swyddogaethau cyfyngedig wedi'u cofrestru, ond byddem yn dadlau dros gydnabyddiaeth ariannol yn y strwythur ffioedd a chymhwyso ffioedd is ar gyfer elusennau… ni fydd cymhwyso'r un drefn ffioedd i elusennau yn gynaliadwy os yw elusen eisoes yn croes-gymorthdalu gofal llygaid trwy incwm a godwyd neu os na all gael mynediad at gontractau sy'n galluogi adferiad cost llawn, a gallai pwysau'r strwythur ffioedd sydd heb ei nodi eto arwain at dynnu gwasanaethau yn ôl.”* SeeAbility

*“…Er bod y Comisiwn Elusennau yn darparu llywodraethiant a goruchwyliaeth gyffredinol, nid yw’n gorfodi safonau clinigol neu brotocolau diogelwch cleifion. Byddai proses reoleiddio gan y GOC yn sicrhau bod swyddogaethau cyfyngedig yn cael eu cyflenwi gydag atebolrwydd a goruchwyliaeth broffesiynol briodol … mae’r AOP yn argymell bod y GOC yn gweithredu system ffioedd haenog lle mae'r busnesau lleiaf yn talu llai na'r corfforaethau mwy.”* AOP

*“…Mae adborth gan Banel Cynghori ar Bolisïau a Bwrdd y Coleg yn argymell yn gryf y dylai’r GOC ystyried esemptiad ffioedd neu fodel ffioedd gostyngol i elusennau, o ystyried nad ydynt yn gweithredu model er elw yn bennaf. Gallai ffi fod yn rhwystr i elusennau newydd sy'n dod i'r amlwg i gynnig gwasanaethau hanfodol i grwpiau agored i niwed a gallai leihau gallu unrhyw elusen i gyrraedd a chreu budd i'r garfan ehangaf bosibl o gleifion.”* Coleg yr Optometryddion

*“Dylai elusennau sy’n darparu swyddogaethau cyfyngedig gael eu rheoleiddio gan y GOC i sicrhau gwasanaeth cyson a diogelwch cleifion. Fodd bynnag, gallai’r gost o gofrestru fod yn bryder, felly dylid ystyried ffioedd gostyngol neu esemptiad ar gyfer yr elusennau hyn.”* Optometreg yr Alban

*Ymateb y GOC – rheoleiddio elusennau*

47. Rydym yn dod i'r casgliad, pan fyddwn yn ehangu’r system rheoleiddio busnes, y dylai unrhyw elusennau sy'n darparu swyddogaethau cyfyngedig penodol gael eu rheoleiddio gan y GOC oherwydd y rhesymeg gref dros ddiogelu'r cyhoedd. Rydym yn cydymdeimlo mewn egwyddor â'r achos dros ffioedd

cofrestru is ar gyfer elusennau sy'n adlewyrchu eu statws a'u cyfraniad cymdeithasol. Byddem yn disgwyl i'r ddeddfwriaeth roi'r hyblygrwydd i ni osod ffioedd is ar gyfer grwpiau o gofrestreion, fel yr ydym yn ei wneud yn awr ar gyfer cofrestreion unigol ar incwm isel.

**Rheoleiddio clinigau llygaid prifysgolion**

48. Fe wnaethom holi rhanddeiliaid i ba raddau yr oeddynt yn cytuno neu'n anghytuno y dylai clinigau llygaid prifysgolion sy'n darparu swyddogaethau cyfyngedig penodedig gael eu rheoleiddio gan y GOC. O'r 70 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwnnw, roedd 86 y cant yn cytuno'n gryf, nid oedd saith y cant yn cytuno nac yn anghytuno, ac roedd saith y cant yn cytuno neu'n anghytuno'n gryf.

49. Nodwyd y themâu canlynol o'r sylwadau:

- dylai clinigau llygaid prifysgolion sy'n darparu swyddogaethau cyfyngedig penodedig gael eu rheoleiddio i sicrhau cysondeb, diogelwch a gwasanaeth o ansawdd i gleifion;
- er bod y clinigau hyn yn gwasanaethu fel cyfleusterau addysgol i fyfyrwyr yn bennaf, maent hefyd yn gweithredu mewn rhyw gapasiti fel endidau masnachol, yn arbennig pan fyddant yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac yn cynhyrchu refeniw;
- byddai rheoleiddio clinigau llygaid prifysgolion yn cynnal cydraddoldeb gydag optometryddion y stryd fawr a darparwyr eraill;
- gallai rheoleiddio gor-feichus greu canlyniadau anfwriadol posibl a allai effeithio ar allu prifysgolion i ddarparu hyfforddiant a phrofiad clinigol i fyfyrwyr, sy'n awgrymu y gallai dull llai manwl neu system gofrestru haenog fod yn briodol;
- oherwydd bod clinigau llygaid prifysgolion eisoes yn cael eu rheoleiddio o dan safonau addysgol y GOC, mae'n bosibl na fydd angen proses rheoleiddio busnesau ychwanegol.

50. Yn gyffredinol, roedd consensws ar yr angen i reoleiddio clinigau llygaid prifysgolion sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd, gydag ystyriaethau ar gyfer dull cytbwys nad yw'n llesteirio amcanion addysgol neu'n gosod beichiau ariannol gormodol ar sefydliadau addysgol.

51. Roedd y cyrff optegol proffesiynol/cynrychioliadol oll yn cytuno y dylai clinigau llygaid prifysgolion gael eu rheoleiddio. Awgrymodd Coleg yr Optometryddion y dylid ystyried model ffioedd gostyngol ar gyfer clinigau llygaid prifysgolion.

52. Roedd yn nodedig, o'r ddau ddarparwr addysg prifysgol a ymatebodd i'r ymgynghoriad, fod un yn cefnogi'r cynnig i reoleiddio clinigau llygaid prifysgol a'r llall ddim. Awgrymodd un o'r sylwadau yn yr adran 'unrhyw feysydd eraill' ar ddiwedd yr ymgynghoriad y dylem ystyried tebygrwydd â rheoleiddio gwasanaethau eraill sydd wedi'u lleoli mewn prifysgolion fel awdioleg, podiatryddion a chlinigau eraill sy'n gysylltiedig ag iechyd.

53. Mae sampl o'r sylwadau ar gael yn y blwch isod.

*"Maent yn cael eu rheoleiddio eisoes a byddai angen i'r math o reoleiddio fod yn wahanol i reoleiddio busnesau, ond dylid eu rheoleiddio o hyd."* Optometrydd

*"Bydd clinigau prifysgolion yn gweld pob categori o gleifion, er y bydd y myfyrwyr yn cael eu goruchwylio, nid yw hyn yn wahanol o gwbl i bractis ar y stryd fawr ac mae angen yr un lefel o lywodraethiant a goruchwyliaeth."* Optometrydd

*"Fel myfyriwr, rwy'n parchu'r angen i'r GOC reoleiddio ein practisau a sicrhau ein bod yn ddiogel/yn barod ar gyfer hyfforddiant cyn cofrestru."* Optometrydd dan hyfforddiant

*"Os oes agwedd fasnachol iddynt, os ydynt yn cyflawni swyddogaethau cyfyngedig ac yn cynhyrchu elw, dylid eu rheoleiddio."* Darparwr addysg

*"Nid yw clinig llygaid ein prifysgol yn fusnes, ond yn hytrach mae'n rhan fach o sefydliad elusennol. Byddai'n anghymesur gosod ffioedd cofrestru busnes a baich gweinyddol tebyg ar un clinig unigol o gymharu â sefydliad gyda mwy na 2,000 o glinigau. Felly, mae'r ffioedd heb eu diffinio yn peri pryder [26] ac nid ydym yn cefnogi'r cynnig na fydd clinigau Prifysgolion yn cael eu hesemptio [74] o'r rheoliadau arfaethedig.*

*Felly, i sefydliadau fel Prifysgolion ac Elusennau, bydd cyflwyno proses rheoleiddio 'busnes' yn effeithio ar amser staff a chyllid sefydliadol, gan dynnu oddi wrth addysg myfyrwyr ac felly diogelwch cleifion, felly nid ydym yn cefnogi'r newidiadau arfaethedig hyn."* Darparwr addysg

*"Mewn amgylchedd dysgu mae'n bwysig bod arfer gorau yn cael ei fodelu o'r cychwyn cyntaf. Maent yn aml yn gweld cleifion agored i niwed y gallai eu gofal gael ei gyfaddawdu." Elusen/sefydliad sy'n cynrychioli cleifion*

*"Heb reoleiddio'r GOC, byddai bwlch yn y ddarpariaeth reoleiddio oherwydd ni fyddai'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r endid, o gymharu ag ymarferwyr unigol yn derbyn sylw digonol."* ABDO

*"…Os yw clinigau llygaid prifysgolion yn darparu gwasanaethau gofal llygaid cyfyngedig i'r cyhoedd, maent mewn gwirionedd yn endid masnachol ac maent yn cystadlu gyda phractisau lleol – yn yr achos hwn, dylai fod yn ofynnol iddynt gofrestru i osgoi meithrin anghydraddoldeb. Daw hyn gyda'r amod y dylent fod yn ddarostyngedig i'n system gofrestru haenog awgrymedig oherwydd bod unrhyw*

*enillion masnachol a wnânt yn eilradd i'w prif swyddogaeth fel cyfleusterau addysg."* AOP

*"…Er ein bod yn croesawu hyn mewn egwyddor, mae clinigau llygaid prifysgolion yn bodoli fel rhan o leoliad addysgol ac nid ydynt o reidrwydd yn fusnesau ar wahân i'r Brifysgol. Maent yn bodoli i gefnogi cyrsiau addysgu israddedigion, a hefyd darparu swyddogaethau cyfyngedig i gleifion, ac maent eisoes yn ddarostyngedig i broses reoleiddio'r GOC sy'n gysylltiedig ag addysg i achredu cyrsiau. Byddai angen sicrwydd arnom y byddai gwahaniaeth clir rhwng y gwahanol agweddau rheoleiddio e.e. ymweliadau gan y panel addysg ac archwiliadau busnes, ac na fyddai unrhyw orgyffwrdd a dyblygu.*

*Rydym yn credu, er mwyn sicrhau cysondeb a diogelu a thawelu meddyliau cleifion, ac er mwyn diogelu myfyrwyr a staff, y byddai rheoleiddio clinigau llygaid prifysgol yn gadarnhaol, a byddem o blaid dull ysgafn o weithredu.…"* Coleg yr Optometryddion

*Ymateb y GOC – rheoleiddio clinigau llygaid prifysgolion*

54. Ein casgliad yw, pan fyddwn yn ehangu dulliau rheoleiddio busnesau, dylai unrhyw glinigau llygaid prifysgolion sy'n darparu swyddogaethau cyfyngedig penodedig gael eu rheoleiddio gan y GOC oherwydd y rhesymeg gref dros ddiogelu'r cyhoedd.

55. Ffocws gweithgarwch y GOC sy'n gysylltiedig â sicrhau ansawdd cymwysterau yw sicrhau bod myfyrwyr wedi'u hyfforddi'n dda; nid yw'r prosesau hyn wedi'u dylunio i sicrhau bod clinigau llygaid prifysgolion yn darparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Yn yr un modd, nid yw rheoleiddwyr addysg uwch yn canolbwyntio ar y gwasanaethau clinigol sy'n cael eu darparu i'r cyhoedd, felly ni fyddai unrhyw ddyblygu rheoleiddio.

56. Fe wnaethom nodi'r sylw bod gwasanaethau eraill perthynol i iechyd yn cael eu rheoleiddio mewn prifysgolion e.e. awdioleg a phodiatreg. Ein dealltwriaeth yw nad oes rhaid i glinigau awdioleg a phodiatreg fod wedi'u cofrestru ag unrhyw sefydliad arall, ni waeth lle y maent yn gweithredu, felly rydym o'r farn bod hyn yn fan cychwyn gwahanol i'r angen i reoleiddio clinigau llygaid prifysgolion.

57. Rydym yn nodi'r sylwadau ynglŷn â ffioedd gostyngol ar gyfer clinigau llygaid prifysgolion. Fel gydag elusennau lle mae ystyriaethau tebyg yn berthnasol, rydym yn cydymdeimlo mewn egwyddor â'r achos dros ffioedd cofrestru is ar gyfer clinigau llygaid prifysgol a byddem yn disgwyl i'r ddeddfwriaeth ddarparu hyblygrwydd yn y ffordd rydym yn pennu ffioedd.

**Pŵer dewisol i esemptio**

58. Fe wnaethom holi rhanddeiliaid i ba raddau yr oeddynt yn cytuno neu'n anghytuno y dylai fod gan y GOC bŵer dewisol i esemptio busnesau penodol

rhag gorfod cofrestru. O’r 70 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn, roedd 36 yn cytuno neu’n cytuno’n gryf, nid oedd 13 y cant yn cytuno nac yn anghytuno, ac roedd 51 y cant yn anghytuno neu’n cytuno’n gryf.

59. Nodwyd y themâu canlynol o’r sylwadau:

- gallai pwerau dewisol i eithrio busnesau rhag gorfod cofrestru arwain at anghysondebau a manteision annheg;
- dylid dal pob busnes sy'n rhyngweithio gyda chleifion i'r un safonau a gallai eithriadau danseilio unffurfiaeth reoleiddiol a diogelwch cleifion;
- byddai angen canllawiau cyhoeddedig, clir ar y meini prawf ar gyfer esemptio, er mwyn sicrhau tegwch a thryloywder;
- dim ond mewn achosion prin neu eithriadol y dylid defnyddio esemptiadau – ni ddylai unrhyw bŵer dewisol fod yn agored i gamdriniaeth neu wrthdaro buddiannau, ac ni allai rhai ymatebwyr ddychmygu sefyllfa lle byddai angen esemptiadau pe byddai rheoliadau wedi’u diffinio’n dda o’r cychwyn cyntaf;
- yr angen i fod yn glir ynghylch pa endidau sydd wedi'u hesemptio ac am ba resymau, yn hytrach na gwneud penderfyniadau fesul achos – roedd diffyg hyder gan rai yng ngalluoedd rheoleiddio presennol y GOC, gan gwestiynu eu gallu i wneud penderfyniadau esemptio teg
- gellid ystyried esemptiadau i sefydliadau nid-er-elw neu’r rhai nad ydynt yn rhyngweithio’n uniongyrchol gyda’r cyhoedd, er enghraifft cwmnïau sydd wedi’u sefydlu at ddibenion treth ar gyfer optometryddion locwm.

60. Yn gyffredinol, roedd dyhead am broses reoleiddio gyson ar draws pob busnes, er mwyn sicrhau diogelwch cleifion ac atebolrwydd proffesiynol.

61. Roedd y cyrff optegol proffesiynol/cynrychioliadol yn pryderu am roi pŵer dewisol i’r GOC esemptio, er yr awgrymodd rhai fesurau diogelwch i sicrhau y byddai unrhyw bŵer o’r fath yn cael ei ddefnyddio’n briodol mewn amgylchiadau eithriadol.

62. Mae sampl o sylwadau ar gael yn y blwch isod.

> *“…Oni bai bod y pŵer dewisol wedi'i nodi o dan amodau penodol iawn na ellir eu newid na'u diwygio (ac yn yr achos hwnnw nid yw'n ddisgresiynol mewn gwirionedd), byddai hyn yn arwain at wrthdaro buddiannau enfawr lle mae er budd rhywun i esemptio neu gadw unrhyw fuddiant busnes penodol rhag cael ei reoleiddio..”* Optometrydd
>
> *“Anhawster i ddeall pam y dylai busnes gael ei esemptio.”* Optegydd lensys cyffwrdd

*“Mae’n ymddangos nad oes unrhyw resymeg i hyn, oni bai bod y GOC yn ceisio diogelu’r rheolau ar gyfer y dyfodol i ganiatáu i fodelau busnes gael eu hesemptio rhag gorfod cofrestru ar gyfer modelau nad ydynt wedi meddwl amdanynt eto …”* Cofrestrydd busnes y GOC

*“Cytuno, fodd bynnag dylid ystyried ym mha sefyllfaoedd y byddai esemptiad yn cael ei ddarparu, oherwydd y sefyllfa ddiofyn fyddai bod angen i bob busnes gofrestru.”* Busnes optegol (nid cofrestrydd y GOC)

*“Mewn egwyddor mae’n well cael agwedd gyson ar gyfer cleifion a’r cyhoedd ond byddai’n ddealladwy sefydlu pŵer deddfwriaethol ar gyfer esemptiadau, fel rhan o waith diogelu ar gyfer y dyfodol.”* SeeAbility

*“Gallai’r cynnig y byddai gan y GOC bwerau dewisol i esemptio darparwyr rhag gorfod cofrestru greu manteision yn nhermau diogelu’r ddeddfwriaeth ar gyfer y dyfodol. Er bod yr ymgynghoriad yn nodi gwahanol fathau o ddarparwyr y gellid eu hesemptio, gan gyfeirio at y risgiau cymharol ym mhob achos, nid yw unrhyw feini prawf trosfwaol ar gyfer eithrio wedi’u darparu. Pe byddai’r GOC yn bwrw ymlaen gyda’r cynnig hwn, byddem yn disgwyl gweld fframwaith clir yn nodi’r dull gweithredu esemptiadau ac arweiniad i benderfynwyr er mwyn sicrhau dull gweithredu cyson. At hynny, byddai angen i’r GOC fod yn ymwybodol sut y byddai esemptiadau o’r fath yn cael eu hegluro i’r cyhoedd.”* PSA

*“…Gallai cyflwyno esemptiadau arwain at anghysondeb posibl ac anghydraddoldeb canfyddedig mewn goruchwyliaeth reoleiddiol, gan arwain at safonau gofal amrywiol a thanseilio ymddiriedaeth y cyhoedd yn y fframwaith rheoleiddiol. Byddai risg hefyd o greu cynsail lle byddai busnesau, o wybod pa fathau o esemptiadau sydd ar gael, yn amrywio eu model gweithredu er mwyn osgoi goruchwyliaeth reoleiddiol …”* ABDO

*“…mae gan yr AOP bryderon ynglŷn â’r defnydd o feini prawf eithrio wedi’u pennu ymlaen llaw ac mae’n credu, pe byddai gan y GOC y pŵer hwn, yna dim ond mewn eithriadau prin y dylid ei ddefnyddio ac yn unol â chanllawiau clir, cyhoeddedig ar sut a phryd y byddai'n cael ei ddefnyddio… byddai caniatáu esemptiadau diangen yn tanseilio unffurfiaeth reoleiddiol, gan alluogi busnesau i addasu eu modelau gweithredol mewn ffyrdd sy'n osgoi gofynion a ffioedd cofrestru - gan gyfaddawdu diogelwch cleifion ac atebolrwydd…”* AOP

*“Credwn y dylai’r GOC sefydlu o’r dechrau pa endidau sydd wedi’u cynnwys yn eu cylch gwaith rheoleiddio, a pha rai nad ydynt wedi’u cynnwys. Fodd bynnag, gallai fod yn ddefnyddiol i’r opsiwn hwn fod ar gael i’r GOC ei ddefnyddio mewn amgylchiadau eithriadol yn unig.”* Coleg yr Optometryddion

*“O ystyried yr achos y mae'r GOC yn ei wneud i ehangu rheoleiddio busnes, ymddengys nad oes achos gwrthrychol dros ddisgresiwn ar lefel busnes unigol. Yn lle hynny, credwn y dylai'r GOC fod yn glir ynghylch esemptiadau a'r rhesymau drostynt.…”* FODO – Y Gymdeithas Darparwyr Gofal Llygaid

*Ymateb y GOC – pŵer dewisol i eithrio*

63. Er ein bod yn cydnabod y pryderon ynghylch pŵer dewisol i eithrio, credwn y byddai'n ddarbodus cael y pŵer hwn oherwydd bod y farchnad yn amrywiol ac yn esblygu, ac mae angen i ni sicrhau bod y broses reoleiddio wedi'i thargedu, ei bod yn gymesur ac wedi'i diogelu ar gyfer y dyfodol. Bydd y fframwaith deddfwriaethol yn esbonio'n glir pa fusnesau sydd wedi'u cynnwys yn hyn, a byddem yn disgwyl i'r pŵer hwn gael ei ddefnyddio mewn amgylchiadau eithriadol yn unig. Rydym yn cydnabod yr angen i feithrin hyder mewn pŵer o'r fath ac y byddai canllawiau clir ar ei gyfer. Gallem hefyd gynnal rhestr gyhoeddedig o esemptiadau gyda rhesymau dros ein penderfyniadau. Byddem yn ymgynghori ar ein dull gweithredu arfaethedig cyn ei weithredu er mwyn sicrhau bod cyfle gan randdeiliaid i roi eu barn.

**Mwyafrif o gyfarwyddwyr cofrestredig**

64. Fe wnaethom ofyn i randdeiliaid i ba raddau yr oeddynt yn cytuno neu'n anghytuno gyda'n cynnig i ddileu'r gofyniad i rai cyrff corfforedig gael mwyafrif o gyfarwyddwyr cofrestredig. O'r 69 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn, roedd 48 y cant yn cytuno neu'n cytuno'n gryf, nid oedd 13 yn cytuno nac yn anghytuno, ac roedd 39 y cant yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.

65. Nodwyd y themâu canlynol o'r sylwadau:

- mae'r gofyniad presennol wedi dyddio ac yn rhy gyfyngol, a gallai rwystro hyblygrwydd a thwf busnes;
- gallai atal rhai busnesau rhag optio i mewn i reoliadau'r GOC;
- gall cyfarwyddwyr heb gofrestru chwarae rolau allweddol yn rheoli busnesau heb gyfaddawdu safonau clinigol;
- pe byddai'r gofyniad yn cael ei ddileu, dylai mesurau digonol fod ar waith i sicrhau diogelwch ac ansawdd gofal cleifion – yn benodol, byddai angen i unrhyw ddewis amgen i gael mwyafrif o gyfarwyddwyr cofrestredig sicrhau eu bod yn deall ac yn cydymffurfio â deddfwriaethau optegol a rheoliadau'r GOC;
- canlyniadau negyddol posibl, er enghraifft pwysau masnachol uwch, a allai gyfaddawdu gofal cleifion, a chydnabod pwysigrwydd cynnal cydbwysedd rhwng penderfyniadau masnachol a chlinigol.

66. Yn gyffredinol, er bod cefnogaeth i strwythurau busnes mwy hyblyg a chydnabyddiaeth o'r rôl y gall cyfarwyddwyr nad ydynt wedi cofrestru ei chwarae, roedd pwyslais cryf hefyd ar yr angen i fusnesau flaenoriaethu gofal cleifion a dilyn safonau proffesiynol. Cydnabuwyd y risgiau posibl o ddileu'r

gofyniad i gael mwyafrif o gyfarwyddwyr cofrestredig, gydag awgrymiadau ar gyfer rolau goruchwylio a mesurau rheoleiddiol amgen i liniaru'r risgiau hyn.

67. Ar y cyfan, roedd y cyrff optegol proffesiynol/cynrychioliadol yn cefnogi'r opsiwn o ddileu'r gofyniad, ar yr amod bod pennaeth ymarfer optegol (neu gynnig tebyg) wedi'i fabwysiadu.

68. Mae sampl o sylwadau ar gael yn y blwch isod.

Sylwadau o blaid

*"…Er mwyn diogelu'r opsiwn i ddileu'r rheol mwyafrif ar y bwrdd yn ddiogel, nid oes angen cael Pennaeth Ymarfer Optegol (PYO) cofrestredig, swyddog cyfrifol neu debyg yn ei le. Mae cael cofrestrydd diwyd, profiadol ac atebol yn ei le, sydd nid yn unig yn goruchwylio'r sefydliad ond sy'n gyfrifol am sicrhau bod gan y sefydliad system reoli gadarn ar waith, yn llawer mwy effeithiol i sicrhau diogelwch ac ansawdd cleifion na rheol y mwyafrif ar y bwrdd. Mae angen systemau a mesurau digonol ar waith i sicrhau bod gan yr unigolyn awdurdod a bod lefel perchnogaeth busnes yn gwrando arnynt..."* Cofrestrydd busnes y GOC

*"Byddai ein busnes o* [wedi'i olygu] *practis optegol yn hoffi cofrestru gyda'r GOC ond ar hyn o bryd ni allwn wneud hynny oherwydd y gofyniad hwn; mae'n ofyniad gormodol sydd wedi dyddio."* Busnes optegol (nid cofrestrydd busnes y GOC)

*"Fe wnaethom geisio cofrestru fel corff corfforedig yn 2023, fel practis teuluol annibynnol lle mae'r cyfarwyddwyr yn fy nghynnwys i (optometrydd cofrestredig) a fy ngŵr sy'n rheoli cyfrifon/y gyflogres/y practis ac yn gwneud penderfyniadau. Ni allwn leihau'r nifer i mi fy hun fel cyfarwyddwr oherwydd bod fy ngŵr yn cyflawni tasgau sy'n galw am reolaeth fusnes y tu hwnt i reolaeth ysgrifennydd busnes, ac nid oeddem yn credu ei bod yn addas dod â chyfarwyddwr allanol sydd wedi cofrestru i mewn, ar gyfer cofrestriad corff corfforedig y GOC yn unig..."* Busnes optegol (nid cofrestrydd busnes y GOC)

*"…mae angen i reoleiddwyr fynd i'r afael ag arferion busnes sy'n methu â rhoi cleifion yn gyntaf, sy'n peryglu tanseilio hyder yn y proffesiynau, neu sy'n methu â chaniatáu i gofrestreion arfer eu barn broffesiynol. Felly, dylid gwneud y penderfyniad i ddileu'r gofyniad am fwyafrif o gyfarwyddwyr cofrestredig ochr yn ochr â diwygiadau eraill i sicrhau bod gofal cleifion yn cael ei flaenoriaethu gan fusnesau optegol."* PSA

*"…Nid yw cyfarwyddwyr cofrestredig eu hunain o reidrwydd yn ychwanegu at ddiogelwch cleifion ac mae'r gofyniad presennol yn creu baich gweinyddol diangen. Fodd bynnag, pan na fydd cyfarwyddwyr cofrestredig yn eu lle, byddem yn disgwyl i bennaeth ymarfer optegol gael ei benodi."* ABDO

*"…Er ein bod yn cefnogi'r newid hwn mewn egwyddor, mae'n bwysig nad yw'n digwydd ar ei ben ei hun. Er enghraifft, pe byddai'r gofyniad yn cael ei ddileu, ond nad oedd cofrestriad busnes wedi'i ddeddfu, yna gallai hyn gynyddu, yn hytrach na*

*lleihau'r risg y bydd busnesau'n addasu er mwyn osgoi cofrestriad. Mae'r cynnig hefyd yn cysylltu â'r gofyniad i gynnal mewnbwn y rhai sydd wedi cofrestru yn y broses ehangach ac o'r herwydd rhaid ystyried hyn ochr yn ochr â chyfrifoldebau rôl y Pennaeth Ymarfer Optegol."* AOP

*"Rydym yn cytuno, pe byddai dewis amgen ar gael, er enghraifft y Pennaeth Ymarfer Optegol yn gwasanaethu fel cyfarwyddwr, ni fyddai'r gofyniad o gael mwyafrif o gyfarwyddwyr cofrestredig yn angenrheidiol. Fodd bynnag, dylai unrhyw ddewis amgen sicrhau bod busnesu yn deall rheoliadau optegol ac yn cynnal cydymffurfiaeth."* Optometreg yr Alban

Sylwadau yn erbyn

*"…Bydd dileu'r gofynion cyfarwyddwyr ond yn arwain at fwy o bwysau masnachol. Mae'r sylw yn y ddogfen ymgynghori ar fuddsoddi a chydgrynhoi yn drawiadol iawn. Mae eich cynigion bob amser wedi'u hanelu at ddull masnachol a lleihau hyfywedd practisau llai i oroesi …"* Optometrydd

*"Rwy'n credu bod eich sylw am y risg y bydd mwy o ddarpariaeth fasnachol na darpariaeth glinigol yn gadarn a byddai'r penderfyniad hwn yn cynyddu'r potensial y byddai hyn yn digwydd mewn sefydliadau mwy. Rwy'n credu bod cadw mwyafrif (sy'n gyfwerth neu'n uwch na 50%) yn sefyllfa fwy diogel i sefydliadau a ddylai fodoli'n bennaf i ddarparu gofal llygaid ac nid gwerthu cynnyrch."* Optometrydd cyflenwi therapiwtig

*Ymateb y GOC – mwyafrif o gyfarwyddwyr cofrestredig*

69. Ein casgliad yw na ellir cyfiawnhau'r gofyniad mwyach i rai cyrff corfforedig gael mwyafrif o gyfarwyddwyr cofrestredig, a bod hyn yn wrth-gystadleuol, wedi dyddio ac yn gweithredu fel rhwystr i gael mynediad i'r farchnad. Rydym yn cydnabod bod llawer o randdeiliaid ond yn teimlo'n gyfforddus i ddileu'r gofyniad hwn os bydd swydd arall i sicrhau bod clinigwr yn ymwneud â rheoli'r busnes. Byddai ein cynigion ar gyfer pennaeth ymarfer optegol yn darparu diogelwch o'r fath, ond nid ydym yn ystyried y dylai dileu'r gofynion mwyafrif o gyfarwyddwr cofrestredig fod yn amodol ar hyn. Mae hyn yn adlewyrchu'r problemau y mae'r gofynion yn eu creu ac argaeledd dulliau rheoleiddio amgen i sicrhau gofal cleifion diogel ac effeithiol, gan gynnwys ein Safonau ar gyfer Busnesau Optegol.

70. Rydym yn nodi her y PSA i fynd i'r afael â phractisau busnes nad ydynt yn sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i ofal cleifion. Mae ein safonau ymarfer <https://optical.org/en/standards-and-guidance/> yn mynd i'r afael â materion o'r fath, sydd wedi'u hategu gan ganllaw ategol ar godi llais <https://optical.org/en/guidance/speaking-up/>. Rydym yn disgwyl dechrau ar adolygiad cadarn o'n safonau busnes yn ddiweddarach yn 2025/26. Yn ogystal, fel rhan o'n strategaeth gorfforaethol ar gyfer 2025/30, penderfynodd y Cyngor

ym mis Mawrth 2025 y byddai practisau masnachol a diogelwch cleifion yn bwnc yn ein hadolygiad thematig cyntaf, a ddyluniwyd i asesu risgiau presennol neu risgiau sy’n dod i’r amlwg yn y sector.

## Adran 2: Modelau o sicrwydd rheoleiddiol

### Pennaeth ymarfer optegol ar gyfer pob busnes

*Ymchwil cleifion a'r cyhoedd*

71. Yn y grŵp ffocws a'r cyfweliadau, mynegwyd cefnogaeth eang i'n cynnig i gael person enwebedig mewn busnes sy'n bennaf gyfrifol am gyflawni safonau rheoleiddiol y GOC. Roedd cyfranogwyr o'r farn y byddai eu hyder a'u hymddiriedaeth yn cynyddu o ganlyniad i benodi pennaeth ymarfer optegol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'n safonau. Fodd bynnag, gofynnodd rhai am eglurder ar sut y byddai hynny'n gweithredu wrth ymarfer o ddydd i ddydd a sicrwydd na fyddai'n arwain at gostau uwch, yn arbennig i fusnesau bach.

*Ymatebion i'r ymgynghoriad*

72. Fe wnaethom holi rhanddeiliaid a ddylid ei gwneud yn ofynnol i bob busnes benodi pennaeth ymarfer optegol. O'r 96 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn, atebodd 63 y dylid, atebodd 18 y cant na ddylid, a dywedodd 20 y cant nad oeddynt yn siŵr.

73. Nodwyd y themâu canlynol o'r sylwadau:

- rhoddwyd cydnabyddiaeth i'r cysyniad o bennaeth ymarfer optegol a buddion hynny, yn arbennig pe byddai'r gofyniad cyfarwyddwyr cofrestredig yn cael ei ddileu, ond bod angen gweithredu unrhyw ofyniad mewn ffordd gymesur;
- gallai busnesau mwy gyda strwythurau cymhleth elwa ar y rôl hon;
- pryderon ynghylch yr effaith bosibl ar bractisau llai ac y gallai'r gofyniad fod yn ddiangen neu'n feichus i berchnogion practis unigol neu fusnesau bach, lle nad oes unrhyw ymgeiswyr addas o bosibl ar gyfer y rôl, neu os yw'r busnes yn cyflogi ymarferwyr locwm;
- pryderon ynghylch eglurder y rôl a'i chyfrifoldebau, yn arbennig yr angen am reoleiddio ychwanegol pan fydd systemau presennol, er enghraifft archwiliadau clinigol ac arweinwyr llywodraethiant yn bodoli eisoes.

74. Yn gyffredinol, er bod cefnogaeth i'r rôl pennaeth ymarfer optegol, yn arbennig mewn busnesau mwy, roedd pryder ynghylch effaith hyn ar bractisau llai. Roedd gorgyffwrdd posibl gyda rolau presennol ac roedd y goblygiadau ariannol yn bryderon cyffredin hefyd. Pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, nodwyd yr angen am arweiniad clir a gweithrediad cymesur.

75. Cafwyd cefnogaeth gymysg gan y cyrff optegol proffesiynol/cynrychiadol. Gallent weld y buddion mewn egwyddor, yn arbennig i fusnesau mwy. Fodd bynnag, roedd pryder ynghylch effaith hyn ar fusnesau llai neu berchennog

unigol. Er mwyn lliniaru hyn, pwysleisiwyd yr angen i'r dull fod yn hyblyg ac yn gymesur, o ystyried yr ystod o strwythurau busnes yn y sector optegol. Cododd Coleg yr Optometryddion bryderon ynghylch cofrestreion nad oeddent am ymgymryd â'r rôl. Anogodd rhai o'r cyrff hyn y GOC i ymgysylltu â nhw i ddatblygu a mireinio'r cynigion ymhellach.

76. Mae sampl o sylwadau ar gael yn y blwch isod.

*"Gallai busnesau bach gael anhawster i gyflawni'r gofyniad hwn, yn arbennig os na fydd unrhyw gofrestrydd ar gael i ymgymryd â'r rôl."* Optegydd cyflenwi

*"Os bydd y gofyniad ar gyfer mwyafrif o gofrestreion fel cyfarwyddwyr yn cael ei ddileu, yna ie."* Darparwr addysg

*"Mae rôl "Pennaeth Ymarfer" yn syniad da, ond byddai'n gostus a byddai'r risg cofrestru ychwanegol ar gyfer yr unigolyn hwnnw yn gwneud y rôl yn un amhoblogaidd … "* Darparwr addysg

*"Yn ymarferol, mae dal contractau'r GIG a darparu gwasanaethau'r GIG yn rhwymo busnesau i sicrhau bod rôl archwilio clinigol yn cael ei chyflawni a'i hadrodd i'r awdurdod contractio, felly i bob pwrpas bydd gan lawer o fusnesau unigolion (gan gynnwys perchnogion ymarfer) yn cyflawni'r rôl hon ond byddai rheoleiddio'r GOC ohono yn darparu mwy o atebolrwydd i ymarfer busnes fodloni safonau proffesiynol...."* SeeAbility

*"Rydym yn cefnogi'r egwyddor o benodi pennaeth ymarfer optegol a byddai hyn yn ofyniad cymesur i'r rhan fwyaf o fusnesau. Fodd bynnag, rydym yn bryderus y gallai'r gofyniad i benodi pennaeth ymarfer optegol fod yn anghymesur â'r lefel o risg dan sylw i fusnes bach wedi'i arwain gan berchennog …"* ABDO

*"…I ddangos ein dull gweithredu hyblyg, cymerwch yr enghraifft o fusnes bach un cofrestrydd, lle mae'r perchennog eisoes yn gyfrifol am oruchwyliaeth glinigol a rheolaeth weithredol. Yn y senario cyffredin hwn, nid oes angen y rôl Pennaeth Ymarfer Optegol. Mewn busnes o'r fath, mae'r perchennog/cyfarwyddwr/ cofrestrydd eisoes yn atebol mewn ffyrdd nad yw perchennog/cyfarwyddwr practis mwy. Mae cyflwyno rôl lywodraethu ychwanegol yn y cyd-destun hwn yn ychwanegu baich ariannol diangen nad yw busnesau bach neu annibynnol – sydd eisoes yn gweithredu o fewn elw tynn – mewn sefyllfa i'w ysgwyddo..."* AOP

*"Nid ydym yn erbyn y syniad, ond byddai'n dibynnu ar faint y practis."* Pwyllgor Optegol Lleol Bexley Bromley a Greenwich

*"Er ein bod o blaid y cynnig hwn mewn egwyddor (yn arbennig er mwyn sicrhau systemau a phrosesau diogel a chadarn, tryloywder a phroffesiynoldeb), gallai ymarferoldeb penodi Pennaeth Ymarfer Optegol (PYO) fod yn heriol, a gallai fod llawer o rwystrau i unigolion fabwysiadu'r rôl. Er bod nifer fawr o optometryddion ac optegwyr cyflenwi yn aml mewn practisau optegol mawr, mewn rhai practisau mae'n bosibl mai dim ond un optometrydd sydd ganddynt, neu efallai bod practis*

*yn dibynnu'n gyfan gwbl ar weithwyr locwm i ddarparu swyddogaethau cyfyngedig …"* Coleg yr Optometryddion

*Ymateb y GOC – pennaeth ymarfer optegol ar gyfer pob busnes*

77. Rydym yn croesawu'r gefnogaeth eang i'r cysyniad o bennaeth ymarfer optegol a'r ystod o gyfrifoldebau a ragwelir. Rydym o'r farn bod ffocws y rôl hon ar systemau, polisïau, prosesau a diwylliant, fel rhan o gyflawni sicrwydd rheoleiddiol yn alinio gydag agenda polisi ehangach sy'n ceisio atgyfnerthu llywodraethiant glinigol. Er enghraifft, mae nifer o ymchwiliadau'r GIG wedi pwysleisio'r effaith y gall methiannau arweinyddiaeth wael ei chael ar ofal cleifion ac mae'r Llywodraeth wedi ymgynghori ar reoleiddio rheolwyr y GIG. Bydd atgyfnerthu llywodraethiant glinigol hefyd yn creu mwy o hyder yn y system reoleiddio wrth i bolisïau'r llywodraeth geisio symud mwy o wasanaethau gofal llygaid ysbytai i leoliadau cymunedol.

78. Rydym wedi penderfynu y byddai'n briodol i bob busnes optegol gael pennaeth ymarfer optegol. Mae'r sector busnesau optegol yn gymhleth yn nhermau'r modelau gweithredu gwahanol, ac rydym yn cydnabod yr angen am gymesuredd, yn arbennig ar gyfer busnesau llai. Er ein bod yn nodi'r awgrymiadau nad oes angen pennaeth ymarfer optegol ar gyfer unig fasnachwyr, nid ydym yn credu y byddai hyn yn feichus yn y mwyafrif helaeth o fusnesau o ystyried mai unigolyn sy'n berchen arnynt, sydd â chyfrifoldeb clir dros sicrhau bod y busnes yn cyflawni gofynion rheoleiddiol y GOC. Yn ogystal, ystyriodd ein Panel Cynghori y dylid cael cysondeb yn y gofyniad i gael pennaeth ymarfer optegol a bod y risgiau i gleifion yn aml yn uwch mewn practisau llai, gan gynnwys pan fydd personau lleyg yn berchen arnynt. O ystyried bod y rôl yn newydd a bod y sector yn amrywiol, rydym o'r farn y byddai'n ddarbodus i'r GOC gael y pŵer i nodi eithriadau mewn rheolau.

79. Ni ddylai fod angen i fusnesau recriwtio staff ychwanegol i gyflawni'r rôl, er y byddem yn nodi y gallai fod nifer fach o fusnesau y mae personau lleyg yn berchen arnynt a'u bod yn cysylltu â gweithwyr locwm o bosibl i gyflawni swyddogaethau cyfyngedig. Mewn llawer o achosion, mae busnesau eisoes yn dyrannu'r prif gyfrifoldeb am gydymffurfiaeth i berson neu rôl benodol. Er hynny, rydym yn cydnabod yr angen i feithrin dealltwriaeth ynghylch pwrpas y rôl a rhoi sicrwydd ynghylch ble mae cyfrifoldebau deiliad y rôl yn dechrau ac yn gorffen.

80. Mae awydd ymhlith cyrff a busnesau'r sector i weithio gyda'r GOC i ddatblygu a mireinio ein cynigion ymhellach, a byddem yn croesawu hynny. Bydd llawer o fanylion y rôl yn cael eu nodi mewn rheolau i'w datblygu yn dilyn diwygio deddfwriaethol, wrth i ni ganolbwyntio yn awr ar nifer fach o ddarpariaethau allweddol y bydd angen eu hymgorffori mewn deddfwriaeth sylfaenol. Byddwn

yn cadarnhau ein cynlluniau ar gyfer ymgysylltu pellach â'r sector unwaith y bydd yr amserlen ar gyfer diwygio'r Ddeddf yn gliriach.

**Cyfrifoldebau'r pennaeth ymarfer optegol**

81. Gofynnwyd i randdeiliaid i ba raddau yr oeddynt yn cytuno neu'n anghytuno â'r cyfrifoldebau arfaethedig ar gyfer pennaeth ymarfer optegol[4]. O'r 75 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn, roedd 65 y cant yn cytuno neu'n cytuno'n gryf, nid oedd 24 y cant yn cytuno nac yn anghytuno, ac roedd 11 y cant yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.

82. Nodwyd y themâu canlynol o'r sylwadau:

- er bod y cyfrifoldebau a amlinellwyd yn ymddangos yn synhwyrol ar y cyfan, fel datblygiad newydd mae'n bwysig caniatáu gofod i'r rôl esblygu;
- mae angen eglurder a hyblygrwydd yn y rôl, gyda phryderon ynglŷn â gor-ganoli cyfrifoldeb;
- ni ddylai'r pennaeth ymarfer optegol fod yn bennaf gyfrifol pan fydd rhywbeth yn mynd o'i le;
- mae angen mwy o eglurder ar sut y bydd y rôl yn rhyngweithio ac yn adrodd i swyddi eraill ar lefel uwch reolwyr, ac yn benodol unrhyw rai lleyg.

83. Yn gyffredinol, er bod cefnogaeth i'r cysyniad o rôl pennaeth ymarfer optegol, galwodd yr ymatebwyr am ddiffiniadau clir, arweiniad ymarferol a hyfforddiant priodol i sicrhau bod y rôl yn effeithiol ac nad yw'n rhoi baich gormodol neu gyfrifoldebau afresymol ar unigolion.

84. Roedd y cyrff optegol proffesiynol/cynrychiadol yn cytuno â'r cynigion ar y cyfan, er y dywedodd yr AOP bod angen mwy o eglurder a mwy o fanylion am gyfrifoldebau, pwerau ac atebolrwydd y rôl. Pwysleisiwyd pwysigrwydd hyfforddiant a chymorth i unrhyw un sy'n ymgymryd â'r rôl.

85. Mae sampl o sylwadau ar gael yn y blwch isod.

> *"Bydd busnesau o dan berchnogaeth leyg yn cael eu hannog/yn gorfod cadw at yr un safonau â busnesau eraill. Bydd cael pennaeth ymarfer optegol yn eu helpu i ddeall cyfrifoldebau cofrestrydd y GOC."* Optometrydd

[4] Nodwyd y cyfrifoldebau hyn ym mharagraff 98, tudalen 40 y ddogfen ymgynghori ar reoleiddio busnes.

*“Yn cytuno â’ch egwyddorion, fodd bynnag dylai fod hyblygrwydd er mwyn i’r rôl Pennaeth Ymarfer Optegol allu esblygu a newid wrth i’r model hwn ymsefydlu a safonau ymarfer esblygu a newid.”* Cofrestrydd busnes y GOC.

*“Byddai hyn yn sicrhau bod safonau’n cael eu cynnal yn unol â Safonau’r GOC ar gyfer Busnesau Optegol.”* Busnes optegol (nid cofrestrydd busnes y GOC)

*“…Rydym yn argymell yn gryf bod y GOC yn egluro cyfrifoldebau, pwerau a dulliau atebolrwydd y PYO drwy ymgynghori ymhellach gyda rhanddeiliaid y sector. Yn y pen draw, rhaid i unrhyw rôl reoleiddiol newydd fod yn glir, cytbwys a phragmatig, gan sicrhau diogelwch i gleifion wrth gefnogi’r busnesau amrywiol sy’n rhan o’r sector optegol. Pan fydd/os bydd y rôl Pennaeth Ymarfer Optegol yn dod yn orfodol, credwn yn gryf bod angen i senarios enghreifftiol y GOC amlinellu gwrthdaro cymhleth posibl o'r fath o ran atebolrwydd.”* AOP

*“…gellid rhoi ystyriaeth i’r hyfforddiant sydd ei angen i alluogi cofrestreion i ymgymryd â rôl Pennaeth Ymarfer Optegol yn hyderus ac effeithiol os nad oes ganddynt unrhyw brofiad blaenorol o reoli busnes optegol …”* Coleg yr Optometryddion

*“Ni ddylai’r rôl PYO fod yn swydd ynysig lle bydd busnesau’n dibynnu arnynt yn gyfan gwbl heb gymryd perchnogaeth eu hunain. Rydym hefyd yn cefnogi hyfforddiant parhaus i unigolion sy’n ymgymryd â’r cyfrifoldebau hyn. Rydym yn croesawu cydnabyddiaeth y GOC o’r angen am eglurder mewn perthnasoedd a sicrhau nad yw’r Pennaeth Ymarfer Optegol yn cael eu cosbi’n annheg am bob mater. Dylid diffinio lefel yr awdurdod gofynnol yn glir, yn benodol pan fydd y Pennaeth Ymarfer Optegol yn adrodd i eraill yn y busnes...”* Optometreg yr Alban

*Ymateb y GOC – cyfrifoldebau’r pennaeth ymarfer optegol*

86. Rydym yn croesawu’r gefnogaeth eang gan randdeiliaid ynglŷn â chyfrifoldebau arfaethedig pennaeth ymarfer optegol. Bydd nodi’r cyfrifoldebau hynny mewn deddfwriaeth sylfaenol yn darparu eglurder ar ddiben a chyfyngiadau’r rôl. Bydd hyn yn cael ei ategu gan ganllawiau’r GOC yn ôl yr angen.

87. Cydnabyddir yr angen i gefnogi cofrestreion gyda hyfforddiant i gyflawni’r rôl. Ni fyddem yn rhagweld y byddai’r GOC yn darparu hyfforddiant o’r fath am na fyddai hyn yn gyson â’n rôl statudol, ond mae rôl bwysig ar gyfer arweinyddiaeth broffesiynol yma, a byddem yn disgwyl i ddarparwyr datblygiad proffesiynol parhaus ddatblygu darpariaeth.

**Pennaeth ymarfer optegol: cyfrifoldebau o ran trefniadau lleoliadau hyfforddiant**

88. Fe wnaethom holi rhanddeiliad i ba raddau yr oeddynt yn cytuno neu’n anghytuno y dylai’r pennaeth ymarfer optegol gael cyfrifoldebau ynghylch digonolrwydd y trefniadau ar gyfer lleoliadau hyfforddiant. O’r 73 o ymatebwyr a

atebodd y cwestiwn, roedd 60 y cant yn cytuno neu'n cytuno'n gryf, nid oedd 19 y cant yn cytuno nac yn anghytuno, ac roedd 21 y cant yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.

89. Nodwyd y themâu canlynol o'r sylwadau:

- dylai fod gan y pennaeth ymarfer optegol rôl yn goruchwylio hyfforddiant, ond dylai bod disgresiwn mewn busnes o ran sut y rheolir hyn yn weithredol o ddydd i ddydd a'r busnes ei hun ddylai fod yn gyfrifol am hyn yn gyffredinol;
- pe byddai'r pennaeth ymarfer optegol yn rheoli'r agwedd hon, yna mae'n debygol y byddai angen ymrwymiadau amser sylweddol, yn arbennig mewn sefydliadau mwy;
- gellid dyrannu cyfrifoldeb am hyfforddiant i gofrestrwr neu arbenigwr arall o fewn y sefydliad yn dibynnu ar ei faint a'i strwythur, a dylai'r unigolyn mwyaf profiadol arwain yr hyfforddiant
- mae angen eglurder ynglŷn ag union gyfrifoldebau'r pennaeth ymarfer optegol yn y maes hwn.

90. Yn gyffredinol, er bod consensws ar bwysigrwydd sicrhau ansawdd lleoliadau hyfforddiant, mynegwyd safbwyntiau cymysg o ran a ddylai hyn gael ei gynnwys yng nghylch gwaith y pennaeth ymarfer optegol. Os bydd hyn yn wir, roedd galwad clir am hyblygrwydd wrth aseinio cyfrifoldeb, yn seiliedig ar faint a strwythur y busnes, gyda phwyslais ar beidio rhoi baich gormodol ar y pennaeth ymarfer optegol ac osgoi gwrthdaro gyda strwythurau addysgol presennol.

91. Mynegwyd safbwyntiau cymysg gan y cyrff optegol proffesiynol/cynrychiadol o ran a ddylai lleoliadau hyfforddiant fod yn un o gyfrifoldebau'r rôl. Ystyriwyd y dylai'r GOC osgoi bod yn rhy ragnodol yn y maes hwn. Gallai'r pennaeth ymarfer optegol gael rôl oruchwylio, ond dylai fod yn bosibl iddynt ddirprwyo mwy o'r gwaith gweithredol o ddydd i ddydd i gydweithwyr sydd â gwybodaeth arbenigol am y maes hwn. Bydd maint y busnes hefyd yn dylanwadu ar y flaenoriaeth a roddir i ofynion goruchwylio a gweithredol addysg a hyfforddiant. Roedd pryder hefyd ynglŷn â'r amser, y cyfrifoldeb a'r baich ychwanegol a roddir ar y pennaeth ymarfer optegol i gyflawni'r cyfrifoldeb hwn, a gallai hynny atal cofrestreion rhag ymgymryd â'r rôl hon.

92. Mae sampl o sylwadau ar gael yn y blwch isod.

> *"Dylai'r pennaeth ymarfer optegol weithio gyda'r perchennog busnes i gyflawni hyn. Dylent ysgwyddo cyfrifoldeb cyfartal."* Optometrydd

*“Rwy’n credu y byddai’r swydd Pennaeth Ymarfer Optegol hon yn gwpan gwenwynig a’i bod yn debygol y byddai’n ormod o faich i un unigolyn, yn arbennig mewn sefydliad mwy.”* Optometrydd cyflenwi therapiwtig

*“Mae Safonau’r GOC ar gyfer Busnesau Optegol yn ei gwneud yn ofynnol i’r busnes sicrhau bod lleoliadau hyfforddiant yn cael eu gweithredu’n ddigonol a bod pobl yn cael eu goruchwylio’n briodol. Gall busnesau barhau i fod yn gyfrifol am sicrhau safonau uchel ar gyfer hyfforddiant a bod unrhyw raglenni’n cael eu gweithredu yn unol â rheolau a osodwyd gan y BCO/ABDO/sefydliadau hyfforddiant. Y busnes ei hun ddylai benderfynu sut i ddirprwyo hyn, naill ai i’r Pennaeth Ymarfer Optegol neu i reolwr Dysgu a Datblygu, yn seiliedig ar angen busnes,”* Cofrestrydd busnes y GOC

*“…O ystyried y gwahanol fathau o fusnesau sy’n bodoli, byddai’n gwneud synnwyr i bennaeth y gwasanaeth optegol oruchwylio’r system addysg a hyfforddiant mewn busnes, ond ni ddylent o reidrwydd fod yn gyfrifol yn benodol am ddigonolrwydd lleoliadau. Dylai’r GOC osgoi bod yn rhy ragnodol yn y maes hwn.”* ABDO

*“Mae addysg a hyfforddiant mewn optometreg yn ofod cymhleth a thechnegol, ac ni allwn roi ateb llawn yma, yn arbennig heb fwy o wybodaeth benodol am y cynnig … Gallai fod rôl bosibl i Benaethiaid Ymarfer Optegol gael rhywfaint o gyfrifoldeb am sicrhau bod ymrwymiadau i ddarparwyr addysg yn cael eu cyflawni a’u rheoli’n briodol, ond nid cyfrifoldebau o reidrwydd ynghylch “digonolrwydd” y trefniadau ar gyfer lleoliadau hyfforddiant. Mewn practisau mawr, gallai cydweithwyr eraill fod yn fwy addas i fod yn gyfrifol am reoli’r hyfforddiant...”* Coleg yr Optometryddion

*“Mae hyn yn dibynnu ar y math o sefydliad. Er enghraifft, mewn practis llai, mae hyn yn debygol o fod yr un person ond mewn rhai sefydliadau mwy, gallai fod angen mwy nac un Pennaeth Ymarfer Optegol a thîm mawr gyda phennaeth adran gwahanol yn arwain yr hyfforddiant ac addysg mewn sefydliadau eraill. Mae’n bosibl y bydd gan bob practis Bennaeth Ymarfer Optegol, ond bod hyfforddiant ac addysg yn cael ei drefnu’n ganolog...”* FODO – Y Gymdeithas Darparwyr Gofal Llygaid

*“Dylai bod gan y Pennaeth Ymarfer Optegol rôl i sicrhau bod hyfforddiant yn cael ei gynnal, ond rhaid i'r busnes barhau i fod yn bennaf gyfrifol am hyn. Un canlyniad anfwriadol allweddol o roi hyn yn gyfan gwbl ar y PYO yw'r ymrwymiad amser sylweddol sydd ei angen mewn sefydliadau mwy....”* Optometreg yr Alban

*“Credwn y dylai practisau barhau i wneud penderfyniad ar hyn oherwydd credwn y gallai canlyniadau anfwriadol gael eu creu ynghylch recriwtio/swydd-ddisgrifiadau pe byddai’r GOC yn rhagnodol ar y pwynt hwn.”* Optometreg Cymru

*Ymateb y GOC – pennaeth ymarfer optegol: cyfrifoldebau ynghylch trefniadau lleoliadau hyfforddiant*

93. Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai'r pennaeth ymarfer optegol gael cyfrifoldebau ynghylch lleoliadau hyfforddiant, nodwyd yr ystod o bryderon a fynegwyd a bod barn gymysg ymhlith y cyrff optegol proffesiynol/ cynrychiadol.

94. Rydym yn gwerthfawrogi bod addysg a hyfforddiant yn faes arbenigol a bod natur sicrhau cydymffurfiaeth gyda'n gofynion yn y maes hwn ychydig yn wahanol i'r cyfrifoldebau eraill a ragwelir. Ar ôl ystyried yr adborth, a nodi mai darparwyr addysg sy'n gyfrifol am ddylunio'r cwricwlwm a'r strategaeth asesu ar gyfer lleoliadau hyfforddiant, o dan safon 3 y Gofynion ar gyfer Cymwysterau Cymeradwy mewn Optometreg neu Opteg Gyflenwi, rydym wedi dod i'r casgliad y dylai busnesau gael disgresiwn i benodi'r person mwyaf cymwys ac addas i oruchwylio lleoliadau hyfforddiant, ac mae'n bosibl nad yr un unigolyn â'r pennaeth ymarfer optegol fydd hyn. Byddai hyn yn osgoi bod yn rhy ragnodol ar gylch gwaith y rôl a lleihau'r gronfa o ddarpar ddeiliaid y rôl.

95. Felly, ni fyddwn yn cynnig i'r llywodraeth y dylai fod gan y pennaeth ymarfer optegol gyfrifoldebau penodol ynghylch digonolrwydd trefniadau ar gyfer lleoliadau hyfforddiant. Fodd bynnag, byddem yn disgwyl i'r pennaeth ymarfer optegol gael rôl oruchwylio, drwy eu cyfrifoldeb i gymryd camau rhesymol i sicrhau bod y busnes yn cydymffurfio â'r gofyniad yn y Safonau ar gyfer Busnesau Optegol i sicrhau bod gan bob aelod o staff 'lefelau addas o hyfforddiant 'er mwyn peidio â chael effaith andwyol ar ddiogelwch cleifion' (gweler safon 3.2).

**Pennaeth ymarfer optegol: cofrestrydd cymwys y GOC**

96. Fe wnaethom holi rhanddeiliaid i ba raddau yr oeddynt yn cytuno neu'n anghytuno y dylai'r pennaeth ymarfer optegol fod yn gofrestrydd unigol cwbl gymwys y GOC. O'r 73 ymatebwr a atebodd y cwestiwn, roedd 81 y cant yn cytuno neu'n cytuno'n gryf, nid oedd 11 y cant yn cytuno nac yn anghytuno, ac roedd wyth y cant yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.

97. Nodwyd y themâu canlynol o'r sylwadau:

- dylai'r pennaeth ymarfer optegol fod yn gofrestrydd y GOC, oherwydd ei bod yn bwysig cael rhywun â'r arbenigedd clinigol a rheoliadol i sicrhau cydymffurfiaeth a chynnal safonau clinigol;
- byddai cofrestrydd yn fwy dibynadwy a byddai ganddynt ddealltwriaeth well o fanylion ymarfer optegol;
- amlygwyd ymarferoldeb sut y byddai'r gofyniad hwn yn gweithio ar gyfer practisau llai, yn enwedig os oes rhaid cyflogi pennaeth y practis optegol yn uniongyrchol ac na allent weithio ar draws sawl busnes;

- dylai fod esemptiadau neu hyblygrwydd mewn amgylchiadau penodol, er enghraifft absenoldeb hirdymor y pennaeth ymarfer optegol neu i bractisau bach y mae ymarferwyr nad ydynt wedi cofrestru yn berchen arnynt;
- dylai'r GOC ymgysylltu â chyrff y sector i egluro ymhellach sut y byddai'r rôl yn gweithredu yn ymarferol er mwyn lliniaru risgiau a chostau.

98. Yn gyffredinol, er y mynegwyd cefnogaeth gref i'r pennaeth ymarfer optegol fod yn gofrestrydd y GOC oherwydd eu dealltwriaeth o lywodraethiant glinigol a gofal cleifion, roedd cydnabyddiaeth hefyd o'r angen am hyblygrwydd mewn rhai modelau neu amgylchiadau busnes penodol. Ystyriwyd y dylid diffinio cyfrifoldebau'r rôl yn glir, ac y byddai'n ddymunol cynnal trafodaeth bellach gyda chyrff y sector i drafod heriau posibl.

99. Roedd y cyrff optegol proffesiynol/cynrychiadol yn cytuno'n gyffredinol â'r cynnig ond galwyd hefyd am hyblygrwydd, er enghraifft, ystyried maint y busnes ac unrhyw absenoldeb gan y pennaeth ymarfer optegol. Anghytunodd Optometreg Cymru, gan ddweud y gallai bod yn rhy ragnodol ynghylch y rôl greu canlyniadau anfwriadol, mewn cysylltiad â recriwtio, er enghraifft. Dywedodd FODO y gallai fod yn anodd i berchnogion busnes lleyg neu bractisau bach gadw at y gofyniad hwn, gyda chanlyniadau anfwriadol, er enghraifft, gorfod cyflogi cyflogai ychwanegol i gyflawni'r rôl neu ei gwneud yn anodd i werthu busnes oherwydd y gofynion rheoleiddiol ychwanegol.

100. Mae sampl o sylwadau ar gael yn y blwch isod.

*"Os nad y cyfarwyddwr, yn bendant mae angen cofrestrydd atebol."* Optometrydd

*"Mae llawer o'r risgiau yn risgiau clinigol, ac felly, dylai fod yn gofrestrydd priodol ar gyfer y swyddogaethau sy'n cael eu darparu."* Optometrydd

*"Mae'n sicrhau bod gan yr unigolyn sy'n gyfrifol am gydymffurfiaeth yr arbenigedd clinigol a'r arbenigedd rheoleiddiol angenrheidiol."* Optegydd cyflenwi

*"Mae'n darparu sicrwydd eu bod yn ddibynadwy."* Optometrydd myfyriwr

*"Mae angen i'r Pennaeth Ymarfer Optegol feddu ar wybodaeth am beth sy'n cael ei reoleiddio."* Busnes optegol (nid cofrestrydd busnes y GOC)

*"Er ein bod yn gweld y rôl hon fel un sy'n cael ei harwain gan gofrestreion yn ddelfrydol, rydym yn cydnabod bod yn rhaid i'r system fod yn ymarferol. Os nad yw'r pennaeth ymarfer optegol yn gofrestrydd yna dylai fod yn berchennog y busnes (gyda chefnogaeth, yn ddelfrydol, gan gyfarwyddwyr cofrestreion) felly os bydd unrhyw bryderon yn codi gallai'r GOC ddwyn y person perthnasol i gyfrif...."* ABDO

> *“Bydd penodi cofrestrydd y GOC sydd â’r lefelau addas o brofiad i ymgymryd â rôl y pennaeth ymarfer optegol yn meithrin mwy o ymddiriedaeth a hyder ymhlith cyflogeion …”* AOP
>
> *“Pe byddai model Pennaeth Ymarfer Optegol yn cael ei fabwysiadu, credwn y dylent fod yn gofrestrydd unigol cwbl gymwys gyda’r GOC. Fodd bynnag, efallai y bydd amgylchiadau eithriadol pan na fydd hyn yn bosibl e.e. i weithio yn ystod cyfnodau estynedig o absenoldeb pennaeth ymarfer optegol mewn practis bach y mae person nad yw wedi cofrestru yn berchen arno, ac efallai y bydd angen gwneud darpariaeth ar gyfer amgylchiadau fel hyn.”* Coleg yr Optometryddion
>
> *“…er bod y rhan fwyaf o’r adborth a dderbyniwn yn cefnogi y dylai hyn fod yn gofrestrydd y GOC bob tro, fe wnaethom hefyd dderbyn adborth am yr heriau y gallai’r cynnig presennol gan y GOC eu creu i berchnogion practisau llai...”* FODO – Y Gymdeithas Darparwyr Gofal Llygaid
>
> *“Byddai angen cyfrifoldebau wedi’u diffinio’n glir ar gyfer y rôl Pennaeth Ymarfer Optegol a gofyniad lefel ofynnol o wybodaeth os gall optometryddion ac optegwyr cyflenwi fod yn gymwys. Er enghraifft, ni ddylai optegydd cyflenwi fod yn gyfrifol am gyngor sy’n gysylltiedig â gweithdrefnau mewn archwiliad llygaid.” Optometreg yr Alban*
>
> *“Credwn y dylid cadw’r penderfyniad fel un a wneir gan y practis oherwydd credwn y gallai canlyniadau anfwriadol ynghylch recriwtio/swydd-ddisgrifiadau gael eu hachosi pe byddai’r GOC yn rhagnodol ar y pwynt hwn.” Optometreg Cymru*

*Ymateb y GOC – pennaeth ymarfer optegol: cofrestrydd cwbl gymwys y GOC*

101. Croesawn y gefnogaeth gadarn gan randdeiliaid y dylai pennaeth ymarfer optegol fod yn gofrestrydd cwbl gymwys y GOC a byddwn yn argymell hyn i’r llywodraeth. Bydd cofrestrydd sydd wedi cael hyfforddiant clinigol ac sy'n rhwym wrth safonau proffesiynol yn helpu i sicrhau ymddiriedaeth a hyder ymhlith y cyhoedd a chofrestreion. Nodwn y pryderon ynghylch canlyniadau anfwriadol ac y gallai fod amgylchiadau cyfyngedig lle mae angen rhywfaint o hyblygrwydd. Byddem yn disgwyl cytundeb ar y trefniadau manwl yn dilyn newid i ddeddfwriaeth sylfaenol i fynd i'r afael â sut mae'r angen am hyblygrwydd yn cael ei ddiwallu orau yn yr amgylchiadau cyfyngedig hynny lle nad yw'n bosibl i gofrestrydd gyflawni'r rôl.

102. Gallai’r pennaeth ymarfer optegol fod yn optometrydd neu’n optegydd cyflenwi; y mater pwysig yw eu gallu i gyflawni holl gyfrifoldebau’r rôl.

**Pennaeth ymarfer optegol: cyflogai**

103. Fe wnaethom ofyn i randdeiliaid i ba raddau yr oeddynt yn cytuno neu’n anghytuno y dylai’r pennaeth ymarfer optegol fod yn unigolyn wedi’i gyflogi gan y busnes. O’r 73 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn, roedd 68 y cant yn cytuno

neu’n cytuno’n gryf, nid oedd 14 y cant yn cytuno nac yn anghytuno, ac roedd 18 y cant yn anghytuno neu’n anghytuno’n gryf.

104. Nodwyd y themâu canlynol o’r sylwadau:

- dylai bod gan y pennaeth ymarfer optegol gysylltiad uniongyrchol ac arwyddocaol gyda’r busnes, a phrofiad uniongyrchol i ddeall sut mae’r busnes yn gweithredu;
- byddai unigolyn sy’n cael ei gyflogi gan y busnes yn sicrhau mwy o atebolrwydd;
- mae gwrthdaro buddiannau posibl neu lai o effeithiolrwydd os na fyddai’r rôl yn un gyflogedig yn y busnes, oherwydd mae’n bosibl na fyddai pennaeth ymarfer optegol allanol yn cael yr un effaith neu’r un awdurdod â rhywun yn y busnes;
- mae heriau posibl i bractisau bach a’r angen am hyblygrwydd, er enghraifft caniatáu gwasanaethau wedi’u contractio mewn sefyllfaoedd penodol, er enghraifft absenoldeb salwch, cyfnodau recriwtio, neu pan na fydd unrhyw ymgeisydd mewnol addas ar gael;
- gallai contractwyr neu ymgynghorwyr lenwi’r rôl pan nad oes unrhyw ymgeisydd addas mewn busnes;
- dylai’r GOC ymgynghori ymhellach gyda rhanddeiliaid i helpu i fireinio ac egluro rôl y pennaeth ymarfer optegol.

105. Yn gyffredinol, er bod consensws ar yr angen i’r pennaeth ymarfer optegol gael cysylltiad cryf gyda’r busnes, roedd galwad hefyd am hyblygrwydd i ddarparu ar gyfer meintiau a sefyllfaoedd busnes. Ystyriwyd bod angen mwy o ymgysylltiad gyda rhanddeiliad i fireinio’r agwedd hon o’r cynigion.

106. Roedd y cyrff optegol proffesiynol/cynrychiadol yn cytuno i raddau helaeth, ond unwaith eto, nodwyd y gallai unrhyw ofynion rhagnodol greu canlyniadau anfwriadol a bod angen rhywfaint o hyblygrwydd, er enghraifft, pan fydd yn anodd recriwtio i’r rôl, pan fydd gwasanaethau’n cael eu darparu gan ymarferwyr locwm, neu os yw’r pennaeth ymarfer optegol ar absenoldeb hirdymor.

107. Mae sampl o sylwadau ar gael yn y blwch isod.

> *“Heb hyn, os nad ydynt wedi’u cyflogi gan y busnes, gallai fod yn agored i lwgrwobrwyo a llygredd. Rwy’n credu bod angen i’r busnes fod yn uniongyrchol atebol…”* Optometrydd

*“Rwy’n credu, i wneud y swydd hon yn dda, bod angen i chi ddeall yr amrywiadau sy’n bodoli ym mhob busnes, yn ogystal â’r gallu i ymgysylltu’n uniongyrchol gyda chyflogeion. Nid wyf yn credu y gallai person allanol gael yr un effaith.”* Optometrydd

*“Mae’n sicrhau atebolrwydd, oherwydd bydda’r Pennaeth Ymarfer Optegol wedi’u hintegreiddio’n uniongyrchol yn y busnes a’i weithrediadau.”* Optegydd cyflenwi

*“Pwy fyddai’n atebol/cyfrifol fel arall.”* Optegydd lensys cyffwrdd

*“Cyflogaeth yw’r model tebygol a’r un a ffafrir, ond mae cofrestrydd enwebedig neu un a enwyd yr un mor hyfyw neu'n well. Er enghraifft, gallai cyflogaeth fod yn feichus i fusnesau bach, os nad yw eu cofrestrydd preswyl yn dymuno ymgymryd â chyfrifoldeb y pennaeth ymarfer optegol neu pan fydd busnes yn profi cyfnod hir o absenoldeb y pennaeth ymarfer optegol presennol (e.e. absenoldeb salwch, cyfnod mamolaeth/tadolaeth) neu pan fydd y PYO yn gadael y busnes ac mae’r busnes yn y broses o recriwtio...”* Cofrestrydd busnes y GOC

*“Dylai fod yn rhywun sy’n meddu ar wybodaeth a hygyrchedd i’r busnes cyfan.”* Busnes optegol (nid cofrestrydd busnes y GOC)

*“Heb hyn mae risg o gael arweinydd mewn enw symbolaidd.”* Darparwr addysg

*“Heb linell uniongyrchol o randdeiliaid/perchennog i PYO, mae’n bosibl y bydd llai o gyfathrebu a’r posibilrwydd y bydd ymddygiad amhriodol yn cael ei guddio.”* Elusen/sefydliad cynrychioli cleifion

*“…mae angen i ni gydnabod bod pobl yn newid swyddi, yn mynd ar gyfnod mamolaeth/tadolaeth, yn cael cyfnodau o salwch ac absenoldeb a byddai angen i berchennog y busnes sicrhau bod ganddynt yr hyblygrwydd i drefnu darpariaeth llanw ar gyfer y rôl PYO yn yr amgylchiadau hyn pe na allent ymgymryd â’r rôl hon eu hunain. Felly, gallai fod angen caniatáu i gontractwr ymgymryd â’r rôl PYO - cofrestrydd yn ddelfrydol.”* ABDO

*“Mae’r AOP yn cefnogi’r syniad, mewn achosion pan fydd angen PYO, y dylent gael eu cyflogi gan y busnes …”* AOP

*“Byddai’n rhesymol i’r Pennaeth Ymarfer Optegol fod yn unigolyn sy’n cael ei gyflogi gan y busnes. Fodd bynnag, mae’n bosibl y bydd amgylchiadau pan na fydd hyn yn bosibl, er enghraifft pan nad oes ymgeisydd addas ar gyfer y PYO ar gael, pan fydd y gwasanaethau clinigol yn cael eu darparu gan ymarferwyr locwm, neu mewn amgylchiadau pan fydd y PYO ar absenoldeb hirdymor. Dylid trefnu darpariaeth ar gyfer hyn*.” Coleg yr Optometryddion

*“Er bod y rhan fwyaf o fusnesu yn debygol o gyflogi’r PYO, mae’n bosibl y bydd rhesymau dilys dros ganiatáu hefyd i’r rôl PYO gael ei chyflawni gan gontractwr, er enghraifft:*
- *yr angen am ddarpariaeth llanw dros gyfnod o absenoldeb salwch*
- *yr angen am ddarpariaeth llanw am gyfnod pan fydd PYO newydd yn cael ei recriwtio*

• *gallai busnesau llai gael anhawster i ddod o hyd i optometrydd cyflogedig sy'n dymuno ymgymryd â chyfrifoldebau PYO ac efallai y bydd angen i berchennog busnes logi adnoddau ychwanegol i'w helpu i reoli hyn..."* FODO – Y Gymdeithas Darparwyr Gofal Llygaid

*Ymateb y GOC – pennaeth ymarfer optegol: cyflogai*

108. Roedd cefnogaeth eang i'r syniad y dylai pennaeth ymarfer optegol fod yn gyflogai yn y busnes, ac rydym yn bwriadu bwrw ymlaen â'r cynnig hwn. Mae'n bwysig bod llinellau cyfrifoldeb ac atebolrwydd clir, ac rydym yn ystyried mai'r ffordd orau o sicrhau hyn yw os yw'r unigolyn yn cael ei gyflogi gan y busnes. Rydym yn cydnabod heriau ymarferol lle mae angen hyblygrwydd yng ngweithrediad dyddiol y polisi, er enghraifft, mewn sefyllfaoedd lle mae deiliad y rôl yn absennol am gyfnod hir. Rydym yn hyderus y gellir mynd i'r afael â'r rhain trwy reolau a chanllawiau wedi'u cefnogi gan ddull cymesur o orfodi.

**Pennaeth ymarfer optegol: busnesau lluosog**

109. Fe wnaethom holi rhanddeiliaid i ba raddau yr oeddynt yn cytuno neu'n anghytuno na ddylai unigolyn fod yn bennaeth ymarfer optegol busnesau lluosog. O'r 73 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn, roedd 38 yn cytuno neu'n cytuno'n gryf, nid oedd 26 y cant yn cytuno nac yn anghytuno, ac roedd 36 y cant yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.

110. Nodwyd y themâu canlynol o'r sylwadau:

- byddai cyfyngu unigolion i fod yn bennaeth ymarfer optegol ar gyfer un busnes yn sicrhau atebolrwydd uniongyrchol a chlir a ffocws cryfach ar sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion rheoliadol;
- gallai gwrthdaro buddiannau godi pe byddai pennaeth ymarfer optegol yn goruchwylio nifer o fusnesau ar wahân a digyswllt;
- dylai fod hyblygrwydd gan fod modelau busnes ym maes opteg yn gymhleth ac mewn rhai achosion, fel busnesau lluosog neu fasnachfreintiau mwy, gall fod yn rhesymol i bennaeth ymarfer optegol oruchwylio nifer o fusnesau cysylltiedig;
- yn ymarferol, nid oes unrhyw reswm pam na allai un unigolyn gyflawni anghenion y rôl ar draws busnesau lluosog;
- gallai capio nifer y busnesau y gallai un unigolyn gyflawni'r rôl leihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â gwanhau ffocws;
- dylai'r busnes ei hun allu penderfynu sut y byddai'r rôl yn gweithio a rheoli'r risgiau.

111. Yn gyffredinol, er nad oedd consensws, mynegwyd ffafriaeth i gyfyngu nifer y busnesau y gallai un unigolyn ymgymryd â'r rôl pennaeth ymarfer optegol ynddynt i sicrhau proses reoli a chydymffurfiaeth reoliadol, gyda rhywfaint o hyblygrwydd yn seiliedig ar strwythur a pherthynas y busnes.

112. Mynegwyd safbwyntiau cymysg gan y cyrff optegol proffesiynol/cynrychiadol. Roedd hyblygrwydd yn thema gyffredin oherwydd gall strwythurau busnes amrywio'n sylweddol. At hynny, awgrymodd y cyrff hyn y gallai fod yn anodd i fusnes recriwtio pennaeth ymarfer optegol, a bod angen rhywfaint o hyblygrwydd i fusnesau bach allu cyflawni gofynion rheoliadol.

113. Mae sampl o sylwadau ar gael yn y blwch isod.

*"Ar yr amod eu bod yn gweithio'n uniongyrchol yn y busnes, ni ddylid gwahardd busnesau lluosog."* Optometrydd

*"Mae'n gwbl bosibl i unigolyn sicrhau bod safonau a systemau ar waith ar draws safleoedd a busnesau lluosog, yn arbennig gyda systemau rheoli risg uwch-dechnoleg..."* Cofrestrydd busnes y GOC

*"Byddai canghennau lluosog o un cwmni yn iawn, nid nifer o fusnesau. Gall gwrthdaro busnes amlwg ddigwydd bob amser mewn modelau busnes tebyg."* Optegwyr Pearce & Blackmore (Cofrestrydd busnes y GOC)

*"Dylai busnesau unigol asesu a rheoli'r risg."* Elusen/sefydliad cynrychioli cleifion

*"Er y gallai PYO fod yn canolbwyntio ar un busnes penodol yn ddelfrydol, mae yna lawer o wahanol fathau o fusnesau optegol ac felly dylai'r GOC ganiatáu hyblygrwydd ynghylch sut y cyflawnir y rôl. Y flaenoriaeth yw canolbwyntio ar y canlyniad a ddymunir, sef darparu'r arweinyddiaeth angenrheidiol er mwyn cynnal safonau uchel o ofal a chydymffurfiaeth reoliadol ym mhob busnes unigol."* ABDO

*"…At hynny, mae PYO sydd wedi ymrwymo i un busnes yn creu amgylchedd gwaith cydlynol i'r tîm clinigol, gan sicrhau bod safonau proffesiynol yn cael eu cynnal mewn ffordd gyson. Mae'r dull gweithredu hwn yn meithrin pwynt cyswllt clir a hygyrch i dimau clinigol, gan helpu i osgoi gwrthdaro posibl mewn buddiannau masnachol a allai godi pe byddai'r PYO yn goruchwylio nifer o fusnesau digyswllt. Mewn sefyllfaoedd o ddiffyg cydymffurfiaeth, neu dorri safonau'r GOC, byddai'n anodd cyfiawnhau cael PYO sy'n gweithredu ar draws sefydliadau lluosog..."* AOP

*"…gallai ymgynghorydd annibynnol oruchwylio nifer o bractisau a bod mewn sefyllfa i rannu fframweithiau arfer gorau."* Pwyllgor Optegol Lleol Bexley Bromley a Greenwich

*"Yn y rhan fwyaf o achosion, byddai'n rhesymol ar gyfer practisau unigol neu grwpiau bach o bractisau, y byddai'r Pennaeth Ymarfer Optegol yn gyfrifol am yr un busnes hwnnw. Fodd bynnag, i rai busnesau lluosog mwy, am resymau gweithredol, byddai'n rhesymol gwneud darpariaeth i'r unigolyn fod yn gyfrifol am nifer o fusnesau/masnachfreintiau cysylltiedig. Gallai fod angen arweiniad ar yr*

*uchafswm posibl o bractisau y dylai PYO fod yn gyfrifol amdanynt, a pha strwythurau ddylai fod ar waith i ddirprwyo cyfrifoldebau o ddydd i ddydd..."* Coleg yr Optometryddion

*"…At hynny, os oes gan bractis bach un optometrydd cyflogedig gwerthfawr iawn sydd ond yn gallu gweithio'n rhan-amser oherwydd bod ganddynt gyfrifoldebau gofalu ac na allent ymgymryd â rôl y PYO, yna gallai cynigion y GOC i'w gwneud yn ofynnol i PYO gael eu cyflogi ac i beidio â chefnogi sawl practis arwain at ganlyniadau diogelwch cleifion llai cadarnhaol. Gallai cyfyngiadau o'r fath ar rôl y PYO hefyd greu cymhlethdodau gyda chyfraith cyflogaeth bresennol, Deddf Cydraddoldeb 2010 a rhoi perchnogion practisau llai mewn perygl o orfod cau - e.e. gorfod cyflogi cofrestrydd GOC ychwanegol i fod yn PYO na all incwm y practis ei gynnal.…"* FODO – Y Gymdeithas Darparwyr Gofal Llygaid

*Ymateb y GOC – pennaeth ymarfer optegol: busnesau lluosog*

114. Nid oedd consensws clir yn yr ymatebion ar y mater hwn. Mae'n bwysig cydnabod bod gan randdeiliaid wahanol safbwyntiau gan wahaniaethu rhwng busnesu lluosog cysylltiedig (er enghraifft fel partneriaethau cyd-fenter a masnachfreintiau) a nifer o fusnesau digyswllt. Rydym yn cydnabod bod yr heriau i fusnesau mawr a bach yn wahanol iawn.

115. Fel dull diofyn, rydym o'r farn na ddylai un unigolyn gyflawni rôl y pennaeth ymarfer optegol ar gyfer busnesau lluosog ar wahân a digyswllt. Fel y nodwyd yn ein hymgynghoriad, roeddem yn pryderu y gallai hyn wanhau gallu'r unigolyn i gyflawni'r rôl yn effeithiol o ystyried yr angen am fynediad at wybodaeth, meddu ar yr awdurdod i wneud penderfyniadau penodol a bod llinellau atebolrwydd priodol. Rydym yn cytuno gyda rhai o'r rhanddeiliaid y gallai'r sefyllfa hon arwain at wrthdaro buddiannau posibl na ellid eu rheoli'n foddhaol.

116. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol o'r gwahanol fodelau busnes yn y sector ac yn gweld y gellid defnyddio hyblygrwydd mewn amgylchiadau cyfyngedig a parhau i ddiwallu anghenion y rôl, gan osgoi sefyllfaoedd lle mae unigolion yn cyflawni rôl enwol neu ymgynghorol ar draws nifer o fusnesau digyswllt. Byddwn yn gweithio gyda sefydliadau rhanddeiliaid ar fanylion y gweithredu i sicrhau bod y fframwaith rheoleiddio yn taro'r cydbwysedd cywir. Nid ydym yn ystyried bod angen rhagnodi'r mater hwn mewn deddfwriaeth sylfaenol ond yn hytrach gellir ei nodi mewn rheolau a chanllawiau a fydd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus.

**Pennaeth ymarfer optegol: pŵer i gyflwyno safonau ymddygiad**

117. Fe wnaethom ofyn i randdeiliaid i ba raddau yr oeddynt yn cytuno neu'n anghytuno y dylai fod gan y GOC bŵer i gyflwyno cyfres ar wahân o safonau ymddygiad ar gyfer y pennaeth ymarfer optegol, pe byddai angen hynny yn y

dyfodol. O’r 73 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn, roedd 46 y cant yn cytuno neu’n cytuno’n gryf, nid oedd 21 yn cytuno nac yn anghytuno ac roedd 33 y cant yn anghytuno neu’n anghytuno’n gryf.

118. Nodwyd y themâu canlynol o’r sylwadau:

- os bydd rôl y pennaeth ymarfer optegol yn ymgorffori cyfrifoldebau newydd, nad yw ein safonau presennol yn eu cwmpasu, yna gallai fod achos i gyflwyno safonau ar wahân ar gyfer y rôl hon er mwyn sicrhau disgwyliadau clir;
- dylid cyflwyno safonau ar wahân os bydd y rôl yn cael ei chyflawni gan ymarferydd nad yw wedi cofrestru gyda’r GOC;
- mae posibilrwydd o gymhlethdod, gor-reoleiddio a biwrocratiaeth os cyflwynir safonau ar wahân ar gyfer pennaeth ymarfer optegol, yn arbennig os bydd y rôl yn cael ei chyflawni gan gofrestrwyr y GOC sydd eisoes yn ddarostyngedig i safonau’r GOC;
- gallai unrhyw reoleiddio ychwanegol fod yn lletchwith a dryslyd, a dylai’r GOC ddarparu arweiniad clir yn hytrach na chreu safonau newydd oherwydd bod y safonau presennol yn ddigonol ac yn ddigon trylwyr;
- gallai busnesau bach gael anhawster i nodi pennaeth ymarfer optegol addas oherwydd gellid ystyried bod safonau penodol yn feichus.

119. Yn gyffredinol, rhoddwyd rhybudd rhag cyflwyno gofynion rheoliadol ychwanegol, yn arbennig os oedd y rhai sy’n cyflawni’r rôl eisoes yn cael eu rheoleiddio gan y GOC. Nid oedd rhai yn sicr pam y byddai’r GOC yn ceisio sicrhau’r pŵer i gyflwyno safonau posibl yn y dyfodol, ond gofynnwyd am sicrwydd y byddem yn ymgysylltu ac yn ymgynghori ymhellach gyda rhanddeiliaid pe byddem yn gwneud hynny.

120. Roedd y cyrff optegol proffesiynol/cynrychiadol yn erbyn cyflwyno safonau rheoliadol ychwanegol os oedd deiliad y rôl eisoes wedi cofrestru gyda’r GOC. Ystyriwyd y gallai hyn fod yn gostus, yn ddiangen a gallai arwain at or-reoleiddio, ac y dylai unrhyw safonau yn y dyfodol fod yn ddarostyngedig i ymgynghoriad pellach gyda rhanddeiliaid gyda rhesymeg glir ynghylch pam mae angen hyn.

121. Mae sampl o sylwadau ar gael yn y blwch isod.

> *“Mwy o fiwrocratiaeth.”* Optometrydd
>
> *“Gallai hyn fod yn gam yn rhy bell wrth geisio dod o hyd i bobl o’r fath ar gyfer busnesau bach â pherchnogion lleyg oherwydd efallai na fydd cofresteion eisiau bod yn ddarostyngedig i gyfres uwch(?) o safonau.”* Optometrydd

*"Dylai rheolau'r GOC fod yn berthnasol i bawb, ond gellid cael rheolau ychwanegol ar gyfer penaethiaid i wneud yn siŵr eu bod yn gwybod na allent gamddefnyddio pŵer." Optegydd dan Hyfforddiant*

*"Dylai'r GOC gael yr annibyniaeth i gyflwyno safonau newydd (sy'n ddefnyddiol) yn yr un ffordd ag y mae'r safonau presennol ar gyfer cofrestreion unigol a busnesau optegol yn cael eu diweddaru o bryd i'w gilydd er mwyn caniatáu ar gyfer newid."* Cofrestrydd busnes y GOC

*"Onid yw hyn wedi'i gynnwys eisoes yn safonau'r GOC wrth gofrestru? Mae'n swnio ei fod yn mynd yn fwy cymhleth ac ar wahân. Rwy'n teimlo, os oes angen PYO, yna eu rôl yw sicrhau bod y busnes yn dilyn safonau/cod ymddygiad y GOC."* Busnes optegol (nid cofrestrydd busnes y GOC)

*"Dylai'r GOC amlinellu'n glir beth yw cyfrifoldebau pennaeth ymarfer optegol fel uchod a chan dybio bod y person sy'n cyflawni'r rôl hon naill ai yn gofrestrydd neu'n atebol fel perchennog busnes, ni ddylai fod angen cael safonau ar wahân ar gyfer y pennaeth ymarfer optegol. Dylai'r GOC osgoi creu cyfres ar wahân o safonau sy'n ddiangen, yn gostus ac yn gymhleth ei gweinyddu."* ABDO

*"…Mae'r ddogfen ymgynghori'n awgrymu nad oes angen safonau ar wahân ar gyfer PYO, ac nid oes unrhyw resymeg yn cael ei darparu dros eu creu. O'r herwydd, rydym yn cefnogi barn y GOC nad oes angen safonau ychwanegol. At hynny, nid ydym yn credu ei bod yn briodol i gorff rheoliadol geisio cael y pŵer i gyflwyno safonau newydd ar sail ddamcaniaethol. Yn hytrach, os bydd y GOC yn nodi angen am safonau ar wahân yn y dyfodol, dylent ymgynghori eto bryd hynny, a darparu rhesymeg lawn a manwl."* AOP

*"Er y dylid esbonio rolau a chyfrifoldebau PYO yn glir i ddeiliad y swydd, nid ydym o'r farn bod angen unrhyw reoliadau ychwanegol. Fodd bynnag, pe byddai rôl PYO yn cael ei llenwi gan rywun nad ydynt wedi cofrestru (yn ddibynnol ar dderbyn y cynnig cysylltiedig uchod), gallai fod angen i'r GOC ystyried safonau ychwanegol ar gyfer unigolion o'r fath."* Coleg yr Optometryddion

*Ymateb y GOC – pennaeth ymarfer optegol: pŵer i gyflwyno safonau ymddygiad*

122. Nid ydym yn credu bod angen cyflwyno safonau ar wahân ar gyfer y rôl hon. Am ein bod yn bwriadu i ddeiliad y swydd fod yn gofrestrydd y GOC sydd eisoes yn ddarostyngedig i'n safonau, gallai cyflwyno unrhyw safonau ychwanegol fod yn ddryslyd ac anghymesur. Fodd bynnag, wrth i'r rôl esblygu, rydym yn credu y byddai'n ddarbodus i ni gael yr hyblygrwydd i ychwanegu safonau yn y dyfodol. Yn dilyn ymchwiliad pellach, rydym yn credu bod ein deddfwriaeth bresennol yn ein galluogi i bennu gofynion penodol ar gyfer grwpiau penodol o gofrestreion. Os byddwn yn penderfynu cyflwyno safonau

penodol yn y dyfodol, fel gyda'r holl newidiadau i'n safonau, byddem yn ymgynghori â'r cyhoedd.

**Pennaeth ymarfer optegol: nodweddion**

123. Fe wnaethom ofyn i randdeiliaid i ba raddau yr oeddynt yn cytuno neu'n anghytuno y dylai'r GOC nodi mewn rheolau/canllawiau nodweddion hanfodol pennaeth ymarfer optegol y dylai busnesau eu bodloni eu hunain. O'r 71 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn, roedd 73 y cant yn cytuno neu'n cytuno'n gryf, nid oedd 8 y cant yn cytuno nac yn anghytuno, ac roedd 18 y cant yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.

124. Nodwyd y themâu canlynol o'r sylwadau:

- er bod angen cysondeb ac eglurder wrth ddiffinio rôl y pennaeth ymarfer optegol, ni ddylai'r GOC fod yn rhy ragnodol wrth fandadu nodweddion hanfodol ar gyfer y rôl;
- dylid gadael swydd-ddisgrifiadau a phenodi'r rôl i ddisgresiwn perchnogion busnesau, gyda'r GOC o bosibl yn darparu canllawiau neu dempled i fusnesau ei addasu;
- gallai gormod o fanylion wrth ddiffinio nodweddion hanfodol gyfyngu nifer yr ymgeiswyr addas neu atal cofrestreion posibl, a rhaid i unrhyw ofynion fod yn wrthrychol ac yn anwahaniaethol;
- gallai bod yn rhy benodol ei gwneud yn anodd i fusnesau llai recriwtio ac ni ddylai'r GOC ei gwneud yn ofynnol i fusnesau recriwtio staff ychwanegol er mwyn cyflawni meini prawf rhy gaeth.

125. Yn gyffredinol, galwodd yr ymatebwyr am ddull gweithredu cytbwys sy'n darparu eglurder ac sy'n cefnogi arweinyddiaeth effeithiol, heb osod cyfyngiadau a allai lesteirio'r broses recriwtio neu hyblygrwydd gweithredol practisau optegol.

126. Roedd y cyrff optegol proffesiynol/cynrychiadol o blaid diffinio nodweddion person ar y cyfan, ond yr oeddynt yn rhybuddio rhag bod yn rhy ragnodol, oherwydd gallai hyn atal unigolion rhag ymgymryd â'r rôl neu efallai na fydd unrhyw ymgeiswyr addas. Roedd ABDO o'r farn y dylai busnesau benderfynu hyn.

127. Mae sampl o sylwadau ar gael yn y blwch isod.

| |
|---|
| "Byddai hyn yn galluogi cysondeb ar draws pob practis." Optometrydd |

*“Os byddwch yn bwrw ymlaen â’r cynnig PYO mae’n debyg y byddai cael cyfres o ganllawiau yn ddefnyddiol ond dylai’r sefydliadau allu penderfynu pwy sydd orau ar gyfer y rôl.”* Optometrydd cyflenwi therapiwtig

*“Mae’n darparu canllawiau clir i fusnesau ar ddethol unigolion cymwys a galluog fel PYO.”* Optegydd cyflenwi

*“Mae’n anodd dychmygu sut y gallai’r GOC fandadu nodweddion ymgeiswyr PYO oherwydd bydd amrywiadau ar draws llawer o fodelau busnes. Gallai ei gwneud yn anodd recriwtio i fodel wedi’i fandadu, yn arbennig ar gyfer busnesau llai. Byddai’n ddefnyddiol pe gallai’r GOC ddarparu canllaw ar wybodaeth, sgiliau a nodweddion hanfodol a dymunol, h.y. fel manyleb swydd.”* Cofrestrydd busnes y GOC

*“Fel y nodwyd yn yr ymatebion i gwestiynau blaenorol, mae’n hollbwysig bod y rôl PYO yn cael ei diffinio’n well er mwyn i ddeiliaid y swydd allu bod mor effeithiol â phosibl. Gellir cyflawni hyn drwy ddefnyddio templed “manyleb person” y gall busnesau ei haddasu. Byddai nodi’r lefelau addysg a phrofiad dymunol cyffredinol a fyddai’n gwneud rhywun yn ymgeisydd da ar gyfer y rôl hon yn fuddiol iawn. Byddem hefyd yn croesawu eglurder ar sut y gellid diogelu’r rôl hon i sicrhau y gall weithredu yn ôl y bwriad.”* AOP

*“Mae rheolau a chanllawiau penodol yn hollbwysig.”* Pwyllgor Optegol Lleol Bexley Bromley a Greenwich

*“Os cyflwynir gofyniad am Bennaeth Ymarfer Optegol, gallai fod yn ddefnyddiol i’r GOC nodi mewn rheolau/canllawiau, y nodweddion hanfodol y maent yn credu sy’n angenrheidiol ar gyfer PYO. Fodd bynnag, un canlyniad anfwriadol yw, os na fydd unrhyw gyflogai neu ymarferydd locwm yn cyflawni’r nodweddion hyn, ni fyddai unrhyw Bennaeth Ymarfer Optegol. Byddai angen gweld y nodweddion hanfodol arfaethedig yn gyntaf cyn gwneud sylw pellach.”* Coleg yr Optometryddion

*“Mae gan y FCA a rheoleiddwyr eraill feini prawf/egwyddorion o’r fath. Fodd bynnag, yn y sectorau hyn nid yw cwmnïau yn penodi unigolion sydd eisoes yn cael eu rheoleiddio yn eu rhinwedd eu hunain yn y sector/arbenigedd penodol hwnnw. Os yw PYO yn gofrestredig gyda'r GOC, mae'n anodd dychmygu beth fyddai'r GOC yn ei ddiffinio fel "nodweddion hanfodol" nad ydynt eisoes wedi'u cynnwys yn y safonau cofrestredig presennol...”* FODO – Y Gymdeithas Darparwyr Gofal Llygaid

*“Un canlyniad anfwriadol yw y gallai gormod o fanylion am nodweddion hanfodol gyfyngu nifer y bobl a fyddai’n addas ar gyfer y rolau hyn NEU atal cofrestreion. Nid yw’r system bresennol yn un feichus i gofrestreion ac felly mae’n denu mwy o unigolion sy’n awyddus i wneud cynnydd yn eu gyrfa.”* Optometreg yr Alban

*Ymateb y GOC – pennaeth ymarfer optegol: nodweddion*

128. Yn gyffredinol, roedd rhanddeiliaid o'r farn na ddylem ragnodi nodweddion hanfodol deiliaid y rôl mewn rheolau ac rydym yn cytuno â'r farn hon. Fodd bynnag, roedd rhanddeiliaid o'r farn y dylai'r GOC ddarparu rhywfaint o arweiniad yn y maes hwn i helpu i ddeall ein disgwyliadau. Byddwn yn ystyried yr angen am unrhyw ganllawiau ar nodweddion person fel rhan o'n dull gweithredu.

**Pennaeth ymarfer optegol: cofrestr fusnes**

129. Fe wnaethom holi rhanddeiliaid i ba raddau yr oeddynt yn cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i enw'r pennaeth ymarfer optegol gael ei restru ar gofrestr busnesau'r GOC. O'r 72 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn, roedd 57 yn cytuno neu'n cytuno'n gryf, nid oedd 24 y cant yn cytuno nac yn anghytuno, ac roedd 19 y cant yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.

130. Nodwyd y themâu canlynol o'r sylwadau:

- gallai rhestru'r pennaeth ymarfer optegol wella tryloywder ac atebolrwydd, a darparu pwynt cyswllt clir i'r cyhoedd;
- pryderon ynglŷn â'r newid ffocws posibl o atebolrwydd sefydliadol i gyfrifoldeb unigol a chreu pwysau annheg ar y pennaeth ymarfer optegol, oherwydd gallai roi'r argraff eu bod yn bennaf atebol am gydymffurfiaeth reoliadol er bod hyn yn gyfrifoldeb a rennir;
- pryderon ymarferol ynghylch sicrhau bod y gofrestr yn gyfredol, yn arbennig ar gyfer busnesau â safleoedd a phenaethiaid ymarfer optegol lluosog;
- mae gwybodaeth am gofrestreion y GOC eisoes ar gael i'r cyhoedd, ac efallai y bydd rhestrau ychwanegol yn ddiangen a gallent arwain at fwy o gwynion;
- gallai mesur o'r fath atal unigolion rhag ymgymryd â'r rôl o ganlyniad i'r risg o graffu cyhoeddus ac aflonyddwch posibl;
- mae'r system bresennol yn ddigonol ar gyfer codi pryderon gyda'r rheoleiddiwr.

131. Yn gyffredinol, er bod cydnabyddiaeth o'r angen am atebolrwydd a thryloywder, roedd pryder ynglŷn â goblygiadau rhestru pennaeth ymarfer optegol unigol ar gofrestr fusnes y GOC, gyda galwad am agwedd fwy cytbwys at gyfrifoldeb a phryderon ynghylch gweithrediad ymarferol.

132. Cafwyd safbwyntiau cymysg gan y cyrff optegol proffesiynol/cynrychiadol. Roedd yr AOP ac Optometreg yr Alban yn anghytuno gan ddweud y gallai fod yn gamarweiniol drwy roi'r argraff bod yr unigolyn yn bennaf gyfrifol am

fethiannau busnes. Dywedodd Coleg yr Optometryddion y gallai wella tryloywder gyda'r cyhoedd oherwydd byddai llinell atebolrwydd glir.

133. Mae sampl o sylwadau ar gael yn y blwch isod.

*"Pwynt cyswllt sydd ar gael i'r cyhoedd a chyrff eraill sydd â diddordeb."* Optometrydd

*"Mae risgiau o atal unigolion rhag ymgymryd â'r rôl oherwydd gwelededd a chraffu cyhoeddus."* Optegydd cyflenwi

*"Gallai hyn ychwanegu cymhlethdod diangen i'r gofrestr ac mae angen ystyriaeth bellach. Pan fydd gan fusnes safleoedd lluosog wedi'u rhestru ar gofrestr gorfforaethol y GOC ac mae ganddynt PYO lluosog (e.e. efallai y byddant yn dymuno mabwysiadu dull PYO rhanbarthol), ni fyddai'n hawdd nodi pa PYO sy'n berthnasol i bob safle. Mae angen ystyriaeth bellach er mwyn deall y manteision i gleifion, cyflogwyr a busnesau eraill o restru'r PYO enwebedig ar y gofrestr fusnes. Mae angen i unrhyw ddatrysiad ystyried y ffaith bod angen i gleifion/busnesau allu nodi'r PYO sy'n berthnasol i'r safle busnes/lleoliad penodol hwnnw yn rhwydd."* Cofrestrydd busnes y GOC

*"Rwy'n deall yr angen am atebolrwydd i'r cyhoedd, rwy'n credu dyna pam mae'r GOC yn bodoli. Mae cael un enw unigol wedi'i restru ar-lein y gall unrhyw gwsmer anhapus ei erlid yn creu posibilrwydd y gallai sefyllfa droi'n gas iawn, heb lawer o fudd i ddiogelwch y cyhoedd."* Arall

*"Atebolrwydd ac mae'n dilyn llinellau tebyg i gyrff rheoliadol eraill."* Elusen/sefydliad cynrychioli cleifion

*"Nid ydym yn credu bod hyn yn angenrheidiol a byddem yn cwestiynu diben rhestriad o'r fath. Byddai'r wybodaeth angenrheidiol eisoes ar gael i'r GOC a gallai unrhyw aelod o'r cyhoedd godi unrhyw bryderon gyda'r rheoleiddiwr yn y ffordd arferol, heb gael mynediad at y wybodaeth hon."* Clyde & Co LLP

*"…Yn fwy cyffredinol, rydym o'r farn y dylai atebolrwydd am gydymffurfiaeth gael ei rannu'n gymesur ymhlith perchnogion busnes, cyfarwyddwyr, uwch reolwyr ac arweinwyr clinigol, oherwydd mae ganddynt i gyd rôl mewn llywodraethiant weithredol a chlinigol. Gallai nodi'r PYO yn gyhoeddus roi baich annheg ar un unigolyn…"* AOP

*"Er mwyn sicrhau tryloywder gyda'r cyhoedd, a gwella'r broses gyfathrebu rhwng practisau optometreg a'r GOC, byddai hyn yn fesur rhesymol. Byddai hefyd yn dangos yn glir i'r cyhoedd a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill pwy sy'n gyfrifol am sicrhau bod y practis/au yn cyflawni safonau'r GOC."* Coleg yr Optometryddion

*“Mae gan y FCA agwedd debyg. Mae cofrestreion y GOC ar y gofrestr eisoes, felly nid oes unrhyw effaith arwyddocaol o ran data ar gael i’r cyhoedd.”* FODO – Y Gymdeithas Darparwyr Gofal Llygaid

*“Mae rhoi gormod o bwyslais ar berson unigol drwy eu henwi ar restr y GOC yn awgrymu cyfrifoldeb terfynol nad yw o bosibl yn wir a gallai fod yn gamarweiniol i'r cyhoedd neu fusnesau eraill. Dylid parhau i enwi’r busnes yn unig gan fod hyn yn cadw'r cwmni'n gyfrifol. Canlyniad anfwriadol arall yw y gallai cleifion fod eisiau siarad yn uniongyrchol â'r PYO a hepgor gweithdrefn gwyno'r cwmni a fyddai'n broblemus mewn busnesau mwy yn arbennig ac mewn rhai achosion gallai achosi oedi mewn gweithdrefnau..”* Optometreg yr Alban

*Ymateb y GOC – pennaeth ymarfer optegol: cofrestr fusnes*

134. Er ein bod yn cydnabod y pryderon a godwyd gan rai rhanddeiliaid, rydym wedi dod i’r casgliad, er budd tryloywder y cyhoedd, y dylid rhestru enw’r pennaeth ymarfer optegol enwebedig unigol ar gofrestr fusnes y GOC. Mae’n bwysig ei bod yn amlwg i’r cyhoedd pwy sy’n gyfrifol am sicrhau bod busnes yn cyflawni’r safonau rheoleiddio gofynnol. Rydym yn cytuno bod rhaid cyfleu unrhyw nodiadau yn glir ac yn gywir, er enghraifft, er mwyn sicrhau nad yw pennaeth ymarfer optegol yn cael ei ddwyn i gyfrif yn ormodol am fethiannau busnes, a'n bod yn cydymffurfio â'r holl ofynion diogelu data.

**Pennaeth ymarfer optegol: anodiad ar gofrestr unigol**

135. Fe wnaethom ofyn i randdeiliaid i ba raddau yr oeddynt yn cytuno neu’n anghytuno â’n cynnig i unigolion weithredu fel pennaeth ymarfer optegol gael anodiad wrth eu cofnod ar gofrestr unigolion y GOC. O’r 72 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn, roedd 42 y cant yn cytuno neu’n cytuno’n gryf, nid oedd 32 yn cytuno nac yn anghytuno, ac roedd 26 y cant yn anghytuno neu’n anghytuno’n gryf.

136. Nodwyd y themâu canlynol o’r sylwadau:

- pryderon a oedd yn amlygu dryswch a chymhlethdod diangen posibl unrhyw anodiad ar gofrestr y GOC;
- gallai anodiadau o’r fath fod yn gamarweiniol pan fydd gweithwyr proffesiynol yn gweithio ar draws practisau lluosog ond eu bod ond yn ddeiliad y rôl pennaeth ymarfer optegol mewn un ohonynt;
- byddai rhestru’r pennaeth ymarfer optegol wrth ymyl cofnodion cofrestreion busnes yn ei gwneud yn fwy eglur i’r cyhoedd;
- gallai anodiad atal unigolion cymwys rhag ymgymryd â’r rôl oherwydd y lefel uwch o graffu ac atebolrwydd, ac y gallai'r cyhoedd gysylltu â nhw'n hawdd;

- dylai cofrestr y GOC ganolbwyntio ar gymwysterau clinigol a risgiau yn hytrach na rolau llywodraethu;
- cwestiynau ynghylch diben yr anodiad a'i effaith ar ddiogelwch cleifion neu atebolrwydd.

137. Yn gyffredinol roedd yr ymatebwyr yn pryderu yn bennaf ynghylch dryswch posibl, yr effaith ataliol ar weithwyr proffesiynol sy'n ystyried y rôl, a phriodoldeb gwneud anodiadau o'r fath yn gyhoeddus. Byddai cysylltu'r rôl â chofnodion cofrestreion busnes yn hytrach na chofrestreion unigol yn fwy effeithiol ac yn llai dryslyd.

138. Roedd cyrff optegol proffesiynol/cynrychiadol yn anghytuno â'r cynnig hwn. Roeddynt yn credu y gallai achosi dryswch i'r cyhoedd, yn arbennig pan fyddai cofrestrydd yn gweithio ar draws nifer o bractisau. Awgrymwyd y byddai'n well cysylltu hyn â chofrestriad y busnes.

139. Mae sampl o sylwadau ar gael yn y blwch isod.

*"Gallai atal unigolion rhag ymgymryd â'r rôl oherwydd anodiad cyhoeddus."* Optegydd cyflenwi

*"Gallai hyn ychwanegu cymhlethdod diangen i'r gofrestr, yn arbennig oherwydd bod pobl yn gweithio mewn lleoliadau lluosog …"* Cofrestrydd busnes y GOC

*"Efallai nad yw'r unigolyn eisiau i hyn gael ei rannu â'r cyhoedd."* Pwyllgor Optegol Lleol Bexley Bromley a Greenwich

*"Dylai'r gofrestr o fusnesau optegol restru enw'r pennaeth ymarfer optegol a nodi o bosibl a ydynt yn gofrestrydd ai peidio. Mae'n faich gormodol felly i groesgyfeirio hyn at y rhestr o gofrestreion ac mae'n creu'r risg o greu dryswch a gweinyddiaeth ormodol, heb ychwanegu dim at ddiogelwch nac atebolrwydd cleifion.."* ABDO

*"Mae anodi enw'r PYO yn awgrymu lefel uwch o atebolrwydd personol o gymharu â rhanddeiliaid allweddol eraill, er enghraifft perchnogion busnes, cyfarwyddwyr ac uwch reolwyr. Gallai'r craffu gormodol hwn atal unigolion cymwys rhag gwneud cais am y rôl, gan danseilio nod ehangach y GOC o wella goruchwyliaeth reoleiddiol. Mae cofrestr unigol y GOC yn bodoli i wirio cymwysterau, statws cofrestru a hanes Addasrwydd i Ymarfer gweithiwr proffesiynol. Mae ychwanegu anodiadau nad ydynt yn gysylltiedig â risgiau clinigol na chymwysterau clinigol yn gwanhau prif swyddogaeth a phwrpas y gofrestr. Yn y bôn, swydd lywodraethu yw rôl y Pennaeth Gweithredol sy'n gysylltiedig â chydymffurfiaeth fusnes, nid ymarfer clinigol personol.…"* AOP

*"Mae'n bosibl y bydd achlysuron pan fydd cofrestrydd yn PYO un practis, ond eu bod hefyd yn gweithio mewn nifer o bractisau/busnesau eraill (e.e. fel locwm) ac nid ydynt yn PYO yn y rhain. Byddai hyn yn achosi dryswch i'r cyhoedd...."* Coleg yr Optometryddion

*“Byddai hyn yn ddiangen a gallai greu dryswch hefyd – e.e. pan fydd cofrestrydd unigol yn gweithio ar draws nifer o bractisau ond dim ond mewn un practis y mae ganddynt rôl PYO...”* FODO – Y Gymdeithas Darparwyr Gofal Llygaid

*“Byddai’n ddryslyd mewn achosion pan fydd optometrydd yn gweithio ar draws practisau eraill.”* Optometreg yr Alban

*“Credwn y byddai’n llai dryslyd i’r cyhoedd pe byddai penaethiaid practisau optegol yn cael eu rhestru yn erbyn cofnod y practis yn hytrach na chofnod y cofrestrydd.”* Optometreg Cymru

*Ymateb y GOC – pennaeth ymarfer optegol: anodiad ar gofrestr unigol*

140. Yn seiliedig ar yr adborth, rydym wedi dod i’r casgliad os bydd rhywun wedi’i restru fel rhan o gofnod cofrestrydd busnes, yna nid oes angen anodi’r wybodaeth hon i’w cofnod fel cofrestrydd unigol. Rydym yn cytuno y gallai hyn achosi dryswch, yn arbennig os bydd unigolyn yn gweithio ar draws busnesau lluosog ac yn cytuno gyda’r pwynt bod anodiadau’n cael eu defnyddio’n bennaf i bwysleisio sgiliau clinigol ychwanegol neu risgiau, nid lefel uwch o reolwyr.

## Adran 3: Dull gorfodi a sancsiynau

### Pwerau i osod cosb ariannol

*Ymchwil cleifion a'r cyhoedd*

141. Yn y grwpiau ffocws a'r cyfweliadau, cafwyd cefnogaeth eang i newid pwerau'r GOC i alluogi system gosbi heb ei chapio yn hytrach na chael uchafswm cosb, fel sy'n bodoli yn awr. Roedd cyfranogwyr yn cefnogi pwerau gorfodi cryfach, gan gynnwys y gallu i gyflwyno dirwyon wedi'u teilwra i faint a throsiant busnes optegol. Fodd bynnag, roedd llawer eisiau i ddifrifoldeb yr effaith ar gwsmeriaid gael ei ystyried hefyd, yn hytrach na system lle mae dirwyon yn cael eu seilio ar faint y busnes yn unig.

*Ymatebion i'r ymgynghoriad*

142. Fe wnaethom ofyn i randdeiliaid pa opsiwn yr oeddynt yn ei ffafrio mewn cysylltiad â phwerau'r GOC i osod cosb ariannol ar gofrestrwyr busnes. O'r 94 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwnnw, dywedodd 59 y cant y dylai'r gosb ariannol fod yn gysylltiedig â throsiant, dywedodd 28 y cant y dylid cael uchafswm newydd (i ddisodli'r uchafswm presennol o £50,000) a dywedodd 14 y cant y dylai fod gan y GOC y pŵer i osod cosb ariannol heb ei chapio.

143. Nodwyd y themâu canlynol o'r sylwadau:

- dylid gosod cosbau ariannol mewn ffordd gymesur a theg, gan ystyried, er enghraifft, maint a throsiant busnes;
- dylai cosbau fod yn ddigon effeithiol i weithredu fel ataliad heb fod mor ddifrifol fel eu bod yn bygwth hyfywedd busnesau, yn enwedig practisau llai;
- gall rheoleiddio a chosbau ariannol priodol helpu i wella canlyniadau i gleifion, fodd bynnag gallai cosbau gormodol niweidio gofal cleifion drwy orfodi practisau i gau, yn arbennig mewn ardaloedd dan anfantais, neu atal practisau rhag gwneud gwelliannau i ofal cleifion;
- ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth pam fod angen pŵer ar y GOC i osod cosb ariannol heb ei chapio – byddai'r dull hwn yn anghymesur a gallai fod yn niweidiol i fusnesau, heb dystiolaeth glir o'r budd i ddiogelwch y cyhoedd;
- mae'r cysyniad o gysylltu cosbau i drosiant yn gymhleth a gallai fod yn annheg, yn arbennig i fusnesau â ffrydiau refeniw amrywiol neu'r rhai sydd yn rhan o gorfforaethau mwy a/neu fyd-eang – efallai bod gan rai busnesau drosiant uchel ond efallai nad ydynt yn broffidiol iawn neu gallent fod yn gwneud colled hyd yn oed;

- gallai uchafswm cosb newydd fod yn opsiwn hyfyw, ar yr amod ei fod yn cael ei bennu mewn ffordd deg a chymesur – mae angen eglurder ar sut y byddai unrhyw gap newydd yn cael ei bennu a byddai angen ymgynghoriad pellach.

144. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn dadlau dros gosbau cymesur a theg sy'n ystyried maint a throsiant busnesau, gyda llawer yn gwrthwynebu dirwyon heb gap ac yn mynegi pryderon ynghylch yr effeithiau negyddol posibl ar fusnesau a gofal cleifion.

145. Cafwyd safbwyntiau cymysg gan y cyrff optegol proffesiynol/cynrychiadol o ran a ddylai'r uchafswm dirwy fod yn gysylltiedig â throsiant, neu a ddylid pennu uchafswm newydd. Nid oedd unrhyw un ohonynt yn cefnogi cael dirwyo heb ei chapio, oherwydd eu bod yn credu bod hynny'n anghymesur ac ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth pam bod angen y pŵer hwn i ddiogelu'r cyhoedd yn effeithiol. Fodd bynnag, roedd y PSA yn ffafrio system ddirwyo heb ei chapio oherwydd byddai'n helpu i ddiogelu ein deddfwriaeth yn y dyfodol.

146. Roedd yr AOP yn cefnogi cysylltu'r ddirwy i drosiant, am eu bod yn credu mai dyma fyddai'r dull mwyaf teg a chymesur. O ystyried meintiau amrywiol busnesau ym marchnad y DU, roedd o'r farn y byddai'r opsiwn hwn yn gweithio'n effeithiol i gosbi cwmnïau ar y lefel ariannol gywir. Fodd bynnag, y dadleuon yn erbyn y dull hwn oedd nad yw'n rhwydd cyfrifo trosiant. Gall yr hyn sy'n cynrychioli trosiant amrywio rhwng cwmnïau a gallai gael ei effeithio gan, er enghraifft, a yw'r cwmni'n gweithredu'n rhyngwladol neu'n cynnig gwasanaethau eraill fel awdioleg. Gallai fod gan gwmni drosiant iach ond ei fod yn rhedeg ar golled, ac yn yr achos hwn, gallai unrhyw ddirwy niweidio gallu'r cwmni i barhau neu gallai gyfyngu ar ei allu i wneud gwelliannau i ofal cleifion.

147. Roedd pob un o'r cyrff optegol proffesiynol/cynrychiadol eraill yn ffafrio pennu uchafswm newydd ar gyfer y ddirwy fel yr opsiwn mwyaf teg, a gellid cysylltu hyn â chwyddiant. Cynigiodd Coleg yr Optometryddion fodel hybrid lle byddai'r gosb yn cael ei chapio ond bod y swm yn gysylltiedig â throsiant (neu elw).

148. Mae sampl o sylwadau ar gael yn y blwch isod.

> *"Rydych chi wedi cael llawer o gyfleoedd dros y blynyddoedd diwethaf i gychwyn achos cyfreithiol yn erbyn busnesau cofrestredig - yn fwyaf nodedig pan oedd sefydliadau'n torri rheolau Covid ac yn fwy diweddar ynghylch amseroedd profi byrrach. Gyda'r penderfyniadau hyn mewn golwg, pam ddylech chi gael y pŵer i godi lefel y ddirwy? Fel sefydliad rydych chi eisiau cynyddu'r pŵer sydd ar gael i chi, gan ychwanegu at gostau busnes wrth fethu'n llwyr â defnyddio'ch pwerau presennol."* Optometrydd

*“Mae cysylltu’r gosb i drosiant yn sicrhau cosb gymharol gyfartal i bawb.”* Optegwyr Heyes Cyf (cofrestrydd busnes y GOC)

*“Dylai’r ddirwy fod yn gysylltiedig â difrifoldeb y digwyddiad a maint y cwmni. Bydd cosb o’r un maint yn cael effaith wahanol iawn ar gwmni mawr gwerth miliynau o bunnoedd o gymharu ag un bach annibynnol.”* Busnes optegol (nid cofrestrydd busnes y GOC)

*“Ni ellir cyfiawnhau gallu’r GOC i osod dirwyon heb eu capio (o’r dystiolaeth a ddarparwyd ganddynt) am nad oes unrhyw risg uniongyrchol i ddiogelwch y cyhoedd – felly mae hyn y tu hwnt i gylch gwaith y GOC.”* Darparwr addysg

*“Bydd uchafswm sefydlog yn cael ei erydu gan chwyddiant a gellir ffugio cysylltiad â throsiant trwy gyfrifyddu clyfar.”* Darparwr addysg

*“Byddai cosb heb ei chapio yn ymddangos fel senario eithafol fel cosb i fusnesau nad ydynt yn glynu at safonau a gallai arwain at gymhwysiad amrywiol ac anghydfodau cyfreithiol. Er ein bod wedi dewis uchafswm newydd, byddai angen iddo adlewyrchu’r lefel o risg i ddiogelwch cleifion...”* SeeAbility (elusen/sefydliad cynrychioli cleifion)

*“…Byddai’r posibilrwydd o osod dirwy heb ei chapio yn sicrhau y byddai deddfwriaeth y GOC yn parhau i fod yn ddiogel ar gyfer y dyfodol. Yn amlwg, Yn amlwg, mae angen ystyried manylion sut y byddai swm y ddirwy yn cael ei gyfrifo'n ofalus; rydym yn croesawu asesiad manwl y GOC o sut y gellid gwneud hyn.”* PSA

*“Mae cysylltu cosbau ariannol i drosiant busnes yn sicrhau bod dirwyon yn gymesur, yn deg ac yn cael effaith ar draws busnesau o bob maint …”* AOP

*“…Ym mhob achos, rhaid ystyried effaith cosbau ariannol ar bractisau llai, yn enwedig lle mae practis bach yn un o'r ychydig (neu'r unig) opsiynau ar gyfer mynediad cleifion at ofal llygaid (e.e. ardaloedd gwledig) a byddai dirwy fawr yn eu hatal rhag gwneud y gwelliannau gofynnol ac felly parhau i weithredu. Er y dylai fod cosb ariannol fel ataliad, a mesurau diogelwch ar waith i amddiffyn y cyhoedd, ni ddylai'r sancsiynau beryglu darparu gofal cleifion diogel yn yr ardaloedd lle mae'r angen mwyaf.”* Coleg yr Optometryddion

*“…Pe byddai gan y GOC bwerau i osod cosb ariannol yn seiliedig ar drosiant, byddai'n anodd defnyddio offeryn rheoleiddio o'r fath yn effeithiol ac yn gymesur yn y DU, o ystyried yr ystod eang o fodelau busnes a chadwyni cyflenwi byd-eang cymhleth. Felly nid yw'n glir o dan ba amgylchiadau y byddai cosb ariannol yn seiliedig ar drosiant ar gyfer gwasanaethau gofal llygaid sylfaenol yn diogelu’r cyhoedd. Am y rhesymau hyn, credwn fod cysylltu cosb ariannol â throsiant yn opsiwn anymarferol.…”* FODO – Y Gymdeithas Darparwyr Gofal Llygaid

*“Nid ydym yn credu y byddai cosbau ariannol heb eu capio yn briodol am nad ydym yn gweld budd i’r cyhoedd ac mae risg o annog practisau i beidio â chefnogi diwygiadau i’r system reoleiddio. Nid ydym yn credu bod cysylltu'r gosb ariannol â throsiant yn briodol – gallai fod gan bractis optegol drosiant iach a’u bod yn*

*gwneud colled ariannol, ac unwaith eto mae hyn yn creu'r risg o annog practisau i beidio â chefnogi diwygiadau i'r system reoleiddio."* Optometreg Cymru

*Ymateb y GOC – pwerau i osod cosb ariannol*

149. Rydym wedi ystyried yr adborth gan randdeiliaid yn ofalus mewn cysylltiad â'n dull o bennu cosbau ariannol. Er nad oedd rhanddeiliaid yn ffafrio cosbau ariannol heb eu capio, rydym yn ystyried mai'r dull hwn fyddai'n adlewyrchu orau amrywiaeth modelau busnes a'r angen i ddiogelu ein deddfwriaeth ar gyfer y dyfodol. Wrth i broffil risg y proffesiynau dyfu ac wrth i fwy o fusnesau gael eu cynnwys o fewn y rheoliadau, mae'n bwysig ein bod yn gallu gosod cosbau priodol. Yn ogystal, nododd ein Panel Cynghori bod busnesau eisoes yn cael eu hamlygu i ddirwyon anghyfyngedig (er enghraifft, drwy dribiwnlysoedd cyflogaeth sy'n gysylltiedig â deddfwriaeth gwahaniaethu[5]) felly ni fyddai hyn yn cyflwyno risg newydd.

150. Rydym yn cytuno â'r dadleuon y byddai cysylltu dirwyon i drosiant yn unig yn rhy gymhleth, o ystyried y modelau busnes sy'n gweithredu yn y farchnad a chyfyngiadau trosiant fel metrig. Rydym hefyd yn ystyried pennu uchafswm cosb mympwyol hefyd a fyddai'n cyflwyno'r un problemau yr ydym yn eu profi yn awr, o beidio â gallu dirwyo yn gymesur mewn cysylltiad â'r farchnad. Hefyd, byddai angen adolygu'r cap yn rheolaidd a byddai angen diwygiadau deddfwriaethol bob tro y byddai'n cael ei newid.

151. Er ein bod yn ailadrodd nad nod y gosb ariannol yw cosbi cofrestreion, dylai unrhyw sancsiwn weithredu i atgyfnerthu cydymffurfiaeth, ac rydym yn ystyried mai'r dull hwn fyddai'r ffordd orau o helpu i gyflawni hyn. Roedd llawer o'r gwrthwynebiadau i'n cynnig yn canolbwyntio ar gymesuredd a'n diffyg hanes o ddefnyddio dirwyon. Er mwyn sicrhau bod dirwyon yn gymesur, byddwn yn cynhyrchu canllawiau sancsiynu i esbonio sut y dylid cyfrifo cosbau ariannol. Ymhellach, bydd y penderfyniad cyhoeddedig yn egluro sut y cyfrifwyd y ddirwy ym mhob achos. Rydym yn disgwyl y bydd trosiant yn aml yn ffactor allweddol yn y cyfrifiad hwn, ond efallai na fydd hyn yn briodol ym mhob achos. Fel gydag unrhyw sancsiwn, gall y cofrestrydd apelio yn erbyn y penderfyniad, sy'n darparu diogelwch ychwanegol.

152. I nodi, ym mharagraff 154 ein dogfen ymgynghori, fe wnaethom ddefnyddio cyfradd chwyddiant Banc Lloegr o 1958 (pan gafodd Deddf yr Optegwyr ei deddfu) i amcangyfrif beth fyddai gwerth y gosb ariannol o £50,000 heddiw, a nodwyd y byddai bron yn £1 filiwn. Fodd bynnag, ni chyflwynwyd y gosb

[5] Dangosodd ystadegau dyfarniadau blynyddol tribiwnlysoedd cyflogaeth ar gyfer y cyfnod 2023/24 ddyfarniadau cyfartalog a oedd yn amrywio o £10,750 i £102,891. (Ystadegau Dyfarniadau Tribiwnlysoedd Cyflogaeth 2023/24 Cyhoeddwyd| MFMac)

ariannol o £50,000 nes y deddfwyd Deddf Optegwyr 1989 (Gorchymyn Diwygio) 2005, felly byddai'r swm cyfatebol heddiw tua £86,700.

**Pŵer i ymweld**

*Ymchwil cleifion a'r cyhoedd*

153. Yn y grwpiau ffocws a'r cyfweliadau, roedd cefnogaeth eang dros roi pŵer i'r GOC ymweld â busnes optegol pe byddem yn penderfynu agor ymchwiliad ar ôl i bryder gael ei godi. Roedd rhai o'r cyfranogwyr yn ffafrio archwiliadau rheolaidd yn syth ar ôl cofrestru, er mwyn nodi problemau posibl yn gynnar (ac nid oeddem wedi cynnig hyn fel rhan o'n cynigion rheoleiddio busnes), wedi'u dilyn gan archwiliadau ychwanegol a fyddai'n cael eu hysgogi gan gwynion neu hunan-gyfeiriadau.

*Ymatebion i'r ymgynghoriad*

154. Fe wnaethom ofyn i randdeiliaid i ba raddau yr oeddynt yn cytuno neu'n anghytuno y gallai cyflwyno pŵer i ymweld â busnesau fel rhan o broses addasrwydd i gynnal busnes roi mwy o bwerau i'r GOC ddiogelu cleifion a'r cyhoedd. O'r 85 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn, roedd 62 y cant yn cytuno neu'n cytuno'n gryf, nid oedd 18 y cant yn cytuno nac yn anghytuno ac roedd 20 y cant yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.

155. Nodwyd y themâu canlynol o'r sylwadau:

- gall goruchwyliaeth reoliadol (drwy ymweld neu archwilio busnes) helpu i sicrhau bod safonau'n cael eu cyflawni a chynyddu diogelwch a hyder y cyhoedd yn y system;
- fel rheoleiddiwr, dylai bod gan y GOC bŵer i oruchwylio'r busnesau y mae'n eu rheoleiddio;
- nid oedd yn glir pryd a sut y byddai angen y pŵer hwn neu pryd y byddai'n cael ei ddefnyddio ac nid oedd yr enghreifftiau a roddwyd yn yr ymgynghoriad yn dangos hyn yn glir – mae angen mwy o wybodaeth i roi barn wybodus;
- roedd pryder ynghylch y dyblygu posibl gyda chyrff eraill, oherwydd roedd rhai practisau eisoes yn derbyn archwiliadau'r GIG;
- pe byddai ymweliadau o'r fath yn cael eu cynnal, rhaid bod eglurder ar y cwmpas a'r amgylchiadau y byddent yn cael eu gweithredu;

- roedd pryder y byddai'r costau rheoliadol sy'n gysylltiedig â'r cynnig yn cael eu trosglwyddo i gofrestreion.

156. Yn gyffredinol, er bod cydnabyddiaeth o fuddiannau posibl ymweliadau GOC ar gyfer effeithiolrwydd rheoleiddiol a hyder y cyhoedd, roedd pryder sylweddol hefyd ynghylch dyblygu, cost a'r angen am ganllawiau clir a chyfiawnhad o ran pryd a sut y byddai'r pwerau hyn yn cael eu defnyddio.

157. Er na chynigwyd hyn, ailadroddodd y cyrff optegol proffesiynol/cynrychioliadol nad oeddynt yn cefnogi system o arolygiadau rheolaidd nac arferol. Roedd y gefnogaeth i'r pŵer i ymweld yn gymysg, ac roedd rhai o'r farn nad oedd digon o dystiolaeth yn yr ymgynghoriad ynghylch pam roedd angen y pŵer hwn yn ychwanegol at y pwerau ymchwilio sydd gan y GOC ar hyn o bryd. Tynnodd y cyrff hyn sylw hefyd at bryderon ynghylch costau'n cael eu trosglwyddo i gofrestreion.

158. Mae sampl o sylwadau ar gael yn y blwch isod.

*"Mae gan y practisau sydd wedi cofrestru eisoes lawer o brotocolau a threfniadau llywodraethu yn ogystal â chofrestreion atebol a phethau fel ymweliadau'r GIG, nid wyf yn gweld pam y dylai'r GOC gael yr hawl i ddod i'r busnes, bydd ganddynt dystiolaeth eisoes sydd wedi'i darparu gan y practis, h.y. cofnodion."* Optometrydd

*"Pwysig i bractisau nad ydynt yn y GIG na fyddai ganddynt unrhyw oruchwyliaeth fel arall."* Optometrydd

*"I ddiogelu'r Practis Optegol rhag unrhyw honiadau diangen gan gleifion neu bobl nad ydynt yn gleifion. Er mwyn i'r GOC fod yn ymwybodol o'r prosesau o redeg practisau o ddydd i ddydd mewn bywyd go iawn a pheidio â chael eu cysgodi yn eu tyrau ifori yn Llundain."* Optegydd cyflenwi

*"Nid yw'n glir pa fudd y mae ymweliad safle yn ei ychwanegu i achosion Addasrwydd i Ymarfer oni bai ei fod yn helpu'r panel Addasrwydd i Ymarfer i gael gwell dealltwriaeth o'r hyn sydd wedi digwydd mewn unrhyw sefyllfa benodol (?). Efallai y dylid rhoi'r pŵer i'r GOC ddefnyddio hyn pan fydd ganddynt ddadl gref dros wneud hynny. Ni ddylai fod yn rhan o bob achos Addasrwydd i Ymarfer neu gallwn weld y gallai ehangu achosion Addasrwydd i Ymarfer y GOC hyd yn oed yn fwy nag y mae ar hyn o bryd.."* Cofrestrydd busnes y GOC

*"Rydym yn cytuno nad oes unrhyw dystiolaeth i gefnogi archwiliadau rheolaidd neu arferol. Rydym o'r farn bod y cynigion presennol yn anghymesur ac yn ddiangen. At hynny, nid yw'n glir pwy fyddai'n cynnal yr archwiliadau a pha ddogfennau neu wybodaeth y byddai'r GOC yn ceisio cael mynediad atynt. Rydym yn cwestiynu a oes gan y GOC staff sydd â'r sgiliau a'r hyfforddiant angenrheidiol i gynnal ymweliadau'n briodol na fyddai'n niweidio ymchwiliadau parhaus. Nodwn hefyd y gall Coleg yr Optometryddion gynnal ymweliadau â phractisau ar gyfer unrhyw*

*faterion sy'n ymwneud â goruchwylio optometryddion cyn cofrestru.…"* Clyde & Co LLP

*"Mae'n rhoi hyder i'r cyhoedd ac yn dilyn arfer cyrff rheoleiddiol eraill."* Elusen/sefydliad cynrychioli cleifion

*"…Rydym yn cydnabod y buddiannau posibl pe byddai gan y GOC bwerau i ymweld â busnesau er mwyn gallu sefydlu'r ffeithiau yn gliriach mewn achos penodol. Fodd bynnag, fel gydag unrhyw drefniadau rheoleiddio ychwanegol, byddai'n bwysig sefydlu'n glir y risg heb ei rheoli a fyddai'n deillio o'r model presennol ac ai pwerau ymweld fyddai'r dull priodol o fynd i'r afael â hyn. Byddai angen ystyried yn ofalus unrhyw gynigion i gyflwyno dulliau rheoleiddio ychwanegol, yn arbennig pan allai busnesau orfod ysgwyddo costau."* PSA

*"…O ran a oes angen pŵer ar y GOC i ymweld â safleoedd fel rhan o ymchwiliad addasrwydd i ymarfer, nid yw'n glir o dan ba amgylchiadau y byddai hyn yn angenrheidiol o ystyried bod gan y GOC bwerau eisoes i ofyn am wybodaeth a chasglu tystiolaeth tystion. Byddem yn pryderu am y costau ychwanegol i gofrestreion o benodi a hyfforddi tîm o arolygwyr."* ABDO

*"Ni all yr AOP gefnogi'r pwerau ymweld arfaethedig i'r GOC heb sicrwydd cadarn am sawl rheswm. Rhaid i ymyrraeth reoleiddiol fod yn gymesur â maint y busnes, y risgiau a gweithgarwch diffyg cydymffurfiaeth benodol... Mae'r AOP yn deall sut y gallai'r pŵer hwn helpu'r GOC mewn egwyddor i ymchwilio i bryderon, ond credwn mai yn anaml iawn y dylid ei ddefnyddio, mewn ffordd gyfyngedig, a dim ond mewn cysylltiad ag achosion honedig o dorri rheoliadau busnes. Ni ddylid ei ddefnyddio mewn ffordd fanteisgar i gasglu tystiolaeth yn erbyn cofrestreion unigol."* AOP

*"Gallai cael y gallu i archwilio practisau optegol wella enw da rôl y GOC fel rheoleiddiwr, darparu hyder ychwanegol i gleifion a'r cyhoedd, a galluogi'r GOC i ymchwilio'n llawn i bryderon pan fyddant yn codi – os bydd yr ymchwiliadau'n cael eu cynnal yn effeithiol, gan 'archwilwyr' sydd wedi'u cymhwyso'n briodol a chreu newid cadarnhaol..."* Coleg yr Optometryddion

*"Mae practisau eisoes yn cael eu harchwilio gan y GIG ac felly rydym yn credu y byddai hyn yn ddyblygiad o amser, cost ac ymdrechion i bractisau a'r GOC. Nid ydym yn deall ym mha sefyllfaoedd y gallai fod angen i GOC gynnal ymweliad fel rhan o addasrwydd i ymarfer a byddem yn ceisio eglurder pellach ar hyn cyn ymateb ymhellach."* Optometreg yr Alban

*"Nid ydym yn deall pam fod y GOC yn ceisio cyflwyno'r pŵer hwn a pha dystiolaeth sy'n sail i hyn. Byddem yn gwerthfawrogi trafodaeth bellach er mwyn deall yn well pam fod hyn yn cael ei gynnig."* Optometreg Cymru

*Ymateb y GOC – pŵer i ymweld*

159. Rydym wedi ystyried adborth rhanddeiliaid yn ofalus iawn mewn cysylltiad â chael pŵer i ymweld â busnes fel rhan o'r broses addasrwydd i gynnal busnes. Er ein bod yn gallu gweld buddiannau cael pŵer o'r fath, rydym yn ymwybodol bod pryderon wedi'u codi ynghylch diffyg tystiolaeth, y dyblygu posibl gyda chyrff rheoleiddio eraill, a'r goblygiadau cost ac adnoddau. Rydym wedi ystyried y pryderon hyn ac wedi penderfynu peidio â chyflwyno'r pŵer hwn, gan ein bod yn ystyried bod ein prosesau presennol (er enghraifft, gallwn orfodi busnes i ddarparu gwybodaeth ysgrifenedig a gallem ymweld â busnes gyda'u caniatâd hwy) yn ddigonol i fynd i'r afael ag addasrwydd i gynnal busnes. Fodd bynnag, efallai y byddwn yn ailymweld â'r mater hwn yn y blynyddoedd i ddod os daw'n amlwg na allwn fynd i'r afael ag unrhyw risgiau rheoleiddio a nodwyd yn ein pwerau presennol.

## Adran 4: Gwneud iawn i ddefnyddwyr

### Cyfranogiad gorfodol

*Ymchwil cleifion a'r cyhoedd*

160. Yn y grwpiau ffocws a'r cyfweliadau, roedd cefnogaeth eang i'r cynnig y dylai fod yn ofynnol i fusnesau optegol gymryd rhan yng nghynllun gwneud iawn i ddefnyddwyr y sector fel bod gan bob defnyddiwr fynediad iddo. Teimlai cyfranogwyr y byddai eu hymddiriedaeth a'u hyder yn cynyddu gan wybod bod gwasanaeth cwynion o'r fath ar gael, hyd yn oed os nad oedd yn debygol y byddai angen iddynt ei ddefnyddio.

161. Yn yr arolwg omnibws, cytunodd 69 o'r ymatebwyr, os bydd rhywbeth yn mynd o'i le gyda gwasanaeth maent yn ei dderbyn gan fusnes optegol, dylai bod ganddynt fynediad at sefydliad annibynnol i helpu i ddatrys eu cwyn.

*Ymatebion i'r ymgynghoriad*

162. Fe wnaethom holi rhanddeiliaid i ba raddau yr oeddynt yn cytuno neu'n anghytuno y dylai fod yn orfodol i gofrestreion busnes gyfranogi yn y cynllun gwneud iawn i ddefnyddwyr. O'r 94 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn, roedd 56 y cant yn cytuno neu'n cytuno'n gryf, nid oedd 23 y cant yn cytuno nac yn anghytuno, ac roedd 21 y cant yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.

163. Nodwyd y themâu cadarnhaol neu niwtral canlynol o'r sylwadau:

- yr angen am annibyniaeth a thegwch yn y broses datrys cwynion, gyda rhai ymatebwyr yn awgrymu y dylai'r Gwasanaeth Cwynion Defnyddwyr Optegol (OCCS) barhau i fod yn annibynnol oddi wrth y GOC;
- mae cysondeb ac eglurder ar gyfer y cyhoedd yn ffactorau pwysig;
- roedd rhywfaint o gefnogaeth ar gyfer y syniad y gallai cynllun gwneud iawn wedi'i fandadu wella ymddiriedaeth mewn gwasanaethau optegol ac ysgogi safonau gofal uwch;
- cydnabod y potensial ar gyfer cynllun gorfodol i leddfu pwysau rheoleiddiol drwy ddatrys cwynion bach.

164. Nodwyd y themâu negyddol canlynol o'r sylwadau.

- er bod yr OCCS yn gweithredu'n dda, gallai gwneud cyfranogiad yn orfodol arwain at gymhlethdodau, yn arbennig i fusnesau sydd eisoes yn ymgysylltu â gwasanaethau eraill fel adborth y GIG, neu safonau masnach;
- diffyg cyfiawnhad a thystiolaeth glir ar gyfer y cynigion;

- dylai bod gan fusnesau y rhyddid i ddewis eu cynlluniau gwneud iawn i ddefnyddwyr;
- er bod angen gwasanaeth annibynnol i wneud iawn i ddefnyddwyr, mae teimlad hefyd bod llawer o gofrestrwyr yn gallu rheoli eu materion eu hunain heb gynlluniau gorfodol;
- pryderon ynglŷn â'r posibilrwydd o gael cynlluniau gorfodol a fyddai'n ffafrio defnyddwyr yn ormodol ar draul busnesau;
- pryder y gallai cyfranogiad gorfodol arwain at fwy o feichiau ariannol (yn arbennig i fusnesau llai) a chreu haen ddiangen o fiwrocratiaeth.

165. Yn gyffredinol, er bod cydnabyddiaeth o fuddiannau cynlluniau gwneud iawn i ddefnyddwyr fel yr OCCS, roedd pryder ynglŷn â gwneud cynlluniau o'r fath yn rhai gorfodol, gyda phryderon yn canolbwyntio ar annibyniaeth, effaith ariannol a gor-reoleiddio posibl.

166. Nid oedd y cyrff optegol proffesiynol/cynrychiadol yn cytuno a ddylai fod yn orfodol i gofrestreion busnes gymryd rhan yn y cynllun gwneud iawn i ddefnyddwyr. Nid oedd Coleg yr Optometryddion, yr AOP ac Optometreg yr Alban yn credu ei bod yn angenrheidiol nac yn briodol, gyda phryderon ynghylch diffyg tystiolaeth, costau posibl a chymhlethdodau i gleifion/defnyddwyr. Fodd bynnag, roedd ABDO, FODO ac Optometreg Cymru o blaid, gan nodi ffactorau fel meithrin ymddiriedaeth y cyhoedd, codi safonau, arbed amser i fusnesau, gwella eglurder a chysondeb y dull. Roedd dau grŵp busnes mawr a SeeAbility (sy'n cynrychioli cleifion) hefyd o blaid cyfranogiad gorfodol.

167. Mae sampl o sylwadau ar gael yn y blwch isod.

Sylwadau o blaid

*"Mae angen i hyn fod yn ofyniad statudol i fod yn deg i bawb, ac ar hyn o bryd, nid yw'r OCCS yn cynnwys y rhai nad ydynt yn gofrestreion busnes y GOC."* Optometrydd

*"Dyluniwyd y system arfaethedig hon i gyflwyno tegwch ar draws cofrestreion busnes, ac mae'r OCCS presennol yn gweithio'n dda pan fydd busnesau'n cyfranogi yn y gwasanaethau. Dylai unrhyw gynnig ar gyfer gwneud iawn i ddefnyddwyr adeiladu ar lwyddiant y model OCCS."* Cofrestrydd busnes y GOC

*"Unwaith eto, ar gyfer cysondeb, er mwyn i gleifion/y cyhoedd fod yn glir bod y broses hon yn bodoli a'i bod yn orfodol."* SeeAbility (Elusen/sefydliad cynrychioli cleifion)

*"Byddai cynllun gorfodol gwneud iawn i ddefnyddwyr yn sicrhau bod gan gleifion lwybr hygyrch a chlir i geisio datrysiad i gwynion. Byddai gwybodaeth gyhoeddus*

*am gynlluniau o'r fath yn creu hyd yn oed mwy o ymddiriedaeth mewn gwasanaethau optegol ac yn ysgogi safonau gofal uwch mewn busnesau optegol, a fyddai'n ymwybodol eu bod yn atebol am eu gwasanaethau. Byddai cynllun gwneud iawn wedi'i fandadu yn sicrhau cysondeb ar draws practisau a dylai gynorthwyo cofrestreion drwy ddarparu eglurder ac arweiniad ar sut i ddelio â phryderon cleifion ochr yn ochr â helpu i hyrwyddo arfer gorau ar draws gofal iechyd."* ABDO

*"…gallai mandadu busnes i fod yn rhan o gynllun gwneud iawn i ddefnyddwyr helpu i osgoi amser rheoleiddiol yn cael ei dreulio gyda chwynion am fath o gynnyrch defnyddwyr. Mae'n well datrys y rhain cyn gynted â phosibl ar lefel leol neu, os na ellir gwneud hyn, trwy gyfeirio (ar hyn o bryd) at OCCS sicrwydd ansawdd y GOC… os yw'n bosibl i'r GOC fynnu defnyddio system sicrwydd ansawdd fel yr OCCS a bod y GOC yn hyderus y gall ei drefniadau llywodraethu reoli unrhyw wrthdaro buddiannau yn y dyfodol yn amlwg, byddem yn cefnogi'r cynnig hwn.."* FODO – Y Gymdeithas Darparwyr Gofal Llygaid

Sylwadau yn erbyn

*"Rwy'n credu bod y OCCS yn cyflawni'n well fel corff annibynnol. Gellid gwneud mwy i hyrwyddo eu presenoldeb i ddefnyddwyr ond mae gorfodi busnesau i ymrwymo i gynllun gwneud iawn yn cyflwyno'r risg o aelodau o'r cyhoedd sy'n gweithredu'n fanteisgar."* Optometrydd cyflenwi therapiwtig

*"Nid ydym yn ystyried bod unrhyw dystiolaeth bod hyn yn angenrheidiol. Yn ein profiad ni, mae'r systemau presennol sydd ar waith yn gweithio'n dda ac mae busnesau'n ymgysylltu'n dda â nhw."* Clyde & Co LLP

*"Er ein bod yn cytuno y byddai buddiannau i fusnesau sy'n cyfranogi'n wirfoddol yn y cynllun gwneud iawn i ddefnyddwyr, nid ydym yn ymwybodol o dystiolaeth o risgiau diogelu'r cyhoedd a fyddai'n cyfiawnhau ei gwneud yn orfodol i gyfranogi. Dylid cyfiawnhau pob baich rheoleiddiol ychwanegol mewn cysylltiad ag amcan drosfwaol y GOC i ddiogelu'r cyhoedd a bod yn gymesur â'r risgiau dan sylw. At hynny, mae gwneud cyfranogiad yn orfodol yn creu'r risg y gallai'r broses fod yn fwy gwrthwynebus ac, fel mae'r GOC wedi datgan, 'gellid dadlau ei fod yn mynd yn groes i hanfod cyfryngu fel proses y mae partïon yn ymgysylltu'n wirfoddol ac yn adeiladol â hi i ddatrys anghydfod."* PSA

*"Nid yw'r AOP yn cefnogi gweithrediad cynllun gorfodol oherwydd diffyg cyfiawnhad a manylion clir … heb gyfiawnhad clir, sail statudol, neu ddadansoddiad manwl, mae'r cynnig yn ddi-sail, yn gostus o bosibl, ac yn anymarferol. Mae'r AOP yn dadlau dros ddull cymesur sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n ystyried yn llawn yr effaith ariannol ar fusnesau…"* AOP

*"Nid ydym yn credu bod angen hyn. Mae'r diwydiant yn cael ei reoleiddio'n ddigonol eisoes a gall busnesau ddatrys materion eu hunain. Mae gennym bryderon y byddai hyn yn dod yn haen ychwanegol o fiwrocratiaeth ddiangen a*

*byddai hefyd yn dod yn wasanaeth drud iawn y byddai'r cofrestreion yn talu amdano yn y pen draw."* Pwyllgor Optegol Lleol Bexley Bromley a Greenwich

*"Mae'r Gwasanaeth Cwynion Defnyddwyr Optegol (OCCS) presennol yn gweithio'n dda fel cyfryngwr anorfodol, ac ni welwn unrhyw reswm dros newid y system a gwneud hyn yn orfodol. Mae proses bresennol y GOC ar gyfer brysbennu cwynion yn gweithio'n dda a dylai barhau."* Coleg yr Optometryddion

*"Rydym yn cydnabod bod yr OCCS yn gweithio'n dda yn ei gapasiti presennol a byddem yn annog aelod i ddefnyddio'r gwasanaeth hwn, fodd bynnag, pe byddai'n orfodol byddem yn pryderu y gallai hyn achosi cymhlethdodau i gleifion/cwsmeriaid sy'n cysylltu â gwasanaethau eraill i ddechrau, er enghraifft gwasanaethau adborth y GIG yn yr Alban neu'r safonau masnach. Byddem yn awgrymu ei wneud yn argymhelliad i bractisau ddefnyddio'r gwasanaeth a darparu mwy o ymwybyddiaeth i fusnesau optegol ynghylch sut mae'r gwasanaeth yn gweithredu."* Optometreg yr Alban

*Ymateb y GOC – cyfranogiad gorfodol*

168. Rydym yn cydnabod y gwahaniaeth barn ar y mater hwn, gan gynnwys rhwng y cyrff optegol proffesiynol/cynrychiadol. Yn ogystal â chymorth gan rai o'r cyrff hyn a'r ddau fusnes mawr a ymatebodd, roedd cefnogaeth gref i gyfranogiad gorfodol yn yr ymchwil cleifion/cyhoeddus.

169. Roedd yr ymatebion, o blaid ac yn erbyn cyfranogiad gorfodol yn yr OCCS yn adlewyrchu yn bennaf y dadleuon a drafodwyd yn y ddogfen ymgynghori gyda ffactorau sy'n gysylltiedig ag ymddiriedaeth y cyhoedd, codi safonau a chysondeb, wedi'u cydbwyso gan bryderon ynghylch newid trefniadau sy'n gweithio'n dda ac effeithiau negyddol posibl ar gyfer busnesau cofrestredig.

170. Rydym yn awyddus i adeiladu ar gynllun sydd wedi bod yn gweithredu'n llwyddiannus am ddegawd a mwy[6] ac nid ydym wedi ein darbwyllo y byddai ei gwneud yn orfodol i gyfranogi yn y cynllun yn newid ei natur sylfaenol. I gofrestreion busnes presennol sy'n cyfranogi'n wirfoddol yn y cynllun, ni fyddai unrhyw beth yn newid. Fodd bynnag, rydym yn pryderu y bydd busnesau a fydd yn cael eu cwmpasu gan y rheoliad nad ydynt yn barod i gyfranogi'n wirfoddol. Byddai hyn yn ehangu'r anghydbwysedd pŵer rhwng defnyddwyr a busnesau, gallai danseilio ymddiriedaeth y cyhoedd yn y fframwaith rheoleiddiol a chreu cystadleuaeth anghyfartal rhwng busnesau.

[6] Mae adroddiad blynyddol 2023-24 OCCS yn cofnodi bod y gwasanaeth wedi ymdrin â 1,675 o gwynion yn ei gylch gwaith a chafodd 85% o'r rhain eu datrys neu eu cwblhau o fewn eu proses. Cwblhawyd 51% o'r holl achosion o fewn 0-45 diwrnod, a chwblhawyd 76% o fewn 90 diwrnod, gydag amser datrys cyfartalog o 19 diwrnod. O'r 349 o gwynion a aeth ymlaen i gam cyfryngu, daeth 275 (79%) i ben o fewn y cam cyfryngu. Yr amser cyfartalog i gyfryngu cwyn oedd 58 diwrnod.

171. Yn y pen draw, fel rheoleiddiwr sy'n canolbwyntio ar gleifion, rydym yn ystyried bod cyfranogiad gorfodol yn yr OCCS yn angenrheidiol er mwyn sicrhau diogelwch y cyhoedd ac y byddai'n ddatrysiad cymesur, a byddwn yn argymell y model hwn i'r llywodraeth.

### Penderfyniadau sy'n gyfreithiol rwymol

*Ymchwil cleifion a'r cyhoedd*

172. Gofynnwyd i gyfranogwyr yn y grwpiau ffocws a'r cyfweliadau a ddylid gorfodi busnesau i gydymffurfio â'r canlyniad a argymhellwyd gan y cynllun. Dywedwyd wrthynt, pe byddai busnesau yn cael eu gorfodi i gydymffurfio â'r canlyniad, y gallai'r cynllun fynd yn fwy araf, yn fwy ffurfiol a chostio mwy, ond ar y llaw arall, gallai olygu y bydd defnyddwyr wedi'u diogelu'n well ac y bydd anghydfodau'n cael eu cadw allan o'r llysoedd. Roedd y rhan fwyaf o gyfranogwyr y grŵp ffocws yn ffafrio gweithdrefn gwyno ychydig yn arafach ond sy'n fwy ffurfiol.

173. Yn yr arolwg omnibws, roedd 61 y cant o'r ymatebwyr yn ffafrio mynediad at gynllun cwynion a allai wneud penderfyniadau rhwymol, hyd yn oed pe byddai hyn yn golygu proses arafach a mwy ffurfiol.

*Ymatebion i'r ymgynghoriad*

174. Fe wnaethom holi rhanddeiliaid i ba raddau yr oeddynt yn cytuno neu'n anghytuno y dylai fod gan y cynllun gwneud iawn i ddefnyddwyr y pwerau i wneud penderfyniadau sy'n gyfreithiol rwymol ar fusnesau. O'r 76 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn, roedd 34 yn cytuno neu'n anghytuno, nid oedd 24 y cant yn cytuno nac yn anghytuno, ac roedd 42 y cant yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.

175. Roedd bron pob un o'r rhai a ddarparodd sylwadau testun rhydd yn rhai a oedd yn anghytuno â'r cynnig. Nodwyd y themâu canlynol o'r sylwadau:

- pryderon ynghylch yr angenrheidrwydd a'r canlyniadau posibl o wneud penderfyniadau o'r cynllun gwneud iawn i ddefnyddwyr yn gyfreithiol rwymol;
- y gred bod y system bresennol, sy'n seiliedig yn bennaf ar gyfryngu ac sy'n cael ei rheoli gan yr OCCS, yn effeithiol ac effeithlon;
- pryder y gallai penderfyniadau sy'n gyfreithiol rwymol arwain at ffurfioli cwynion syml yn ddiangen, cynyddu costau a gorgyffwrdd posibl gyda gweithdrefnau addasrwydd i ymarfer;

- pryder ynglŷn â’r effaith ar bractisau bach ac annibynnol, oherwydd gallai treuliau gweithredol uwch gael eu trosglwyddo i fusnesau;
- y posibilrwydd o fwy o fiwrocratiaeth heb fuddiannau clir;
- diffyg eglurder ynghylch sut y byddai penderfyniadau sy’n gyfreithiol rwymol yn rhyngweithio gyda swyddogaethau rheoleiddiol presennol ac a fyddent yn ysgogi ymchwiliadau pellach neu gamau disgyblu;
- mae’r diwydiant yn un risg isel ac nid oes angen y lefel hon o reoleiddio;
- ni ddylai penderfyniadau fod yn rhwymol, gyda'r llysoedd yn meddu ar awdurdodaeth derfynol, a dim ond i'r GOC y dylai busnesau fod yn atebol am ymchwiliad.

176. Yn gyffredinol, mae gwrthwynebiad arwyddocaol i wneud penderfyniadau cynllun gwneud iawn i ddefnyddwyr yn gyfreithiol rwymol, gyda phryderon ynglŷn ag angen, costau uwch posibl, cymhlethdodau gweithdrefnol a’r effaith ar y systemau effeithiol presennol. Mae galwad am fwy o eglurder a thystiolaeth i gefnogi unrhyw newidiadau.

177. Roedd yr holl gyrff optegol proffesiynol/cynrychiadol yn cytuno na ddylai’r cynllun gwneud iawn i ddefnyddwyr wneud penderfyniadau sy’n gyfreithiol rwymol. Roedd y PSA o’r farn nad oedd tystiolaeth ddigonol i gefnogi newid o’r fath. Fodd bynnag, roedd yr elusen cynrychioli cleifion, SeeAbility, yn cefnogi’r opsiwn hwn.

178. Mae sampl o sylwadau ar gael yn y blwch isod.

| |
|---|
| Sylwadau o blaid<br>*“Erbyn y cam hwn byddai’n ymddangos yn deg i gleifion/y cyhoedd y dylai penderfyniad o'u plaid fod yn rhwymol, fel arall mae'n bosibl ei bod yn broses fiwrocrataidd a allai arwain at siom.”* SeeAbility (Elusen/sefydliad cynrychioli cleifion)<br>Sylwadau yn erbyn<br>*“Mae'n teimlo fel arfogi busnesau, os ydym wedi cydymffurfio â'r holl ddyletswyddau yna dylai OCCS weld hyn ac os na, yna dylem fod yn atebol i'r GOC yn unig am ymchwiliad.”* Optometrydd<br>*“Rydym yn ddiwydiant risg isel felly ni ddylai fod angen y lefel hon o reoleiddio arnom ar y cam hwn. Dylai fod yn orfodol i fusnesau gymryd rhan mewn cynllun gwneud iawn i ddefnyddwyr, ond nid os yw’n gyfreithiol rwymol.”* Cofrestrydd busnes y GOC<br>*“Byddai hyn yn gwneud yr OCCS yn fwy gwrthwynebol fel y soniwyd - mae busnesau'n dilyn Hawliau Defnyddwyr felly nid oes angen i'r OCCS ddarparu* |

*penderfyniadau cyfreithiol rwymol."* Busnes optegol (nid cofrestrydd busnes y GOC)

*"Nid ydym wedi gweld tystiolaeth o risg i ddiogelwch y cyhoedd, a fyddai'n cyfiawnhau newid natur y cynllun gwneud iawn i ddefnyddwyr er mwyn gwneud penderfyniadau yn rhai cyfreithiol rwymol."* PSA

*"Mae'r broses bresennol gydag OCCS yn gweithio'n dda heb bwerau i wneud penderfyniadau sy'n gyfreithiol rwymol ac ni fyddem yn dymuno gweld y broses o wneud iawn i ddefnyddwyr yn dod yn fwy hirfaith, cyfreithiol a chostus."* ABDO

*"Er bod yr AOP yn ymwybodol bod gwneud iawn i ddefnyddwyr yn bodoli mewn nifer o feysydd eraill, ni all gefnogi cynnig i wneud penderfyniadau unrhyw Gynllun Gwneud Iawn i Ddefnyddwyr ar gyfer optometreg yn gyfreithiol rwymol nes bod eglurder ar nifer o faterion arwyddocaol. Er mwyn sicrhau nad yw cwynion syml yn cael eu ffurfioli'n ddiangen, costau cynyddol, a gorgyffwrdd posibl â gweithdrefnau Addasrwydd i Ymarfer, mae angen eglurder arnom ar statws, hunaniaeth a phrosesau unrhyw gynllun o'r fath.…*

*… er bod yr AOP yn cefnogi'r nod cyffredinol o gynyddu diogelwch y cyhoedd, rydym o'r farn nad yw'r diffyg tystiolaeth ategol a manylion am y cynllun gwneud iawn arfaethedig yn yr ymgynghoriad hwn yn ddefnyddiol, o ystyried y risgiau cysylltiedig. Felly, rhaid i ni wrthwynebu'r cynnig yn chwyrn."* AOP

*"Mae'r cynllun presennol yn gweithio'n dda, ac nid ydym yn gweld unrhyw reswm i newid y system. Byddai penderfyniadau sy'n rhwymo'n gyfreithiol - yn absenoldeb unrhyw dystiolaeth i'r gwrthwyneb - yn gam diangen.."* Coleg yr Optometryddion

*"Nid oes unrhyw dystiolaeth bod hyn yn angenrheidiol. Mae tystiolaeth y GOC yn glir bod y system bresennol yn gweithio'n dda, mae'n gyflym ac effeithlon ac mae ychwanegu mwy o ddyletswyddau a biwrocratiaeth yn debygol o gynyddu costau i bawb heb greu buddiannau i'r mwyafrif."* FODO – Y Gymdeithas Darparwyr Gofal Llygaid

*"Mae tystiolaeth bod y system bresennol yn gweithio'n dda iawn. Nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod angen unrhyw brosesau pellach."* Optometreg Cymru

*Ymateb y GOC – penderfyniadau sy'n gyfreithiol rwymol*

179. Er bod cefnogaeth yn yr ymchwil cleifion a'r cyhoedd i'r OCCS wneud penderfyniadau sy'n gyfreithiol rwymol, roedd hyn yn fwy cytbwys na ph'un a ddylai cyfranogiad busnesau yn y cynllun fod yn orfodol. Rydym yn cydnabod y pryderon o'r adborth i'r ymgynghoriad ynghylch diffyg tystiolaeth, natur risg isel y diwydiant, a'r effeithiau negyddol posibl ar ddefnyddwyr a busnesau (yn enwedig o ran amseroldeb). Felly, rydym wedi penderfynu argymell i'r llywodraeth y dylai'r OCCS barhau i fod yn gynllun cyfryngu, yn hytrach na symud i fodel dyfarnu gyda phenderfyniadau sy'n rhwymo'n gyfreithiol.

180. Mae perygl gyda'r model hwn na fydd rhai defnyddwyr yn cyflawni canlyniad teg o'u cwyn o bosibl, a phe byddai hyn yn dod yn broblem gyffredin, gallai danseilio ymddiriedaeth y cyhoedd yn y system reoleiddiol. Fodd bynnag, mae angen cydbwyso hyn yn erbyn y buddiannau i'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr, a fyddai'n parhau i dderbyn iawn cyflym, anffurfiol a theg gan adeiladu ar gryfderau'r cynllun presennol. Mae gennym ystod o offer ar gael i gymell busnesau i ymgysylltu'n adeiladol gyda darpariaeth cyfryngu, gan gynnwys ein [Safonau ar gyfer Busnesau Optegol <https://optical.org/en/standards-and-guidance/standards-for-optical-businesses/>](https://optical.org/en/standards-and-guidance/standards-for-optical-businesses/). Er na allwn ddefnyddio'r safonau hyn i fynnu bod busnesau yn cydymffurfio â chanlyniad a argymhellir o gyfryngu, gallai patrwm ymddygiad ar draws sawl achos helpu i gwblhau darlun cyffredinol am unrhyw fusnes y mae gennym achos i ymchwilio iddo.

181. Rydym hefyd yn cydnabod y byddai symud i fodel dyfarnu yn newid natur cynllun sy'n gweithio'n dda. Mae'r cysylltiad gyda'n prosesau addasrwydd i ymarfer yn ystyriaeth bwysig yma a gallai'r dynamig hwn newid pe gallai'r OCCS a'r GOC wneud penderfyniadau ar achosion. Fe wnaethom nodi bod cyfryngu gorfodol yn dod yn fwy cyffredin fel rhan o dechnegau datrys anffurfiol cyn achosion llys (e.e. mae cynlluniau ar gyfer cyfryngu gorfodol mewn hawliadau sifil bach gyda gwerth o hyd at £10,000[7]).

### Cyflawni'r cynllun gwneud iawn i ddefnyddwyr

182. Gofynnwyd i randdeiliaid i ba raddau yr oeddynt yn cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i barhau gyda'n model presennol o gyflawni'r cynllun gwneud iawn i ddefnyddwyr h.y. darparwr unigol drwy gystadleuaeth ar gyfer model y farchnad. O'r 74 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn, roedd 59 y cant yn cytuno neu'n cytuno'n gryf, nid oedd 26 y cant yn cytuno nac yn anghytuno, ac roedd 15 y cant yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.

183. Nodwyd y themâu canlynol o'r sylwadau:

- mae gwasanaeth presennol cwynion defnyddwyr yn gweithio'n dda ac ni ddylid ei addasu'n sylweddol;
- y buddion o gael darparwr unigol ar gyfer gwneud penderfyniadau cyson a symlrwydd, i fusnesau ac i gleifion.

184. Yn gyffredinol, y consensws ymhlith yr ymatebwyr oedd cynnal model presennol OCCS, gyda rhai'n awgrymu gwelliannau cyfathrebu, goruchwylio a rheoleiddio er mwyn gwella ei effeithiolrwydd.

185. Roedd y mwyafrif helaeth o gyrff optegol proffesiynol cynrychiadol o blaid cadw'r system bresennol. Rhybuddiodd yr AOP yn erbyn newidiadau a allai

[7] Cynyddu'r defnydd o gyfryngu yn y system cyfiawnder sifil: Ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad - GOV.UK

arwain at ddarnio, anghysondeb a dryswch, a phwysleisiwyd y risgiau o hunanfodlonrwydd, eirioli dros newidiadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth os gwneir unrhyw rai. Fodd bynnag, fe wnaethant dynnu sylw hefyd at wrthdaro buddiannau cynllun sy'n cael ei ariannu a'i gontractio gan y GOC.

186. Mae sampl o sylwadau ar gael yn y blwch isod.

> *"Mae un darparwr yn helpu gyda chysondeb a mynediad rhwydd i'r cyhoedd."* Optometrydd
>
> *"Mae'r model OCCS presennol yn gweithio'n dda ac mae'n effeithlon a dylai unrhyw system newydd fod yn seiliedig ar y llwyddiant hwn."* Cofrestrydd busnes y GOC
>
> *"Rydym yn cytuno gyda'r GOC bod yr OCCS yn gweithio'n dda ar gyfer gwneud iawn i ddefnyddwyr ac ni ddylid newid y trefniadau presennol."* Darparwr addysg
>
> *"Mae'n ymddangos ar hyn o bryd bod trefniadau'r OCCS yn gweithio'n dda. Fodd bynnag, gallai'r cyfathrebu ynghylch sut mae'r cynllun cofrestru busnesau a chodi materion ynghylch bodloni safonau'r GOC yn hytrach na gwneud iawn i ddefnyddwyr fod yn gliriach i gleifion/y cyhoedd. Mae'n well cael un darparwr er mwyn symlrwydd a bod yn glir ynghylch rolau'r GOC a rolau'r OCCS."* SeeAbility (Elusen/sefydliad cynrychioli cleifion)
>
> *"Mae'r broses bresennol yn gweithio'n dda ac mae'r sector yn ei deall ac yn ei chefnogi ac mae adborth gan gleifion yn gefnogol o'r cynllun."* ABDO
>
> *"Mae'r AOP o'r farn bod y model OCCS yn effeithiol ar y cyfan, a rhaid ymdrin ag unrhyw newidiadau yn ofalus er mwyn osgoi canlyniadau anfwriadol. Mae'n bwysig cydnabod risgiau posibl a allai godi wrth gynnal neu newid ei ddarpariaeth… Rhaid i unrhyw newidiadau arfaethedig fod yn seiliedig ar dystiolaeth glir, darparu gwelliannau y gellir eu dangos, ac osgoi creu cymhlethdod neu wrthdaro diangen. Heb gyfiawnhad o'r fath, cynnal y model OCCS presennol – gyda monitro parhaus i sicrhau ansawdd – yw'r dull mwyaf pragmatig a chymesur."* AOP
>
> *"Mae'n ymddangos bod y model cyflenwi a'r broses bresennol ar gyfer nodi darparwr unigol yn deg ac effeithiol. Ni allwn weld unrhyw reswm pam bod angen newid y system."* Coleg yr Optometryddion
>
> *"Rydym yn cytuno â dadansoddiad y GOC. Mae'r cynllun presennol yn gymesur, yn boblogaidd gyda chleifion ac mae'n gweithio'n effeithiol iawn."* FODO – Y Gymdeithas Darparwyr Gofal Llygaid
>
> *"Mae'n ymddangos yn deg ac yn gweithredu'n effeithiol."* Optometreg yr Alban

*Ymateb y GOC – cyflawni iawn i ddefnyddwyr*

187. O ystyried y gefnogaeth gref o blaid ein model presennol a'r diffyg dadleuon i newid y system, rydym yn bwriadu cadw'r model presennol o gyflwyno ein

cynllun gwneud iawn i ddefnyddwyr gydag un darparwr trwy gystadleuaeth am y model marchnad. Byddwn yn parhau i dendro'n rheolaidd am y cynllun i sicrhau ein bod yn cael y gwerth am arian gorau a chynllun o ansawdd uchel, gyda chanlyniadau teg a chyson i ddefnyddwyr.

**Ariannu’r cynllun gwneud iawn i ddefnyddwyr**

188. Fe wnaethom holi rhanddeiliaid sut y dylid ariannu unrhyw gynllun gwneud iawn i ddefnyddwyr. O’r 75 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn, roedd 44 o’r farn y dylai pob busnes gyfrannu drwy’r ffi gofrestru (fel sy’n digwydd yn awr), roedd naw y cant yn credu y dylid cael model talu fesul defnydd, lle bydd y busnes yn talu am unrhyw gŵyn a wneir yn eu herbyn sy’n cael ei hystyried gan y cynllun, roedd 19 y cant yn credu y dylid cael cyfuniad o’r ddau fodel blaenorol, dewisodd tri y cant ‘arall’, ac nid oedd 25 y cant yn siŵr.

189. Nodwyd y themâu canlynol o’r sylwadau:

- Cefnogaeth i fodel ariannu a rennir (yn unol â'r broses bresennol sy'n effeithlon ac effeithiol), lle gall pob busnes gyfrannu at y costau, oherwydd bod hyn yn fwy teg ac yn debygol o arwain at gostau cyffredinol is y gallant gynllunio ar eu cyfer;
- pryderon ynglŷn â thegwch ac ymarferoldeb modelau ariannu ar gyfer rheoleiddio busnes, yn arbennig mewn cysylltiad ag ymdrin â chwynion – byddai effaith negyddol bosibl ar fusnesau, yn arbennig rhai bach, pe byddai’n rhaid iddynt dalu fesul cwyn;
- gallai model talu wrth ddefnyddio atal busnesau rhag ceisio gwasanaethau cyfryngu, a gallai fod yn annheg pe byddai’r cwynion yn ddi-sail neu'n flinderus;
- soniwyd am y syniad y dylai troseddwyr mynych dalu cost uwch fel cymhelliant i fusnesau wella eu harferion. Fodd bynnag, roedd galw hefyd i'r system fod yn deg a chyfartal ar draws busnesau o bob maint, heb ostyngiadau ar gyfer cyfrannau mwy o'r farchnad;
- ni ddylid cosbi busnesau pan fydd cwynion yn deillio o fethiannau cyfathrebu yn hytrach na diffygion gwirioneddol.

190. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion yn pwysleisio dyhead am system deg, syml a chyfartal nad yw’n rhoi baich anghymesur ar fusnesau, yn arbennig mewn achosion o gwynion anghyfiawn. Ar y cyfan, roedd y cyrff optegol proffesiynol/cynrychiadol yn cefnogi parhau gyda’r model ariannu presennol o fodel ffi a rennir.

191. Mae sampl o sylwadau ar gael yn y blwch isod.

*"Gallai model talu wrth ddefnyddio wneud cwynion blinderus yn fwy costus i fusnes nad yw wedi gwneud dim byd o'i le."* Optometrydd

"[Cyfuniad o'r ddau fodel uchod] *Dylai troseddwyr mynych ysgwyddo mwy o'r gost – mae'n rhoi cymhelliant i wella."* Optegydd lensys cyffwrdd

"[Pob busnes sy'n cyfrannu drwy'r ffi gofrestru] *Cyhyd ag y bydd y darparwyr mwy yn talu fesul practis yr un swm â sefydliadau llai ac nad ydynt yn gallu talu ffi ostyngol oherwydd bod ganddynt gyfradd fwy o'r farchnad. Rhaid i'r system fod yn deg a chyfartal ar draws busnesu o bob maint."* Optometrydd cyflenwi therapiwtig

"[Byddai model talu fesul defnydd] *yn gwneud i fusnesau fod yn fwy gofalus rhag achosi cwyn gan gleifion. Cyn belled ag y caiff y gŵyn ei gwrthod yn gynnar (er enghraifft os yw'r gŵyn yn amlwg yn ddibwys neu'n afresymol) nid oes rhaid i'r practis dalu."* Optegwyr Pearce & Blackmore (cofrestrydd busnes y GOC)

*"Er y gallai fod yn ddeniadol ar yr wyneb i geisio rhoi cymhelliant i fusnesau osgoi cwynion drwy fynnu taliad fesul cwyn, byddai hyn yn annheg mewn achos lle nad oes sail i gŵyn. At hynny, byddai gweinyddu system o'r fath yn ychwanegu mwy o waith gweinyddol a chost i'r broses, ac mae'n debygol y byddai'n anymarferol. Felly, byddem yn cefnogi parhau gyda'r dull ariannu presennol."* ABDO

*"Credwn mai'r model ariannu a rennir yw'r model mwyaf teg ac mae'n debygol o greu'r gost gyffredinol isaf i bob practis."* AOP

*"Rydym yn cytuno gyda pharagraff 198 yn y ddogfen ymgynghori h.y. parhau gyda'r trefniadau ariannu presennol."* Coleg yr Optometryddion

*"Yn yr un modd ag y byddai'n anymarferol i gofrestreion unigol ariannu mwy o gostau'r GOC os byddant yn derbyn cwyn/pryder, byddai'n anymarferol ac yn ychwanegu biwrocratiaeth i fusnesau i gael model talu fesul defnydd. Gallai hefyd arwain at lai o gymorth gan ddarparwyr i gwsmeriaid sy'n defnyddio gwasanaethau o'r fath (yn arbennig i fusnes sy'n cael anhawster i gyflawni disgwyliadau).*

*Model lle mae'r holl gofrestreion yn talu ffi'r GOC ac mae'r GOC yn caffael gwasanaeth effeithlon, mae'n gost effeithlon ac effeithiol i'w redeg ac mae'n sicrhau bod sefyllfa deg i gleifion/defnyddwyr a chofrestreion â darparwyr gwael sy'n gadael y farchnad yn gynharach na phe baent yn talu'r model talu fesul defnydd."* FODO – Y Gymdeithas Darparwyr Gofal Llygaid

*"Mae'n gost effeithiol i bob busnes gyfrannu. Byddai'n annog busnesau i ddefnyddio'r gwasanaeth yn well. Gallai effeithio mwy ar fusnesau bach pan nad oes ganddynt gefnogaeth gan gyfoedion neu adrannau ychwanegol sy'n gallu arbenigo mewn gwasanaeth cwsmeriaid. Mewn llawer o achosion mae'n fater o fethiant cyfathrebu ac mae'n bosibl nad "bai" y practis yw hyn ac felly, pam y dylent gael eu cosbi yn yr achos hwn. Nid oes unrhyw gost i'r claf yn y sefyllfaoedd hyn felly rydym yn credu y dylai fod yr un fath i bractisau."* Optometreg yr Alban

*Ymateb y GOC – ariannu cynllun gwneud iawn i ddefnyddwyr*

192. Ar ôl ystyried yr ymatebion, nodwyd y pryderon ynghylch y model talu fesul defnydd ac nid ydym yn bwriadu bwrw ymlaen gyda hyn. Rydym yn bwriadu parhau gyda'r trefniadau ariannu presennol ar gyfer yr OCCS, gan rannu'r ffi ymhlith cofrestreion drwy'r ffi gofrestru, oherwydd y system hon yw'r un mwyaf syml i'w gweinyddu, a'n safonau ni yw'r dull gorau o fynd i'r afael ag unrhyw amrywioldeb mewn arferion annheg a thrin cwynion haen gyntaf gan fusnesau.

## Adran 5: Meysydd eraill

### 5.1 Asesiad o effaith

193. Fe wnaethom holi rhanddeiliaid a oedd unrhyw agweddau o'n cynigion a allai wahaniaethu yn erbyn rhanddeiliaid â nodweddion penodol. O'r 93 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn, dim ond naw o'r ymatebwyr a oedd yn credu bod hyn yn wir.

194. Nodwyd y themâu canlynol o'r sylwadau:

- yr anfantais bosibl i weithwyr rhan amser o ran rôl y pennaeth ymarfer optegol, sydd â chyfrifoldebau gofal plant neu gyfrifoldebau gofalu eraill yn aml – gallai hyn arwain at ragfarn tuag at gyflogeion llawn amser wrth benodi i'r rôl hon, a gallai effeithio mwy ar gofrestreion benywaidd;
- y diffyg hyblygrwydd yn y rôl pennaeth ymarfer optegol i ddarparu ar gyfer y rhai ar gyfnod mamolaeth neu ar absenoldebau hirdymor;
- cost y cynigion a'u heffaith ar fusnesau unigol, yn arbennig y rhai sy'n gwasanaethu poblogaethau sy'n cael eu tangynrychioli neu sy'n gweithredu gydag incwm isel.

195. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn poeni am y goblygiadau ar weithwyr rhan amser, y rhai â chyfrifoldebau gofalu a'r posibilrwydd y byddai costau uwch yn effeithio ar ddarpariaeth gwasanaeth i grwpiau agored i niwed.

196. Mae sampl o sylwadau ar gael yn y blwch isod.

> *"Wrth benodi PYO* [pennaeth ymarfer optegol]*, mae risg y gallai cyflogwyr ffafrio'r rhai sy'n gyflogeion llawn amser, yn hytrach na chyflogeion rhan amser, a allai effeithio ar y rhai â chyfrifoldebau gofal plant a chyfrifoldebau gofalu eraill. Mae hyn yn debygol o greu mwy o anfantais i gofrestreion benywaidd – sy'n llai tebygol o fod yn gweithio'n llawn amser [Arolwg Cofrestreion y GOC 2024]."* Coleg yr Optometryddion
>
> *"Nid yw cost y cynigion wedi'i nodi ar fusnesau unigol, felly gallai fod effaith ar ddarparu gwasanaethau i boblogaethau sy'n cael eu tanwasanaethu os bydd darparu gwasanaethau yn anghynaladwy oherwydd ffioedd cofrestru uwch neu bersonél ychwanegol. Mae hyn yn effeithio'n arbennig ar bobl ag anableddau, y rhai ar incwm isel a'r rhai o wahanol gefndiroedd ethnig y mae ymchwil yn dangos eu bod yn aml yn profi rhwystrau i gael mynediad at brofion golwg a gwasanaethau rhagnodedig eraill."* SeeAbility (Elusen/sefydliad cynrychioli cleifion)
>
> *"Gallai'r ffordd y mae'r Pennaeth Ymarfer Optegol (PYO) wedi'i bennu a'i gyfyngu gael effaith negyddol …"* FODO – Y Gymdeithas Darparwyr Gofal Llygaid

*“Gellid tybio bod y rôl PYO yn un llawn amser a gallai effeithio ar y rhai sy’n gweithio’n rhan amser oherwydd gofal plant neu gyfrifoldebau gofalu. Gallai un PYO gyfyngu ar bwy all wneud cais am y rôl – efallai y bydd cwmnïau yn dymuno penodi nifer o PYO i fel staff llanw ar gyfer beichiogrwydd neu absenoldeb tadolaeth neu salwch hirdymor.”* Optometreg yr Alban

*“Gallai’r gofynion arfaethedig ar gyfer Pennaeth Ymarfer Optegol e.e. bod yn gyflogedig, effeithio’n negyddol ar y rhai sy’n gweithio’n rhan amser (oherwydd cyfrifoldebau gofalu neu fagu plant) ac mewn rôl locwm.”* Optometreg Cymru

197. Fe wnaethom holi’r rhanddeiliaid a oedd unrhyw agweddau o’n cynigion a allai gael effaith gadarnhaol ar randdeiliaid â nodweddion arbennig. O’r 79 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn, dim ond saith ymatebwr oedd yn credu bod rhai.

198. Ni nodwyd unrhyw themâu cyffredin o’r sylwadau, ond gwnaed y pwyntiau canlynol:

- byddai proses gyson o reoleiddio busnesau yn fuddiol i bawb, a gallai arwain at safonau gwell ac effeithiau cadarnhaol i grwpiau amrywiol, yn arbennig y rhai sy’n wynebu heriau wrth gael mynediad at wasanaethau gofal llygaid, er enghraifft pobl ag anableddau;
- pwysigrwydd tegwch a dim gwahaniaethu mewn rheoliadau;
- gallai rheolau neu ganllawiau cliriach alluogi optometryddion iau i gymhwyso ar gyfer rolau y gallent fod wedi’u heithrio ohonynt oherwydd gofynion profiad sy’n gysylltiedig ag oedran;
- gallai’r cynigion gael effeithiau cadarnhaol ar grwpiau â nodweddion sy’n gysylltiedig ag oedran, anabledd, rhyw a hil.

199. Mae sampl o sylwadau ar gael yn y blwch isod.

*“Byddai rheoleiddio gwell er budd i bawb.”* Optometrydd

*“Pe byddai’r broses o reoleiddio busnesau yn fwy cyson a’r safonau’n cael eu codi, dylai fod effaith gadarnhaol ar draws y boblogaeth ac i’r rhai sy’n adrodd profiadau gwaeth nac eraill o ran cael mynediad at wasanaethau gofal llygaid (er enghraifft pobl ag anableddau). Gallai hefyd liniaru’r pryderon sydd gan gofrestreion unigol, er gwaetha’r safonau proffesiynol y mae’n ofynnol iddynt lynu atynt, bod gorchmynion masnachol i’w hwynebu a allai eu rhoi mewn sefyllfa anodd o bryd i’w gilydd. Nodwyd y rhain gan y GOC yn yr ymgynghoriad eu bod wedi cael effaith ar ofal cleifion a gofal clinigol.”* SeeAbility (Elusen/sefydliad sy’n cynrychioli cleifion)

*“Pe byddai’r GOC yn nodi mewn rheolau/canllawiau, y nodweddion hanfodol y maent yn ystyried eu bod yn angenrheidiol ar gyfer y PYO, gallai hyn helpu rhai*

*optometryddion iau i gymhwyso ar gyfer y rôl, optometryddion na fyddent wedi'u hystyried yn ddigon profiadol fel arall o bosibl oherwydd eu hoedran yn unig."*
Coleg yr Optometryddion

*"Rydym yn cytuno ag asesiad y GOC a nodir yn yr Asesiad Effaith ategol y gallai'r cynigion gael effeithiau cadarnhaol ar grwpiau â nodweddion penodol. Gallai'r cynigion fod yn fuddiol i grwpiau â nodweddion a rennir sy'n gysylltiedig ag oedran, anabledd, rhyw, a hil."* PSA

*Ymateb y GOC – asesiad effaith*

200. Fe wnaethom nodi'r pryderon y gallai'r rôl pennaeth ymarfer optegol gael effaith negyddol ar fenywod, gweithwyr rhan amser a'r rhai ar absenoldebau hirdymor gan gynnwys cyfnod mamolaeth, oherwydd gallai'r bobl hyn fod yn llai tebygol o gael eu dewis ar gyfer y rolau hyn. Bydd y rhain yn cael eu hystyried wrth i ni weithio drwy'r trefniadau manwl ar gyfer gweithredu.

201. Rydym hefyd yn nodi'r sylw ynghylch ffioedd a'r effaith y gallai hynny ei chael pe na allai busnesau weithredu mewn poblogaethau sy'n cael eu tanwasanaethu. Byddem yn disgwyl i'r ddeddfwriaeth ddarparu hyblygrwydd o ran ffioedd ond bydd hyn yn cael ei ystyried ymhellach yn dilyn diwygiadau i ddeddfwriaeth.

202. Fe wnaethom nodi'r farn y byddai effeithiau cadarnhaol ar bersonau â nodweddion gwarchodedig pe byddai'r broses rheoleiddio busnesau yn gyson a phe byddai rheoliadau/canllawiau yn hyrwyddo tegwch.

**5.2 Yr iaith Gymraeg**

203. Fe wnaethom ofyn i randdeiliaid a fyddai'r newidiadau arfaethedig yn cael effaith negyddol ar: (i) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg, a (ii) peidio trin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg. O'r 85 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn, dim ond tri oedd yn credu y byddai unrhyw effeithiau ond ni wnaethant ddarparu unrhyw fanylion sylweddol yn y sylwadau.

204. Fe wnaethom ofyn i randdeiliaid a fyddai'n bosibl diwygio'r newidiadau arfaethedig er mwyn iddynt gael effeithiau cadarnhaol, neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar: (i) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg, a (ii) peidio trin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg. O'r 63 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn, dim ond dau oedd yn credu y byddai unrhyw effeithiau ond ni wnaethant ddarparu unrhyw fanylion sylweddol yn y sylwadau.

205. Fe wnaethom ofyn i randdeiliaid a fyddai'n bosibl diwygio'r newidiadau er mwyn iddynt beidio cael effeithiau negyddol, neu eu bod yn cael llai o effeithiau negyddol ar: cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg, a (ii) peidio trin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg. O'r 61 o ymatebwyr a atebodd y

cwestiwn, dim ond tri oedd yn credu y byddai unrhyw effeithiau ond ni wnaethant ddarparu unrhyw fanylion sylweddol yn y sylwadau.

*Ymatebion y GOC – Yr iaith Gymraeg*

206. Nid ydym yn credu y byddai ein cynigion yn cael unrhyw effeithiau andwyol ar siaradwyr Cymraeg ac rydym wedi manylu ar hyn yn ein hasesiad effaith wedi'i ddiweddaru.

**5.3 Unrhyw feysydd eraill**

207. Fe wnaethom ofyn i'r rhanddeiliaid ddweud wrthym am unrhyw feysydd eraill sy'n berthnasol i reoleiddio busnesau nad ydynt wedi'u trafod yn yr ymgynghoriad. Darparodd tri deg wyth o ymatebwyr sylwadau testun rhydd yn eu hymatebion.

208. Nodwyd y pwyntiau canlynol o'r sylwadau nad oeddynt eisoes wedi'u trafod uchod ac rydym wedi ymateb i'r rhain ar ôl y crynodeb o bob pwynt:

- rheoleiddio gwerthiannau ar-lein, gyda llawer yn tynnu sylw at y risgiau sy'n gysylltiedig â busnesau heb eu cofrestru yn gwerthu lensys cyswllt a sbectolau ar-lein. Galwyd i'r busnesau hyn gael eu dwyn o dan reolaeth reoleiddiol i sicrhau diogelwch y cyhoedd ac i fynd i'r afael â materion fel presgripsiynau anghywir a deunyddiau o ansawdd gwael – ymateb y GOC: o dan ein model newydd o reoleiddio busnesau, bydd gofyn i werthwyr ar-lein sydd wedi'u lleoli yn y DU gofrestru gyda ni os ydynt yn darparu swyddogaethau cyfyngedig penodedig. Bydd pob busnes o fewn cwmpas y ddeddfwriaeth yn ddarostyngedig i'n safonau p'un a ydynt yn gweithredu'n ffisegol neu ar-lein;

- galwadau i'r GOC fynd i'r afael â materion gyda manwerthwyr ar-lein y tu allan i'r DU ac i bob darparwr gwasanaethau optegol yn y DU gael eu cofrestru gyda'r GOC – *Ymateb y GOC:* fel yr amlinellwyd ar dudalennau 133-134 ein hymateb i'r galwad am dystiolaeth ar y Ddeddf Optegwyr, "Dim ond yn y DU y mae Deddf yr Optegwyr yn berthnasol ac mae'n anodd defnyddio cyfraith y DU i erlyn cwmni tramor hyd yn oed pan fo'r prynwr yn y DU. Byddai problemau ymarferol wrth gyflwyno gwrandawiad heb y pŵer i orfodi'r diffynnydd i fynychu llys yn y DU. Byddai hefyd yn anodd iawn gorfodi unrhyw euogfarn neu orchymyn." Nodwn gais Coleg yr Optometryddion i ni godi mater gwerthiannau tramor nad ydynt yn cydymffurfio â chyfraith y DU gyda'r rheoleiddiwr/awdurdod cenedlaethol priodol a chael y pwerau i roi terfyn ar yr arfer anghyfreithlon sy'n digwydd yn y DU. Ni fyddai'n briodol i ni ysgrifennu at awdurdodau gwledydd eraill am werthwyr sydd wedi'u lleoli mewn awdurdodaethau eraill, gan nad yw hyn yn rhan o'n cylch gwaith a rhaid i ni gymhwyso arian cofrestreion tuag at ein dibenion statudol ni. Beth bynnag, ein dealltwriaeth ni yw na fyddai

gan awdurdodau gwledydd eraill unrhyw sail i gymryd camau os yw'r busnesau'n cydymffurfio â'u deddfwriaethau domestig. Nodwn hefyd alwadau'r AOP i ni ddod yn arweinydd syniadau ac yn arloeswr yn y maes hwn. Yn eu hadroddiad yn 2022 Safer care for all, mae’r PSA yn galw ar lywodraethau i ddefnyddio rhaglen diwygio deddfwriaethau presennol y rheoleiddiwr gofal iechyd “i sicrhau bod gan reoleiddwyr yr hyblygrwydd i fynd i’r afael â’r heriau a gyflwynir gan y dulliau newydd o ran ariannu a darparu gofal, gan gynnwys cyflwyno technolegau newydd”, gan sôn yn benodol am yr anawsterau yng ngallu rheoleiddwyr i weithredu yn erbyn darparwyr ar-lein sy'n cael eu "rhwystro gan gyfyngiadau ar eu hawdurdodaethau daearyddol". Rydym yn parhau i fod yn rhan o grwpiau rhyng-reoleiddio dan arweiniad cyrff y llywodraeth a'r PSA sy'n trafod gwerthiannau ar-lein a thechnolegau newydd;

- gallai’r pwysau masnachol ar optometryddion i gyflawni targedau gwerthu a’r gwrthdaro buddiannau posibl pan fydd optometryddion yn rhan o gynlluniau bonws gyfaddawdu gofal cleifion a dylai’r GOC ddarparu arweiniad clir i atal arferion o’r fath a diogelu cyflogeion sy’n mynegi pryderon – *ymateb y GOC:* mae ein safonau ymarfer yn mynd i’r afael â materion o’r fath, gan gynnwys yr angen i’n cofrestreion ddefnyddio eu barn broffesiynol, rydym yn annog ein cofrestreion i godi eu llais (gydag arweiniad ategol) pan fyddant yn credu bod gofal cleifion yn cael ei gyfaddawdu a nodi’r cymorth sydd ar gael iddynt. Yn ogystal, yn 2025/26 byddwn yn dechrau adolygiad thematig ar bractisau masnachol a diogelwch cleifion, a ddyluniwyd i asesu’r risgiau presennol neu’r rhai sy’n dod i’r amlwg yn y sector;

- adolygiad o’r safonau ymarfer <https://optical.org/en/standards-and-guidance/> i sicrhau bod y cydbwysedd yn gywir rhwng cyfrifoldebau unigolion a busnesau i fynd i’r afael â’r pwysau masnachol a’r pryderon ynglŷn â chodi eich llais a nodwyd uchod - *ymateb y GOC:* rydym yn bwriadu dechrau ein hadolygiad o’n safonau ar gyfer cofrestreion busnes yn ddiweddarach yn 2025, a byddwn yn adolygu cydbwysedd y safonau rhwng unigolion a busnesau fel rhan o hyn;

- effaith y broses reoleiddio bresennol (e.e. os oes ganddyn nhw gontract GIG) ac unrhyw reoliad busnes estynedig ar bractisau bach, gyda phryderon ynghylch baich annheg ac y gallai rheoleiddio cynyddol arwain at gau practisau bach, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig lle maent yn hanfodol ar gyfer mynediad cleifion at ofal – *ymateb y GOC*: rydym yn nodi'r pryderon ynghylch yr effaith ar fusnesau bach a byddwn yn ystyried hyn wrth ddylunio'r system newydd i sicrhau bod ein dull gweithredu yn gymesur;

- trosolwg mwy manwl o'r bylchau yn y broses reoleiddio, yn arbennig y rhai sy'n gysylltiedig â gweithgareddau anghyfyngedig, er enghraifft cynlluniau gwell ar gyfer rhagnodi annibynnol a gofal glawcoma, y mae llawer ohonynt yn cael eu darparu o dan gontractau'r GIG ac sy'n cael eu cwmpasu gan y CQC - *Ymateb y GOC:* fel yr amlinellwyd yn ein hymateb i'r galwad am dystiolaeth ar y Ddeddf Optegwyr, nid ydym yn credu bod achos wedi'i wneud i newid y rhestr bresennol o swyddogaethau cyfyngedig i gynnwys cynlluniau gwell sydd i bob pwrpas yn rhan o wasanaethau meddygol a reoleiddir gan y CQC. Fodd bynnag, er mwyn diogelu'r ddeddfwriaeth ar gyfer y dyfodol, fe wnaethom gynnig dull i'r GOC wneud argymhellion i'r Ysgrifennydd Gwladol i newid y rhestr o swyddogaethau cyfyngedig heb yr angen am ddeddfwriaeth sylfaenol;
- galwad am reoleiddio mwy cadarn ym maes gofal llygaid cartref oherwydd y risgiau a gyflwynir i ymarferwyr a chleifion - *ymateb y GOC:* fel rhan o'n strategaeth gorfforaethol ar gyfer 2025/30, byddwn yn cynnal nifer o adolygiadau thematig i asesu risgiau presennol neu rai sy'n dod i'r amlwg yn y sector - gofal cartref yw un o'r meysydd y byddwn yn eu hystyried ar gyfer adolygiad thematig yn y dyfodol;
- pryderon ynglŷn â'r defnydd o ymarferwyr locwm gan fusnesau - *ymateb y GOC:* busnesau unigol sydd i benderfynu a yw'n briodol defnyddio ymarferwyr locwm a sicrhau eu bod wedi'u cymhwyso a'u hyfforddi'n briodol. Mae ein Safonau ar gyfer Busnesau Optegol <https://optical.org/en/standards-and-guidance/standards-for-optical-businesses/> yn cyfeirio at ymarferwyr locwm a byddwn yn ystyried fel rhan o'n hadolygiad o'r safonau hyn a ddylid gwneud unrhyw ddiwygiadau pellach yn y maes hwn.

209. Gwnaed nifer o sylwadau a oedd y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad hwn ac felly nid ydynt wedi'u hystyried yma.